# COD YMARFER

Statudol

# AR GYDRADDOLDEB HILIOL YM MAES TAI

Cymru

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

# Cynnwys


RHAGAIR 5

1. CYFLWYNIAD 7

Nodau'r cod 9

Statws y cod 11

Cymhwyso'r cod 11

  Awdurdodau cyhoeddus 12

  Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru 12

Manteision y cod 13

Meysydd cydraddoldeb eraill 13

Yr Iaith Gymraeg 14

Sut i ddefnyddio'r cod 14

2. Y CYD-DESTUN CYFREITHIOL 17

Beth yw gwahaniaethu ar sail hil? 19

  Gwahaniaethu uniongyrchol 20

  Gwahaniaethu anuniongyrchol 22

  Erledigaeth 26

  Aflonyddu 26

Pwysau neu gyfarwyddyd i wahaniaethu 28

Hysbysebion sy'n gwahaniaethu 29

Achosion cyfreithiol 30

Baich y profi 30

Elusennau 30

Gweithredu cadarnhaol 30

Awdurdodau cyhoeddus 31

  Cynllun cydraddoldeb hiliol 32

Dyletswyddau o ran cyflogaeth 33

Gorfodi 33

Caffael 34

Partneriaethau 35

Tai a Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 35

Gwasanaethau cynllunio a swyddogaethau eraill awdurdodau cyhoeddus 35

Darparu gwasanaethau 36

Rheoli, gosod a gwerthiannau 38

Deddf Gwerthwyr Tai 1979 41

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 41

Deddf Tai 2004 41

**3. TAI AC ARFER DA** 43

Cyflwyniad 45

A. Rheolaeth a rôl cyrff llywodraethol 47

B. Tai newydd a thai gwell 49

C. Gwerthiannau a gosod 52

CH. Benthyca morgeisi ac yswiriant 59

D. Cyngor ar ddigartrefedd a thai 61

DD. Adfywio ac integreiddio cymdogaethau 64

E. Tenantiaeth a rheolaeth tai 67

F. Aflonyddu hiliol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol 72

FF. Contractwyr a chaffaeliad 74

G. Cyfranogiad trigolion a thenantiaid 77

**4. HYFFORDDIANT, MONITRO AC ASESU EFFAITH CYDRADDOLDEB HILIOL** 81

Hyfforddi 83

Monitro 84

Asesu effeithiau cydraddoldeb hiliol 86

Mathau o asesu effeithiau cydraddoldeb hiliol 87

| | |
|---|---|
| **ATODIADAU** | 89 |
| 1. Eithriadau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 | 91 |
| 2. Canllawiau a gwefannau | 93 |
| 3. Geirfa | 100 |

# Rhagair

Nid mater o bolisi llywodraeth yn unig yw ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ond yn bwysig mae hefyd yn un o egwyddorion sylfaenol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ymgorfforir yn Neddf Llywodraeth Cymru. Mae sicrhau cydraddoldeb felly yn amcan craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr un ffordd bron â pholisïau iechyd neu addysg.

Mae gennyf uchelgais nad hil fydd yn penderfynu'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer pobl Cymru gan ein gwasanaethau cyhoeddus, a'r cyfleoedd a gynigir yn y gymdeithas Gymreig; bod cyfiawnder cymdeithasol yn wirioneddol gyfiawn, yn ymateb i anghenion yr unigolyn ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a grëir gan wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, erledigaeth ac aflonyddu. Hybir yr uchelgais hon gan bolisi Llywodraeth y Cynulliad, ein harweinyddiaeth gleidyddol amlwg a thrwy ddefnyddio adnoddau, y mae Llywodraeth y Cynulliad, rwy'n credu, wedi canolbwyntio pob un ohonynt ar sicrhau cydraddoldeb. Gyda'n partneriaid rydym eisoes wedi cyflawni llawer i sicrhau bod cyfleoedd bywyd ar gyfer unigolion o leiafrifoedd ethnig gystal â'r rheini mewn grwpiau eraill.  Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud cyn y gwireddir yr uchelgais.

Mae'r angen am gysgod yn un o anghenion craidd dynoliaeth, ac mae darparu tai priodol o ansawdd da yn allweddol i daclo allgau cymdeithasol ac anghydraddoldeb.  Dyna pam rwy'n hapus i gefnogi'r cod hwn, a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Mae'n ddogfen ymarferol a chynhwysfawr, sy'n amlinellu anghenion cyfreithiol a chyngor ynglŷn ag arferion da ar gyfer asiantaethau ac unigolion. Mae'r cod felly'n gymorth nid yn unig i ddeall sut i gydymffurfio â gofynion, ond hefyd wrth adolygu a datblygu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ein hagenda cydraddoldeb, ac nid yn tynnu oddi wrthi.

**Edwina Hart** AC MBE
*Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

# 1

## *Cyflwyniad*

# 1

# Cyflwyniad

1.1 Mae'r cod ymarfer statudol hwn yn cymryd lle'r codau ymarfer statudol ynglŷn â thai ar rent a thai heb fod ar rent, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) ym 1991 a 1992. Mae'n delio â'r holl feysydd tai yng Nghymru. Cyhoeddwyd codau ar wahân ar gyfer Lloegr a'r Alban.[1]

1.2 Mae'r cyfeiriadau at y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (DCH) yn cynnwys pob deddfwriaeth ddiwygiol ddilynol.

1.3 Mae'r DCH yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y CRE:

a. i weithio er mwyn dileu gwahaniaethu ac aflonyddu hiliol;

b. i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil; ac

c. adolygu'r modd y mae'r DCH yn gweithio, ac, os bydd angen, rhoi cynigion gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol i'w haddasu.

1.4 Mae Adran 47 DCH yn rhoi'r grym i'r CRE i lunio codau ymarfer ym maes cyflogaeth a thai, ac i roi unrhyw gyfarwyddyd ymarferol y gwêl angen amdano, er mwyn atal gwahaniaethu hiliol ac aflonyddu anghyfreithlon.

## Nodau'r cod

1.5 Ers cyhoeddi'r codau cyntaf, bu newidiadau amlwg yn y modd y darperir ac y rheolir tai yng Nghymru. Yn ogystal â'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth tai sylfaenol a gyflwynwyd gan y Senedd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymryd cyfrifoldeb dros dai yng Nghymru ac wedi cyflwyno codau a rheoliadau newydd trwy ddeddfwriaeth eilaidd, mae nifer o landlordiaid cymdeithasol newydd wedi dod i fod; mae sectorau'r cymdeithasau tai a'r rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol; mae sector y perchennog-breswylydd wedi parhau i ffynnu, gyda llawer mwy o sefydliadau ac unigolion bellach yn rhan o'r farchnad hon; ac mae'r ddeddf sy'n ymwneud â thai wedi newid.

1.6 Mae cyd-destun gwaith ar gydraddoldeb hiliol wedi newid hefyd. Gwnaed newidiadau pwysig i'r DCH, ac estynnwyd nawdd y Gyfraith i fathau eraill o gydraddoldeb. Tyfodd y boblogaeth leiafrifol ethnig yng Nghymru o ran maint ac amrywiaeth, ac er mai bychan ydyw o gymharu â rhannau eraill o Brydain, mae'n fwy amrywiol na phoblogaeth leiafrifol ethnig Prydain yn gyffredinol,

---

1.7 Nid yw'r CRE wedi cynhyrchu cod ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan nad yw Deddf Cysylltiadau Hiliol yn gymwys yno, a chaiff ei chwmpasu o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

gyda chanrannau uwch yn dod o rieni cymysg neu o’r grwpiau ethnig ‘eraill’. Er bod pobl o leiafrifoedd ethnig wedi sefydlu yn ne ddwyrain Cymru yn bennaf, lle mae eu rhan hwy o’r boblogaeth breswyl fwyaf a lle mae mwyaf o amrywiaeth ethnig, gellir eu canfod bellach ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys cymunedau bychain gwledig ac arfordirol, gan ychwanegu at bresenoldeb hirdymor grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr ym mhob ardal yng Nghymru. Mae dyfodiad gweithwyr o ardaloedd eraill na chysylltir yn draddodiadol ag ymfudo i Gymru, megis aelod-wladwriaethau’r UE a Phortiwgal, yn ychwanegu at yr amrywiaeth. Mae gan boblogaeth y ceiswyr lloches a’r ffoaduriaid, sydd yn eithaf bychan ac wedi’i lleoli’n bennaf yn y prif ddinasoedd, anghenion gwahanol i’r boblogaeth leiafrifol ethnig gyffredinol. Mae angen i sefydliadau ac asiantaethau tai ystyried anghenion y grwpiau ymfudol mwy newydd hyn, a all fod yn fwy difreintiedig na grwpiau sefydlog, yn ogystal ag ystyried y cwestiwn o integreiddio cymdeithasol, sydd wedi dod yn fwyfwy pwysig .[2]

1.7 Er yr amrywiadau rhwng grwpiau lleiafrifol ethnig, mae llawer yn fwy tebygol o brofi amddifadedd tai na grwpiau eraill, gyda thai gorlawn, yn arbennig yn y sector rhentu preifat, yn broblem ddifrifol. Mewn rhai ardaloedd mae aflonyddu hiliol yn realiti parhaus i gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yn olaf, mae goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb hiliol oherwydd y tyndra rhwng yr anghenion tai yn llawer o gymunedau gwledig bychain Cymru a’r incwm uwch sydd ar gael i’r rheini sy’n dymuno symud i mewn o ardaloedd eraill a phrynu cartrefi yn y cymunedau hyn.

1.8 Mae angen i’r cod hwn adlewyrchu’r holl newidiadau hyn, ac adeiladu ar brofiad a gwersi’r 15 mlynedd ers cyhoeddi codau cyntaf y CRE ar dai. Amcanion y cod yw:

a. gosod safonau ar gyfer sicrhau cydraddoldeb hiliol;

b. darparu cyfarwyddyd ymarferol a fydd yn cynorthwyo sefydliadau ac unigolion sy’n ymwneud â holl faes tai i osgoi gwahaniaethu ac aflonyddu hiliol anghyfreithlon; i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, ac annog cysylltiadau hiliol da; a

c. sicrhau bod unrhyw un sy’n ystyried dwyn achos cyfreithiol, neu sydd â phryder ynglŷn â’r modd y gwnaed penderfyniadau mewn materion tai, yn deall y ddeddfwriaeth, eu hawliau, a beth yw arfer da ym maes tai.

1.9 Mae’r arfer da y cyfeirir ato yn y cod hwn yn tynnu ar bethau a wnaed gan sefydliadau ac asiantaethau tai sydd wedi profi’n llwyddiant, ac yn cyfeirio at

---

2. Gweler Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Proffil o Amgylchiadau Tai a Chymdeithasol-economaidd Pobl Dduon a'r Rhai o Dras Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru 2001*, Mai 2005. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth am nodweddion y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig, patrymau yn y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig a'r patrymau newid tebygol yn y dyfodol. Mae ystadegau a ddiwygir yn flynyddol i'w cael ar wefan y Cynulliad yn www.wales.gov.uk.

ffynonellau amrywiol o wybodaeth a chyfarwyddyd pellach. Dylid edrych felly ar y cod hwn fel rhywbeth sy'n atodi gwaith a wneir eisoes.

## Statws y Cod

1.10 Mae'r cod hwn yn god statudol; mae wedi ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i gyflwyno i'r Senedd. Golyga hyn bod yn rhaid i'r llysoedd ystyried ei argymhellion mewn achosion a ddygir dan y DCH, os cyflwynir y cod fel tystiolaeth ac os yw'n ymddangos ei fod yn berthnasol i unrhyw gwestiwn sy'n deillio yn ystod yr achos. Dylai unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am weithgareddau a phenderfyniadau sefydliad tai, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â gosod uniongyrchol, allu amddiffyn eu hunain yn well mewn achos o honiadau o wahaniaethu hiliol anghyfreithlon a ddygir yn erbyn y sefydliad os byddant wedi dilyn argymhellion y cod. Nid yw'r cod yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith; gellir ond darparu hyn gan y llysoedd.

1.11 Ar wahân i amlinellu'r gyfraith fel y mae'n gymwys i dai a chyfrifoldebau sefydliadau tai o dan y gyfraith, mae'r cod yn gwneud argymhellion ynglŷn ag arfer da a'r canlyniadau y dylai sefydliadau tai fod yn anelu atynt. Dylai'r rhain ffurfio sail unrhyw asesiad o gydymffurfiaeth â'r cod hwn. Bydd canllawiau rheoleiddiol a chynghorol eraill hefyd yn berthnasol a dylid eu hystyried fel atodiad i'r cod. Mae'r rhain yn cynnwys y codau a'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru[3], sy'n egluro'r gyfraith benodol o ran tai yng Nghymru, a'r gofynion y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi eu gosod ar ddarparwyr tai. Ychwanegir atynt gan ganllawiau ar bolisi, gan gynnwys yr arfer cydraddoldeb hiliol, y disgwylir i sefydliadau tai sy'n derbyn nawdd ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei ddilyn.

## Cymhwyso'r cod

1.12 Mae'r cod yn gymwys ar gyfer holl ddarparwyr tai a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, pa un ai o fewn y sector cyhoeddus, y sector preifat, neu'r sectorau cymunedol a gwirfoddol, yn cynnwys landlordiaid, adeiladwyr tai, gwerthwyr preifat a gwerthwyr tai. Mae hefyd yn berthnasol i ddefnyddwyr tai a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai. Mae hyn yn golygu y bydd y cod yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ymwneud â thai yn ogystal â'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â darparu tai, cyfleoedd am dai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys datblygwyr, tenantiaid a phreswylwyr.

---

3. O dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ffurfio un hunaniaeth gorfforaethol. Mae'r cod hwn yn defnyddio'r ail enw wrth gyfeirio ar ddogfennau polisi a darpariaethau sydd heb statws rheoleiddiol. Gellir gweld y codau a'r rheoliadau ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.housing.wales.gov.uk): gweler, er enghraifft *Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau lleol ynglŷn â Dyrannu Llety a Digartrefedd a'r Cod Rheoleiddiol r gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru*.

1.13 Mae'r cod yn delio â holl ystod daliadaeth tai, a hefyd â mater cynllunio yn ei berthynas â thai dan adran 19A DCH. Mae'n delio â safleoedd carafannau yn ogystal â thai 'brics a mortar'. Mae'r cod hefyd yn delio â thai a ddarperir fel rhan o gytundeb cyflogaeth, er enghraifft tai clwm, neu dai wedi'u darparu ar gyfer nyrsys, swyddogion yr heddlu neu swyddogion carchar gan eu cyflogwyr.

1.14 Nid yw'r cod wedi ei gyfyngu i'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith, gan ei fod hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd ynglŷn ag arfer da. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfarwyddyd yn gymwys i'r holl sefydliadau tai, beth bynnag eu maint. Weithiau, gall fod angen addasu'r cyfarwyddyd ar gyfer amgylchiadau unigol sefydliad tai - er enghraifft, mae'n bosibl na fydd sefydliadau llai, gan gynnwys landlordiaid preifat bychain, angen y drefniadaeth fanwl a argymhellir yn y cod, megis y systemau cymhleth ar gyfer monitro tai. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn gyson â'r DCH, ac yn dilyn ysbryd ac amcanion cyffredinol y cod hwn.

## Awdurdodau cyhoeddus

1.15 Tra bo'r DCH yn berthnasol i bob sefydliad, mae adran 71(1) yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus. Nod y dyletswyddau hyn yw gwneud hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da yn ganolog i'w gwaith. O ganlyniad, mae'r cod hwn yn gosod mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus nag ar sefydliadau tai eraill. Mae'r testun yn gwneud hyn yn glir. Nid awdurdodau cyhoeddus yw'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, ond mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gosod arnynt hwythau gyfrifoldebau tebyg i'r rhai a gynhwysir yn adran 71(1).

1.16 Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod llawer o'r cyfarwyddyd ynglŷn â chyflawni'r dyletswyddau yn berthnasol i'r holl sefydliadau tai. Cyhoeddwyd ar wahân grynodeb o argymhellion y cod ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau tai yn y sector preifat.

## Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

1.17 Yn ogystal â'i ddyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol dan adran 71 o'r DCH, mae adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud trefniadau i roi 'sylw dyledus' i egwyddor cyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau.

1.18 Nid yw Deddf 1998 yn nodi'r trefniadau hyn yn fanwl (ar wahân i fynnu adroddiad blynyddol ar yr hyn a wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru), ond, ym maes tai, mae'r Cynulliad wedi cynnwys gofynion i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'i bolisïau a'i godau a'i reoliadau, y mae ei ail gynllun cydraddoldeb hiliol, a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2005, wedi ymrwymo i'w gweithredu.

1.19 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei *Chynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig* yn 2002[4]. Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen weithredu wedi ei hamserlennu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr tai eraill wedi cytuno i'w dilyn er mwyn cyflawni rhai o'u cyfrifoldebau dan y DCH ac adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

1.20 Dylai'r gweithgareddau hyn gyfrannu at wneud cydraddoldeb hiliol yn rhan o arfer da mewn materion tai ond ni fyddant yn ddigonol ynddynt eu hunain i ddelio â holl agweddau cydraddoldeb hiliol; bydd angen ychwanegu at ddarpariaethau'r cynllun gan fesurau sy'n seiliedig ar argymhellion y cod hwn, os yw'r sefydliadau yn y maes tai i fod yn hyderus eu bod yn rhoi ystyriaeth gywir i'r holl faterion cydraddoldeb hiliol sydd ynglŷn â thai yng Nghymru.

## Manteision y cod

1.21 Dylai'r cod hwn fod o gymorth i sefydliadau ac asiantaethau tai, gan gynnwys landlordiaid unigol i:

a. ddeall a chyflawni eu hymrwymiadau cyfreithiol dan y DCH;

b. mabwysiadu a gweithredu polisïau effeithiol, sydd wedi eu cynllunio i atal gwahaniaethu neu aflonyddu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da;

c. sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau tai yn cael eu trin yn gydradd; a hyd y bo modd, bod eu hanghenion yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad;

ch. gwella bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau y maent yn eu darparu;

d. lleihau'r perygl o atebolrwydd cyfreithiol, anghydfodau costus sy'n mynd ag amser, a niwed posibl i enw da'r sefydliad; a

dd. cael ei ystyried fel sefydliad sy'n driw i'w air ac yn darparu gwasanaeth teg a defnyddiol i bawb yn yr ardal a wasanaethir ganddo.

1.22 Dylai'r cod hefyd fod o gymorth i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau tai i wybod eu hawliau dan y DCH, ac i fod yn ymwybodol o beth yw arfer da ym maes tai a chysylltiadau hiliol.

---

4. Ymgynghorodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei 'strategaeth tai pobl ddu a lleiafrifol ethnig' ym mis Ebrill 2001, pan benderfynwyd gweithredu'r strategaeth drwy *Gynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig* a lansiwyd yn 2002. I gael copi o'r cynllun gweithredu, gweler www.housing.wales.gov.uk/index.asp?task=content@a=w3.

## Meysydd cydraddoldeb eraill

1.23 Mae a wnelo'r cod hwn â materion tai yn y modd y maent yn effeithio ar bobl o grwpiau hil gwahanol. Fodd bynnag, gall yr argymhellion sydd ynddo fod yn ddefnyddiol hefyd, ac yn ategol at fentrau a gymerwyd, mewn meysydd eraill o gydraddoldeb, yn cynnwys anabledd, rhyw, crefydd neu gred, oedran a thueddfryd rhywiol. Dylai sefydliadau tai fod yn ymwybodol y gall y categorïau hyn dorri drwy'i gilydd ac atgyfnerthu ei gilydd, gan olygu anghenion dwysach.

## Yr Iaith Gymraeg

1.24 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n rhoi hawl absoliwt i siaradwyr Cymraeg siarad Cymraeg yn y llys, ac mae wedi sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fonitro sefydliadau i sicrhau eu bod yn cadw at y gyfraith, ac i hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae gofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a sefydliadau cyhoeddus megis awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd ac asiantaethau'r llywodraeth, i baratoi a gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, gan amlinellu'r gwasanaethau a fydd ar gael yn y Gymraeg, a sut y byddant yn cael eu darparu. Mae Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai yn gosod dyletswydd ar bob cymdeithas tai i gynhyrchu cynllun iaith Gymraeg.[5]

1.25 Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, yn disgrifio'r camau y bydd yn eu cymryd i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Mae'r cynllun yn cyfeirio at y cyswllt rhwng mynediad at dai (yn arbennig tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig) a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.[6]

## Sut i ddefnyddio'r cod

1.26 Rhennir y cod yn bedair pennod, yn cynnwys y cyflwyniad hwn.

a. Mae Pennod 2 yn trafod y cyd-destun cyfreithiol, ac yn egluro goblygiadau'r DCH a deddfau ac offerynnau perthnasol eraill ar gyfer swyddogaethau pob sefydliad tai a phob daliadaeth tai.

b. Mae Pennod 3 yn gwneud argymhellion ar gyfer arfer da mewn 10 o feysydd allweddol tai. Mae hefyd yn rhestru'r prif ganlyniadau y gall sefydliadau tai eu disgwyl o ddilyn argymhellion y cod.

---

5. I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf yr Iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ewch i www.bwrdd-yr-iaith.org.uk.

6. I gael rhagor o wybodaeth am *Iaith Pawb*, ewch i www.wales.gov.uk/subiculture/content/wellang_e.htm

c. Mae Pennod 4 yn rhoi cyngor ynghylch hyfforddiant, monitro ac asesu effaith cydraddoldeb hiliol. Dyma dri gweithgaredd sy'n allweddol er mwyn cyflawni argymhellion y cod.

1.27 Mae Atodiad 1 yn rhestru eithriadau i'r gwaharddiadau cyffredinol o wahaniaethu ac aflonyddu o dan DCH. Mae Atodiad 2 yn rhestru ffynonellau gwybodaeth bellach, canllawiau, cyngor a chymorth ac yn Atodiad 3 ceir rhestr o'r eirfa fel y'i defnyddir yn y cod hwn.

1.28 Mae'r cod yn defnyddio amryw o enghreifftiau i ddangos neu egluro cysyniadau cyfreithiol a manylion eraill yn y testun. Mae'r mwyafrif ohonynt, er nad y cyfan, ym maes tai. Dangosir hyn yn glir pan fo'r enghraifft wedi ei seilio ar achos penodol. Ni ddylid ystyried yr enghreifftiau yn ddatganiadau o'r gyfraith.

# 2

## *Y cyd-destun cyfreithiol*

2

# Y cyd-destun cyfreithiol

2.1 Mae'r bennod hon yn esbonio'r diffiniadau cyfreithiol o wahaniaethu ac aflonyddu hiliol. Mae hefyd yn egluro sut y cant eu cymhwyso ar gyfer y sefydliadau neu'r unigolion sy'n gosod, rheoli neu werthu tai, neu'n darparu gwasanaethau cysylltiedig: er enghraifft, gwerthwyr tai, asiantaethau gosod, priswyr, darparwyr yswiriant cartref, benthycwyr morgeisi a darparwyr gwasanaethau iechyd yr amgylchedd neu gynllunio. Ceir ar ddechrau'r bennod esboniad o ddarpariaeth gyffredinol Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (DCH). Yna rhoddir sylw i ddarpariaeth benodol y Ddeddf ar gyfer darparwyr tai a gwasanaethau sy'n ymwneud â thai.

2.2 Defnyddiwyd y term 'hiliaeth sefydliadol' gan Syr William Macpherson yn ei adroddiad i'r ymchwiliad i lofruddiaeth Stephen Lawrence. Mae'n disgrifio:

> ... methiant cyfunol sefydliad i ddarparu gwasanaeth priodol a phroffesiynol i bobl oherwydd eu lliw, eu diwylliant neu eu tarddiad ethnig. Gellir ei weld neu ei ddatgelu mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n golygu gwahaniaethu trwy ragfarn, anwybodaeth a dihidrwydd diarwybod ac ystrydebu hiliol.

Parodd y syniad o hiliaeth sefydliadol, ynghyd ag adroddiad yr ymchwiliad, ddiwygiadau allweddol i'r DCH. Roedd y rhain yn cynnwys gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn eu holl swyddogaethau (gweler paragraffau 2.43-2.45). Er hynny, nid oes unrhyw rym cyfreithiol i'r syniad ei hun.

## Beth yw gwahaniaethu ar sail hil?

2.3 Yn ôl DCH mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu ar 'sail hil' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3). Mae'r Ddeddf yn diffinio pedwar prif fath o wahaniaethu:

a. gwahaniaethu uniongyrchol;

b. gwahaniaethu anuniongyrchol;

c. erledigaeth; ac

ch. aflonyddu.

2.4 Mae diffiniad y DCH o 'sail hil' yn cynnwys hil, lliw, cenedligrwydd (yn cynnwys dinasyddiaeth) neu darddiad cenedlaethol neu ethnig. Grwpiau ethnig (gweler yr eirfa yn Atodiad 3) yw grwpiau a ddiffinnir gan y seiliau hyn.[7] Mae'r Ddeddf yn amddiffyn pob grŵp hil rhag gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon.

---

7. Mae'r llysoedd wedi rheoli bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig, yn ogystal â Siciaid ac Iddewon, at ddiben DCH, yn gyfwerth â grwpiau hil. Drwy'r cod hwn cyfeirir at 'Sipsiwn a Theithwyr'. Daeth Rheoliadau Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2003 (OS 2003 Rhif 1626) i rym ar 19 Gorffennaf 2003.

2.5 Er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd (2000/43/EC) cyflwynodd y Llywodraeth Reoliadau Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2003[8]. Ceir drwyddynt amddiffyniad cyfreithiol rhag gwahaniaethu hiliol ac aflonyddu ar sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol. Gan fod gwahaniaeth rhwng y seiliau a amddiffynnir dan y Ddeddf wreiddiol a'r Rheoliadau, mae rhai diffiniadau a safonau yn wahanol yn y Ddeddf ddiwygiedig, megis 'gwahaniaethu anuniongyrchol' ac 'aflonyddu'. Ond ni chaiff hyn ormod o effaith ar y cyfarwyddyd ymarferol sydd yn y cod hwn.

### **Gwahaniaethu uniongyrchol** [Adran 1(1)(a) DCH]

2.6 Ceir gwahaniaethu uniongyrchol pan gaiff person ei drin yn llai ffafriol ar sail hil na pherson arall yn yr un amgylchiadau, neu mewn amgylchiadau tebyg.

2.7 Mewn achosion o wahaniaethu uniongyrchol honedig, mae'r llysoedd wedi cydnabod na ellir bob amser gymharu'r driniaeth honedig gyda'r ffordd y cafodd person go iawn arall ei drin. Mae'n bosibl y bydd rhaid cymharu'n ddamcaniaethol â pherson o wahanol grŵp hil mewn sefyllfa debyg. Dylid gofyn: 'sut y byddai person o grŵp hil arall yn cael ei drin mewn amgylchiadau tebyg, neu mewn amgylchiadau nid rhy annhebyg?'

2.8 Mae'r Ddeddf yn nodi rhai eithriadau prin i'r gwaharddiad cyffredinol rhag gwahaniaethu (gweler y manylion yn Atodiad 1). Ond ar wahân iddynt hwy, mae gwahaniaethu uniongyrchol, am ba reswm bynnag, yn amlwg yn anghyfreithlon. Mae'n amhosibl cyfiawnhau trin pobl yn wahanol fel hyn.

#### Enghraifft 1

Nid yw gwerthwr tai yn rhoi manylion am eiddo addas i brynwr Asiaidd am fod y gwerthwr wedi mynnu nad yw'n dymuno gwerthu i deulu Asiaidd. Mae'r gwerthwr hefyd yn gwrthod rhoi gwybodaeth am eiddo mewn 'ardaloedd Asiaidd' o'r dref i brynwyr gwyn, gan dybio na fyddent yn awyddus i fyw yn yr ardaloedd hynny. Gwahaniaethu uniongyrchol yw'r ddau beth, ac mae'n anghyfreithlon.

#### Enghraifft 2

Ceir graffiti hiliol tramgwyddus ar eiddo tenant. Mae'r tenant yn cwyno wrth y landlord, ond ni wneir unrhyw beth i wared â'r graffiti. Os yw'r landlord yn arfer delio'n syth â chwynion am fathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallai'r tenant ddadlau'n llwyddiannus na ddarparodd y landlord wasanaethau rheoli tai yn deg a chyfartal, ond iddo wahaniaethu'n uniongyrchol yn ei erbyn.

8. Daeth Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2003 (OS 2003 Rhif 1626) i rym ar 19 Gorffennaf 2003.

2.9 Beth bynnag fo statws mewnfudo'r unigolyn, caiff ei amddiffyn rhag gwahaniaethu. Er hynny, nid yw pobl o dramor yn gymwys am dai'r awdurdod lleol nac am gymorth gyda digartrefedd.[9] Felly, os yw awdurdod tai lleol yn penderfynu nad yw person yn gymwys am gartref, nid yw hynny'n wahaniaethu anghyfreithlon.[10] Rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gyfraith, a dilyn y canllawiau ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.[11]

2.10 Byddai darparwyr tai yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon wrth ragdybio fod pawb o dramor, neu bawb o grŵp hil penodol, i'w hystyried yn anghymwys dan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu wrth fynnu mai un grŵp hil penodol yn unig sy'n cyflwyno prawf o'u statws mewnfudo.

**Enghraifft 3**

Mae awdurdod lleol yn gwahaniaethu'n uniongyrchol wrth ofyn yn unig i bobl o leiafrifoedd ethnig ddangos pasbort er mwyn profi pwy ydynt wrth wneud cais am gartref.

**Enghraifft 4**

Mae dadansoddiad o'r monitro data ar y modd y mae cymdeithas tai yn dyrannu eiddo yn dangos patrwm o roi eiddo salach i ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig o'i gymharu ag ymgeiswyr eraill mewn amgylchiadau tebyg. Ni ellir esbonio'r patrwm trwy ffactorau gwrthrychol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod ystrydebu hiliol anymwybodol wedi dylanwadu ar y penderfyniadau am ddyrannu eiddo. Gallai'r gymdeithas tai fod yn euog o wahaniaethu hiliol uniongyrchol os nad yw'n gweithredu i ddelio â'r casgliadau.

## Gwahaniad [Adran 1(2) DCH]

2.11 Mae gwahanu person (gweler 'Gwahaniad' yn yr eirfa yn Atodiad 3) oddi wrth bobl eraill ar sail hil yn amlwg yn golygu ei drin ef neu hi yn llai ffafriol, ac yn wahaniaethu hiliol uniongyrchol anghyfreithlon. O ran y DCH golyga 'gwahaniad' fod un person neu ragor yn cael eu cadw ar wahân i bobl eraill, ar sail hil. Mae gwahanu tenantiaid yn ôl grŵp hil yn anghyfreithlon, hyd yn oed os rhoddir iddynt lety a gwasanaethau o'r un safon neu o safon tebyg. Nid yr un peth yw 'crynhoad' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3) a 'gwahaniad'. Nid yw

---

9. Gweler 160A ac 185 o Ddeddf Tai 1996, Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003 a Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000.

10. Dylid nodi bod y rheolau hyn ar gymhwyster ond yn gymwys ar gyfer awdurdodau tai lleol.

11. *Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau lleol ynglŷn â Dyrannu Llety a Digartrefedd* a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

methiant darparwr tai i ymyrryd ac i fynnu bod tenantiaid o grwpiau hil eraill yn cael eu hintegreiddio, yn groes i'w hewyllys, yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon. Ond os mai awdurdod cyhoeddus yw'r darparwr tai, a bod crynhoad yn cael effaith andwyol ar gysylltiadau hiliol da, bydd angen iddo feddwl a oes unrhyw beth y gall ei wneud er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan Adran 71 DCH[12] i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

**Enghraifft 5**

Cynhaliodd y CRE ymchwiliad ffurfiol i ddyrannu tai yn Oldham. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar ddyrannu mewn pedair stad. Gwelodd y Comisiwn mai pobl Asiaidd oedd mwyafrif tenantiaid Stad A, ond mai prin iawn oedd y tenantiaid Asiaidd yn Stad B. Yr un modd, roedd nifer fawr o denantiaid Asiaidd yn Stad C, ond dau yn unig oedd yn Stad CH gyfagos. Nid oedd modd esbonio'r patrymau hyn trwy ffactorau anhiliol, a daeth y Comisiwn i'r casgliad mai hil oedd y rheswm, a bod y cyngor wedi gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn Asiaid trwy eu gwahanu oddi wrth ymgeiswyr eraill.[13]

2.12 Nid oes raid i wahaniaethu ar sail hil fod yn gysylltiedig â grŵp hil y person y gwahaniaethwyd yn ei erbyn. Gweler Enghraifft 6.

**Enghraifft 6**

Gwahaniaethodd fanc yn uniongyrchol yn erbyn gwraig wen, ar sail hil, pan wrthododd ei chais am forgais am fod y stryd yr oedd am ei brynu ynddi mewn 'ardal Asiaidd'.

## **Gwahaniaethu anuniongyrchol** [Adrannau 1(1)(b) a 1(1A) DCH]

2.13 Mae'r DCH yn diffinio 'gwahaniaethu anuniongyrchol' mewn dwy ffordd, yn dibynnu ar sail y gwahaniaethu. Bydd yr union ddiffiniad sy'n gymwys yn dibynnu ar natur y gwahaniaethu, ac ar y grŵp hil sydd dan anfantais (gweler paragraffau 2.15–2.16).

2.14 Pan fo'r gwahaniaethu ar sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, y diffiniad o 'wahaniaethu anuniongyrchol' a gyflwynwyd yn Adran 1(1A) DCH er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys. Pan fo'r gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail lliw neu genedligrwydd, y diffiniad gwreiddiol yn Adran 1(1)(b) sy'n gymwys.

2.15 **Sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol** [Adran 1(1A) DCH]. Ceir gwahaniaethu anuniongyrchol pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer, nad

12. Gweler hefyd baragraffau 3.43 a 3.51. Ar gyfer y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol , gweler paragraffau 2.43 – 2.57.

13. Gweler *Housing Allocation in Oldham: report of a formal investigation*, CRE, 1993

oes a wnelo ddim amlwg â hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, sy’n cael ei gymhwyso’n gyfartal i bawb, yn:

a. rhoi neu’n debygol o roi pobl o hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol arbennig dan anfantais neilltuol o’u cymharu ag eraill; ac

b. yn rhoi person o’r hil neu’r tarddiad ethnig neu genedlaethol hwnnw dan yr anfantais honno; ac

c. na ellir dangos ei fod yn ‘fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon’.

2.16 **Sail lliw neu genedligrwydd** [Adran 1(1)(b) DCH]. Ceir gwahaniaethu anuniongyrchol pan fo gofyniad neu amod nad yw’n amlwg yn gwahaniaethu, yn cael ei gymhwyso’n gyfartal i bawb:

a. ond mai canran lai o lawer o bobl o grŵp hil penodol all ei gyflawni, o’i gymharu â phobl o’r tu allan i’r grŵp hwnnw; a

b. bod person o’r grŵp hwnnw dan anfantais am na all ei gyflawni; ac

c. ni ellir ei gyfiawnhau ar sail an-hiliol.

2.17 Mae’r syniad o ‘ddarpariaeth, maen prawf neu arfer’, a gyflwynwyd er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd, yn ehangach ac yn llai caeth na’r syniad o ‘ofyniad neu amod’ a welir yn niffiniad gwreiddiol DCH o wahaniaethu anuniongyrchol. Mae’r syniad o ‘ddarpariaeth, maen prawf neu arfer’ yn trafod holl ystod y polisïau a’r arferion ffurfiol ac anffurfiol a ddefnyddir gan y sefydliadau a’r unigolion y cyfeirir atynt yn y cod ymarfer hwn.

### Enghraifft 7

Mae cymdeithas tai gydweithredol yn dibynnu ar ei haelodau i rannu ar lafar wybodaeth am eiddo gwag. Gan fod mwyafrif ei haelodau’n perthyn i un grŵp hil, byddai pobl o grwpiau hil eraill yn annhebygol iawn o glywed am y tai gwag. Os na all y gymdeithas gydweithredol ddangos ei bod yn gweithredu’n rhesymol a chymesur wrth osod eiddo, byddai’r arfer yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.

2.18 Er nad yw’r diffiniad o wahaniaethu anuniongyrchol a gyflwynwyd er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys i grwpiau hil a ddiffinnir yn ôl lliw neu genedligrwydd, yn ymarferol, byddai maen prawf sy’n gosod rhywun dan anfantais oherwydd ei liw hefyd yn debygol o beri anfantais iddo ar sail ei hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

## Enghraifft 8

Mae sefydliad sy'n darparu tai neu'n cyflwyno gofynion cynllunio, mewn ardal wledig â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, yn penderfynu darparu rhai tai fforddiadwy (i'w rhentu neu i'w prynu) ar gyfer pobl â chysylltiadau lleol. Mae'n argymell, ar gyfer 'pentrefi gwledig' â chymeriad cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol a/neu ffisegol mwy sensitif, diffiniad o 'gysylltiadau lleol' a fydd yn cynnwys pobl sydd wedi byw yn yr ardal agosaf ers deng mlynedd. Un o fwriadau'r polisi hwn yw galluogi pobl iau i aros yn yr ardal, a thrwy hynny gyfrannu at ddiogelu cymuned hyfyw Gymraeg ei hiaith.

Mae'r sefydliad yn cydnabod y gallai'r polisi wahaniaethu yn erbyn newydd-ddyfodiaid neu bobl ddieithr o grwpiau hil nad ydynt ar hyn o bryd o fewn y gymuned. Gallai hynny gynnwys pobl sy'n bwriadu symud i'r ardal o Loegr.

Er mwyn cydbwyso amcanion cyfreithlon y polisi ag unrhyw wahaniaethu a fyddai'n ei achosi, mae'r sefydliad tai yn rhoi sylw i'r cwestiynau canlynol wrth benderfynu maint unrhyw wahaniaethu posibl:

a. Faint o bobl sydd angen tai fforddiadwy a wrthodir gan y polisi, a pha ganran a wrthodir ar sail hil? Pa mor gaeth yw'r polisi wrth wrthod mynediad i'r tai dan sylw? Po fwyaf caeth (er enghraifft, o ran hyd y cyfnod y mae angen byw yn lleol), mwyaf tebygol ydyw o fod yn afresymol, ac felly yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.

b. Pa fath o gysylltiad lleol sydd ei angen? Er enghraifft, oes angen i'r ymgeisydd fod wedi ei eni yn yr ardal? Neu oes angen bod â theulu estynedig yn byw yn ardal, neu fod â swydd yn yr ardal? Po fwyaf y ffyrdd y gall ymgeisydd brofi cymhwyster, lleiaf tebygol fydd y gofyniadau o fod yn wahaniaethu anuniongyrchol.

c. Oes ffyrdd eraill, heblaw cysylltiadau lleol neu bod yn byw yn yr ardal, o fod yn gymwys ar gyfer y tai? Unwaith eto, po fwyaf caeth y meini prawf, mwyaf tebygol ydynt o wahaniaethu'n anuniongyrchol.

ch. A yw'r cyfyngiadau'n berthnasol i'r holl dai fforddiadwy o fewn y gymdogaeth ynteu i rai yn unig? Os oes cyfyngiadau ar y mwyafrif neu'r cyfan o'r tai a ddarperir, mae'n fwy tebygol o fod yn wahaniaethu anghyfreithlon.

d. A yw'r hyn a wnaed er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl â chysylltiadau lleol mewn gwirionedd yn peri anfantais i rywrai sy'n awyddus i brynu cartrefi yn yr ardal? Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddai'r math o dai, neu leoliad y tai, y gosodwyd arnynt gyfyngiadau er sicrhau bod pobl leol sydd eisiau tŷ yn gallu fforddio cartref, yn apelio at bobl ddieithr sydd eisiau tŷ.

Wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, mae'n bosibl y bydd angen i'r sefydliadau ddiwygio eu polisi tai fforddiadwy yn unol â hynny.

2.19 Mae'r un ddadl yn gymwys i sail cenedligrwydd (neu ddinasyddiaeth). Os byddai arfer yn gosod rhywun dan anfantais ar sail ei genedligrwydd, byddai hefyd yn debygol o beri anfantais i'r person hwnnw ar sail ei darddiad cenedlaethol.

2.20 Ceir dau ddiffiniad o 'gyfiawnhau' arfer sy'n gwahaniaethu, sef 'ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon' (gweler paragraff 2.15) a 'cyfiawnhau ar sail an-hiliol' (gweler paragraff 2.16). Seiliwyd y ddau ar yr angen i sicrhau cydbwysedd gwrthrychol rhwng effeithiau gwahaniaethu'r ddarpariaeth, maen prawf, arfer, gofyniad neu amod a rhesymoldeb y camau a wnaed er mwyn cyflawni'r nod cyfreithlon.

2.21 Wrth feddwl am gyfiawnhau'r polisïau a'r arferion a allai effeithio'n anghymesur ar grŵp (neu grwpiau) hil, byddai'n werth ystyried y cwestiynau canlynol, yn y drefn isod.

a. A yw'r ddarpariaeth, maen prawf, arfer, gofyniad neu amod yn cyfateb i angen gwirioneddol?

b. A yw'r angen yn ceisio nod cyfreithlon; er enghraifft, iechyd a diogelwch?

c. A ddefnyddiwyd dulliau priodol ac angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod?

ch. A oes unrhyw ffordd arall o gyflawni'r nod dan sylw?

d. A oes modd lleihau unrhyw effaith o wahaniaethu anghyfreithlon posibl?

2.22 Y cwestiwn allweddol sydd raid ei ateb wrth asesu rheol neu arfer a all wahaniaethu yw hwn: a fydd yn sicrhau cydbwysedd cymesur rhwng osgoi'r effaith o wahaniaethu hiliol a chyflawni nod cyfreithlon y rheol? Yn y pen draw, y llysoedd yn unig all benderfynu os yw arfer yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Pan na ellir cyfeirio at achos cyfraith ynglŷn â'r mater, dylai sefydliadau ac asiantaethau tai ystyried cwestiynau tebyg i'r rhai a restrwyd yn Enghraifft 8.

2.23 Mae'r diffiniad o wahaniaethu anuniongyrchol a gyflwynwyd er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd (gweler paragraffau 2.15 a 2.17) wedi estyn ystod yr amddiffyniad rhag gwahaniaethu. Mae'n gymwys i fwyafrif gweithgareddau'r sefydliadau tai a'r asiantaethau cysylltiedig, yn cynnwys gosod, is-osod a rheoli eiddo gan landlordiaid; a'r gwasanaethau a ddarperir gan werthwyr tai, benthycwyr morgeisi, asiantaethau llety ac asiantaethau yswiriant.

2.24 Mae'r diffiniad o wahaniaethu uniongyrchol yn Adran 1(1)(b) DCH yn berthnasol hefyd i awdurdodau cynllunio a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt (gweler paragraff 2.16).

2.25 Dylai sefydliadau tai ufuddhau i ysbryd Cyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd, gan anelu at safon uchel. Dylent archwilio'u holl weithgareddau er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhoi neb dan anfantais ar sail hil.

### **Erledigaeth** [Adran 2 DCH]

2.26 Mae'n anghyfreithlon i drin person yn llai ffafriol nag eraill yn yr un amgylchiadau am ei fod ef neu hi wedi:

a. dwyn achos dan DCH; neu

b. wedi rhoi tystiolaeth neu wybodaeth ynglŷn ag unrhyw achos dan y Ddeddf; neu

c. wedi honni bod gweithred o wahaniaethu anghyfreithlon wedi digwydd; neu

ch. wedi gwneud unrhyw beth dan y Ddeddf i unrhyw un, neu'n bwriadu gwneud hynny, neu fod amheuaeth iddo wneud neu fwriadu gwneud hynny.

2.27 Er mwyn gwneud honiad llwyddiannus o erledigaeth dan y Ddeddf, byddai gofyn i'r cwynwr hefyd ddangos:

a ei fod ef neu hi wedi cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill mewn amgylchiadau tebyg; a

b. bod y driniaeth o ganlyniad i rywbeth a wnaeth o ran honiadau neu achosion dan DCH.

#### Enghraifft 9

Gwnaeth Mr Aziz recordiad cyfrinachol o sgyrsiau rhwng rhai o gyd-aelodau ei gymdeithas fasnach, am ei fod yn amau bod rhai'n gwahaniaethu'n ei erbyn ar sail hil. Cafodd ei ddiarddel o'r gymdeithas pan ddarganfuwyd beth a wnaeth, oherwydd iddo dorri ymddiriedaeth. Dyfarnodd y Llys Apêl fod hawl gan Mr Aziz i gael ei warchod rhag erledigaeth. Er nad oedd ar y pryd wedi dwyn cais gerbron llys, yr oedd wedi gwneud rhywbeth a ddeuai dan awdurdod y DCH. [Aziz v Trinity Street Taxis Ltd, 1988, ICR 534]

#### Enghraifft 10

Mae gwerthwr tai yn diswyddo gweithiwr dros dro sydd wedi hysbysu'r CRE fod rheolwr wedi rhoi gorchymyn i staff i beidio dangos eiddo i bobl a ddaeth yn wreiddiol o ddwyrain Ewropeaidd, 'am fod pob un ohonynt yn gwastraffu amser gan nad oes ganddynt yr un bwriad i brynu eiddo'.

### **Aflonyddu** [Adran 3A(1) DCH]

2.28 Mae'r diffiniad o aflonyddu a gyflwynwyd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 2003 yn gymwys pan fo'r ymddygiad dan sylw ar sail hil neu ethnig neu darddiad cenedlaethol, ond nid ar sail lliw neu genedligrwydd. Mae aflonyddu ar sail lliw

neu genedligrwydd yn golygu triniaeth lai ffafriol, a gall olygu gwahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon (gweler paragraff 2.6).

2.29 Mae person yn aflonyddu ar rywun arall ar sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol pan fo'n ymddwyn mewn modd annerbyniol gyda'r bwriad neu'r effaith o:

a. ymosod ar urddas y person arall; neu

b. greu amgylchedd sy'n bygwth, gelyniaethu, bychanu neu'n tramgwyddo'r person arall.

2.30 Ar y cyfan, mae'r diffiniad o beth yw 'bygwth, gelyniaethu, bychanu neu dramgwyddo' yn oddrychol. Wrth ystyried honiad o aflonyddu, oni bai fod yr ymddygiad yn fwriadol elyniaethus, yr unig amser y dywedir ei fod yn cael yr effeithiau a ddisgrifiwyd uchod (gweler paragraff 2.29) yw pan fydd yn rhesymol i wneud hynny. Bydd hynny ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, yn cynnwys yn arbennig ganfyddiad y person a effeithiwyd. Er y gallai'r llys benderfynu wedyn fod y cwynwr wedi bod yn rhy sensitif ac wedi cael ei dramgwyddo heb eisiau, dylai sefydliadau tai gymryd pob honiad o ddifrif. Mae ymddygiad yn debygol o fod yn aflonyddu os caiff ei ailadrodd, er gwaethaf cwynion gan y person yr effeithiwyd arno.

2.31 Mae'r diffiniad statudol o aflonyddu yn Adran 3A(1) yn gymwys yn unig i sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, ac nid i sail lliw neu genedligrwydd. Ond mewn achosion lle mae'r cam-drin yn amlwg wedi ei anelu at liw croen person, gall llys neu dribiwnlys llafur roi dehongliad ehangach i 'hil', a fydd yn cynnwys lliw.

**Enghraifft 11**

Mae tenant yn gwneud cwyn o aflonyddu hiliol yn erbyn ei landledi gan ei bod yn mynnu gwneud sylwadau hiliol ffiaidd, er gwaetha'i ymdrechion i ddangos iddi nad yw'n fodlon.

2.32 Yr un modd, gellir ystyried bod ymddygiad ffiaidd o ran cenedligrwydd person yn dramgwyddus, ar sail tarddiad cenedlaethol gwir neu dybiedig y person hwnnw. Byddai felly'n dod dan y diffiniad statudol o aflonyddu.

**Enghraifft 12**

Mae landlord preifat yn darganfod fod un o'r tenantiaid yn ei eiddo yn Bwyliad. Mae'n datgan ei ragfarnau gwrth-Bwylaidd mewn ymgyrch hir o sylwadau sarhaus am Wlad Pwyl a'r Pwyliaid, ac yn annog y tenantiaid eraill i gefnogi hynny. Byddai ei ymddygiad yn aflonyddu hiliol anghyfreithlon.

## Pwysau neu gyfarwyddyd i wahaniaethu

[Adrannau 30 a 31 DCH]

2.33 Mae'n anghyfreithlon i orchymyn neu annog neu geisio annog person i wahaniaethu yn erbyn, neu i aflonyddu ar berson ar sail hil. Nid yw'n ofynnol fod y pwysau'n cael ei ddwyn yn uniongyrchol. Mae'n anghyfreithlon os caiff ei ddwyn mewn ffordd sy'n golygu fod y person arall yn debygol o glywed amdano. Mae'r llysoedd wedi egluro nad oes raid i'r pwysau fod fawr mwy na pherswâd, ac nad oes raid iddo olygu unrhyw ennill na cholled. Mae'r pwysau i wahaniaethu ynddo ei hun yn anghyfreithlon, boed y person y rhoddwyd pwysau arno, neu y gorchymynnwyd iddo gyflawni'r weithred, yn gwahaniaethu neu aflonyddu'n anghyfreithlon ai peidio.

### Enghraifft 13

Mae perchennog tŷ sy'n dweud wrth asiantaeth osod beidio ag anfon teulu o Somaliaid i weld ei eiddo yn gweithredu'n anghyfreithlon. Mae'r asiantaeth hefyd yn gweithredu'n anghyfreithlon os yw'n ufuddhau i'r gorchymyn hwnnw.

### Enghraifft 14

Dosbarthodd cadeirydd cangen Accrington y Ffrynt Cenedlaethol daflen i drigolion Accrington, Sir Gaerhirfryn, i'w hannog i ysgrifennu at Adran gynllunio'r awdurdod lleol, i ddatgan gwrthwynebiad i geisiadau cynllunio gan fusnesau Asiaidd. Penderfynodd y llys sirol iddo weithredu'n anghyfreithlon trwy ddwyn pwysau ar yr awdurdod lleol i wahaniaethu yn erbyn Asiaid sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio. Dyfarnodd y llys o blaid y CRE hefyd trwy roi gwaharddiad oedd yn rhwystro'r gŵr rhag parhau i weithredu felly. [Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol v D Riley, Llys Sirol Manceinion, 1982, heb ei adrodd]

### Enghraifft 15

Gwelodd ymchwiliad ffurfiol gan y CRE[14] fod dau o drigolion Brymbo, ger Wrecsam, ynghyd â chynghorydd lleol, wedi rhoi pwysau anghyfreithlon ar Gyngor Bwrdeistref Wrecsam i wrthod tŷ cyngor i deulu am eu bod yn Sipsiwn. Cafodd y tri atebydd orchymyn i beidio gwahaniaethu.

---

14. *Cyngor Cymuned Brymbo: Adroddiad o ymchwiliad ffurfiol*, CRE 1981. Mae Adrannau 48 - 52 DCH yn rhoi'r awdurdod i'r CRE i gynnal ymchwiliadau ffurfiol cyffredinol neu "a enwir". Mewn ymchwiliad o sefydliad "a enwir", gall y CRE roi rhybudd sy'n mynnu bod y sefydliad neu'r unigolion dan sylw yn rhoi heibio unrhyw wahaniaethu hiliol anghyfreithlon a ganfuwyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r ddogfen Awdurdodau Tai Lleol (Egwyddorion Penodedig ar gyfer Cynlluniau Dyrannu) (Cymru) 1997 (OS 1997 Rhif 45) wedi cyfyngu ymwneud aelodau etholedig â phenderfyniadau

## Hysbysebion sy'n gwahaniaethu

[Adran 29 DCH]

2.34 Mae'n anghyfreithlon i gyhoeddi neu i fod yn gyfrifol am gyhoeddi hysbyseb sy'n dynodi, neu y gellid yn rhesymol ddeall ei fod yn dynodi, bwriad i wahaniaethu (gydag eithriadau prin, gweler paragraffau 2.36, 2.39 – 2.42 ac Atodiad 1).

2.35 Bydd modd profi a yw hysbyseb yn awgrymu bwriad i wahaniaethu wrth ofyn a fyddai person rhesymol o'r farn ei fod yn gwahaniaethu. Mae'r diffiniad o hysbyseb yn eang iawn, ac yn cynnwys unrhyw fath o hysbyseb neu hysbysiad, boed gyhoeddus ai peidio, er enghraifft, cylchlythyrau neu daflenni newyddion mewnol, e-bost, arddangosfeydd ar hysbysfwrdd neu mewn ffenestr siop, a ffenestri a baneri sy'n agor ar wefannau.

2.36 Mae'r DCH yn caniatáu eithriadau prin pan fo'r hysbyseb yn cyfeirio at sefyllfa nad yw'n anghyfreithlon i wahaniaethu ynddi. Er enghraifft, gweithred gadarnhaol gyfreithlon (gweler paragraffau 2.40-2.42), neu offeryn elusennol perthnasol (gweler paragraff 2.39). Dylai'r hysbyseb egluro fod y sefydliad neu'r asiantaeth tai yn defnyddio'r eithriad.

### Enghraifft 16

Byddai hysbyseb ar y We am 'dŷ ar werth i deulu gwyn' neu 'dŷ ar werth i deulu Indiaidd' yn anghyfreithlon. Byddai'r person a osododd yr hysbyseb a'r cyhoeddwr, sef perchennog y wefan yn yr achos hwn, yn atebol.

### Enghraifft 17

Mae perchennog tŷ yn rhoi'r tŷ ar werth gan ofyn i'r gwerthwr tai ddweud yn y deunydd hysbysrwydd ei fod ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig. Gallai'r amod hwn olygu gwahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon. Byddai hysbysebu'r tŷ mewn taflen i'w rhannu neu ar boster "ar werth" hefyd yn anghyfreithlon dan Adran 29 DCH, lle dywed y Ddeddf fod hysbysebu bwriad i wahaniaethu yn anghyfreithlon.

---

ynghylch gosod mewn sefyllfaoedd penodedig (hynny yw, pan fo'r llety wedi ei leoli yn eu ward etholiadol neu pan fo'r person y gwneir penderfyniad arno yn byw yn y ward honno). Dywed Cod Canllawiau y Cynulliad ar Ddyrannu: 'dylai'r aelod etholedig gymryd pob gofal i gydymffurfio â'r cod ymddygiad perthnasol wrth wneud hyn. Mae aelodau etholedig yn parhau'n gyfrifol am benderfynu polisïau gosod sy'n cydymffurfio â Deddf (Tai) 1996 (fel y diwygiwyd), y Cod hwn a deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal.'

## Achosion cyfreithiol

2.37 Mae gan unigolion sy'n credu bod darparwr tai neu wasanaethau perthynol wedi gwahaniaethu yn eu herbyn, neu wedi aflonyddu arnynt ar sail hiliol, hawl dan y DCH i ddwyn achos cyfreithiol mewn llys sirol.

## Baich y profi

2.38 O ganlyniad i'r diwygiadau y galwodd Cyfarwyddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd amdanynt, bydd baich y profi a ddefnyddir gan lysoedd a thribiwnlysoedd yn amrywio yn ôl sail y gwahaniaethu.

a. **Sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol** [Adran 54A DCH]. Os gall cwynwr gyflwyno ffeithiau a fydd yn galluogi'r llys i ddod i'r casgliad bod gwahaniaethu hiliol, neu aflonyddu ar sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, wedi digwydd, bydd raid i'r sefydliad tai brofi nad gwahaniaethu nac aflonyddu oedd y rheswm dros unrhyw driniaeth wahanol a gafwyd. Os bydd yr esboniad yn annigonol neu'n annerbyniol, bydd raid i'r llys ddatgan fod gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon wedi digwydd.

b. **Sail lliw neu genedligrwydd.** Os yw'r gwahaniaethu neu aflonyddu honedig ar sail lliw neu genedligrwydd, a bod y cwynwr yn cyflwyno ffeithiau a fydd yn galluogi'r llys i ddod i'r casgliad ei fod ef neu hi wedi dioddef gwahaniaethu hiliol, bydd y llys yn gofyn am eglurhad gan y sefydliad tai. Os bydd yr esboniad yn annerbyniol, gall y llys ddatgan fod gwahaniaethu anghyfreithlon wedi digwydd.

## Elusennau [Adran 34 DCH]

2.39 Mae sefydliadau tai sy'n elusennau yn gweithio dan offerynnau elusennol (gweler yr eirfa yn Atodiad 3). Os yw offeryn elusennol yn caniatáu rhoi'n gyfreithlon fuddiannau i bobl o grŵp hil penodol, gall y sefydliad wneud yr un peth, ar yr amod nad yw'r buddiolwyr yn cael eu diffinio yn ôl lliw. Er enghraifft, golyga hyn, y bydd yr offeryn priodol yn caniatáu i sefydliad tai sy'n elusen osod eiddo neu ddarparu gwasanaethau tai i deuluoedd o hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol arbennig. Dylid parhau i asesu unigolion yn ôl eu hanghenion.

## Gweithredu cadarnhaol [Adrannau 35, 37 a 38 DCH]

2.40 Mae'r term 'gweithredu cadarnhaol' yn cyfeirio at y pethau y gall darparwyr tai a gwasanaethau cysylltiedig eu gwneud yn gyfreithlon er mwyn bodloni anghenion arbennig, yn cynnwys hyfforddiant, addysg neu les (Adran 35), neu

er mwyn hyfforddi neu annog pobl o grŵp hil arbennig sy’n cael ei dangynrychioli mewn gwaith penodol (Adrannau 37 a 38).[15]

2.41 Mae Adran 35 yn caniatáu i sefydliadau tai, yn cynnwys cymdeithasau tai lleiafrifoedd ethnig, i wneud darpariaeth arbennig ar gyfer grwpiau penodol; er enghraifft, trwy ddatblygu llety dros dro mewn hostel sy’n darparu yn arbennig ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd o Somalia; a allai fod ag anghenion sy’n deillio o’r un profiadau trawmatig â’i gilydd; neu trwy drefnu cynlluniau tai gwarchod ar gyfer henoed Tsieineaidd; neu trwy ddarparu wardeniaid a gofalwyr sy’n siarad iaith Asiaidd arbennig; neu trwy ddiwallu rhai gofynion diet neu grefyddol arbennig. Dylid parhau i asesu unigolion yn ôl eu hanghenion.

2.42 Er mwyn manteisio ar yr eithriad hwn, dylai’r darparwyr tai neu wasanaethau geisio tystiolaeth wrthrychol am yr angen arbennig y maent am ei ddiwallu, a rhaid iddynt ddangos fod y ddarpariaeth arbennig yn gymesur.

## Awdurdodau cyhoeddus [Adran 71 DCH]

2.43 Mae Adran 71(1) DCH yn gosod dyletswydd statudol gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus sy’n cael eu rhestru yn atodlen 1A y Ddeddf i gael 'ystyriaeth ddyladwy', wrth gyflawni eu holl swyddogaeth, o’r angen i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil.

2.44 Nod y ddyletswydd yw gwneud hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn ganolog i waith awdurdodau lleol. Mae’r ddyletswydd yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn arwain y gwaith o atal gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Yn ymarferol, golyga hyn osod ystyriaethau cydraddoldeb hiliol o fewn gwaith pob dydd datblygu polisïau, darparu gwasanaethau, gweithredu arferion cyflogaeth a swyddogaethau eraill.[16]

2.45 Er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol, rhoddwyd dyletswyddau penodol i’r mwyafrif ohonynt i:

a. baratoi a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol (gweler paragraffau 2.47-2.50), sy’n datgan sut y byddant yn cyflawni’r ddyletswydd ym maes polisi a darparu gwasanaeth; ac

b. monitro dulliau ac arferion cyflogi penodedig, yn ôl grŵp hil, a chyhoeddi’r data hwn mewn adroddiad blynyddol (gweler paragraff 2.51).

---

15. Mae cynlluniau PATH (Gweithredu Cadarnhaol ym Maes Tai) yn enghreifftiau o sut y gall sefydliadau ddefnyddio Adrannau 37 a 38 i ddarparu hyffroddiant i bobl o leiafrifoedd ethnig ym maes tai a chynlluniau cysylltiedig.

16. Gweler *Cod Ymarfer Statudol ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru*, CRE 2002.

Mae'r term 'dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb' yn ymwneud â'r ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswydd benodol.

2.46 Mae'r awdurdodau cyhoeddus 'rhestredig' sy'n gyfrifol am dai, a gwasanaethau'n ymwneud â thai, ac y mae gofyn iddynt baratoi cynllun cydraddoldeb hiliol, yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol, ac ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu llety ar gyfer staff. Bydd y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gymwys i'r cyrff addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu llety ar gyfer myfyrwyr a staff. Nid yw cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill yn awdurdodau cyhoeddus rhestredig, ac felly nid yw'r ddyletswydd dan y DCH yn uniongyrchol berthnasol iddynt. Ond, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel rheoleiddiwr, yn gosod ymrwymiadau arbennig ar gymdeithasau tai, ac mewn rhai ffyrdd mae'r rhain yn gyson â'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.[17] Mae'r CRE wedi cyhoeddi cod ymarfer ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ar y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ac wedi cyhoeddi ystod o gyfarwyddiadau i gyd-fynd ag ef. Ceir y rhain, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan y Comisiwn.

## Cynllun cydraddoldeb hiliol

2.47 Dogfen wedi ei chyhoeddi yw'r cynllun cydraddoldeb hiliol. Mae'n cyflwyno'r trefniadau a wnaed gan awdurdod cyhoeddus er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

2.48 Rhaid i gynllun cydraddoldeb hiliol yr awdurdod gynnwys:

a. rhestr o'r swyddogaethau a'r polisïau y mae'r awdurdod wedi eu hasesu i fod yn berthnasol i'r ddyletswydd;

b. trefniadau'r awdurdod ar gyfer asesu ac ymgynghori ynglŷn ag effeithiau posibl ei bolisi arfaethedig ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol (a elwir hefyd 'asesiad effaith cydraddoldeb hiliol');

c. trefniadau'r awdurdod ar gyfer monitro effeithiau ei bolisïau ar wahanol grwpiau hil;

ch. trefniadau'r awdurdod ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r asesu, ymgynghori a monitro;

d. trefniadau'r awdurdod ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth am ei weithgareddau, a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd; a

---

17. Daeth y *Cod Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru* i rym ym mis Ebrill 2005 ac fe ddiweddarodd y gofynion hyn. Yn ogystal, mae gan gynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad dai fel un o'i bedwar maes polisi a ddewiswyd ar gyfer ymrwymiadau gwaith manwl, sy'n cynnwys sicrhau bod y sefydliadau tai cymdeithasol hynny, gan gynnwys cymdeithasau tai sy'n derbyn arian gan y llywodraeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn eu gwaith.

dd. threfniadau'r awdurdod ar gyfer hyfforddi staff ynglŷn â'r ddyletswydd.

2.49 Rhaid adolygu'r asesiad o'r swyddogaethau a pholisïau sy'n berthnasol i gydraddoldeb hiliol bob tair blynedd, pan ddylai sefydliadu tai ystyried diwygio'r cynllun cydraddoldeb hiliol a'r cynllun gweithredu.

2.50 Mae asesiad effaith cydraddoldeb hiliol[18] yn herio'r rhagdybiaeth fod polisiau yn cael yr un effaith ar bawb. Mae'n cynnwys rhagweld effeithiau tebygol polisi arfaethedig (er enghraifft, trosglwyddo stoc tai) ar grŵp (neu grwpiau) hil penodol cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu, dal ar y cyfle i ddileu neu leihau hyd y bo'n bosibl unrhyw ganlyniadau negyddol ar gyfer cydraddoldeb hiliol. Dylid gwneud asesiad effaith wrth ddechrau cynllunio neu adolygu polisi neu strategaeth (gweler hefyd baragraffau 4.10 - 4.15).

## Dyletswyddau o ran cyflogaeth

2.51 Mae gan awdurdodau cyhoeddus 'rhestredig' ddyletswydd benodol i fonitro'r holl staff a'r holl ymgeiswyr am swyddi, hyfforddiant a dyrchafiad, yn ôl grŵp hil. Rhaid i awdurdodau sy'n cyflogi dros 150 o staff llawn amser fonitro hefyd, yn ôl grŵp hil, nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant; yn elwa neu'n dioddef colled o ganlyniad i asesu perfformiad; yn gwneud cwyn; yn cael eu disgyblu; ac yn gorffen gweithio i'r awdurdod. Rhaid cyhoeddi'r ystadegau hyn yn flynyddol. Mae'r CRE wedi cynghori y dylai'r awdurdodau gynnwys yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol y trefniadau a wneir ganddynt er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o ran cyflogaeth.

## Gorfodi

2.52 Mae gan y CRE hawl dan Adran 71D DCH i orfodi'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn cyflawni'r un o'i ddyletswyddau penodol, gall y Comisiwn roi rhybudd cydymffurfio. Golyga hynny bod rhaid i'r sefydliad gyflawni ei ddyletswyddau a rhoi gwybod i'r Comisiwn o fewn 28 niwrnod am yr hyn a wnaeth, neu'r hyn y mae yn ei wneud, er mwyn eu cyflawni. Gellir cael gorchymyn llys i orfodi'r gorchymyn cydymffurfio hwn. Os metha'r awdurdod â chydymffurfio â'r gorchymyn, gall y person sy'n gyfrifol (er enghraifft, y prif weithredwr) wynebu cyhuddiad o ddirmyg llys.

18. Gweler *Asesiad effaith cydraddoldeb hiliol: canllawiau cam wrth gam*, CRE, 2004.

## Caffael

2.53 Un o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus rhestredig, sy'n berthnasol i'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, yw'r gwaith o gaffael nwyddau, adnoddau a gwasanaethau gan gontractwyr y sectorau preifat, gwirfoddol neu gyhoeddus eraill.[19] Gall yr awdurdod cyhoeddus osod rhai swyddogaethau ar gontract i'r sector preifat; er enghraifft, rhedeg carchar neu ganolfan hamdden. Pan wneir hynny, mae'r awdurdod yn parhau'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd o ran unrhyw swyddogaeth neu bolisi perthnasol, hyd yn oed os caiff hwnnw ei gyflawni ar ei ran gan ddarparwr allanol. Ni ddylai contractwyr wahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil, ond nid yw'r un ddyletswydd gyfreithiol arnynt hwy i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

2.54 Golyga hyn y dylai awdurdodau cyhoeddus wneud ystyriaethau cydraddoldeb hiliol yn rhan o'u prosesau caffael, er mwyn sicrhau fod unrhyw swyddogaeth sy'n berthnasol i'r ddyletswydd yn cyflawni gofynion DCH, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith. Un ystyriaeth ganolog wrth ddewis contractwr yw bod gweithlu'r contractwr yn gallu darparu'r gwasanaeth yn ôl y safonau a nodwyd yn y contract, yn cynnwys lle bo'n briodol, unrhyw ofynion cydraddoldeb hiliol. Mae cod rheoleiddiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler paragraff 2.46) yn rhoi cyfarwyddyd i gymdeithasau tai ynglŷn â hyn.

2.55 Yn yr holl wladwriaethau sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd rhaid i egwyddorion sylfaenol cystadleuaeth, tryloywder, triniaeth gyfartal a pheidio gwahaniaethu (rhwng darparwyr mewn gwladwriaethau gwahanol) fod wrth wraidd caffael gan awdurdodau cyhoeddus. Er mwyn sicrhau tryloywder, dylai gwahoddiad ffurfiol i dendro gan awdurdodau cyhoeddus, fel arfer restru'r meini prawf penodol a ddefnyddir i ddewis y rhai sy'n tendro a gwerthuso'r tendrau, yn cynnwys unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol, lle bo'n berthnasol i'r hyn sydd yn y contract. Mae ystyriaethau cydraddoldeb hiliol, megis sut y bwriada'r contractwr ddarparu gwasanaethau addas i bobl o bob grŵp hil, ac a yw'r gallu gan y gweithlu i wneud hynny, yn ystyriaethau dilys wrth ddewis contractwr, pan fo'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gymwys i'r contract dan sylw.

2.56 Mae cyfarwyddeb caffael cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd yn nodi'r seiliau a all wneud contractwyr arfaethedig yn anghymwys, er enghraifft, methdaliad, peidio talu trethi neu gollfarn am gamymddwyn proffesiynol difrifol, yn cynnwys aflonyddu neu wahaniaethu hiliol. Gall methu cydymffurfio â'r cyfrifoldebau cyfreithiol o ran cydraddoldeb hiliol fod yn rheswm dros wahardd contractwr

19. Gweler *Cydraddoldeb Hiliol a Chaffaeliad Cyhoeddus: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus a chontractwyr, a Cydraddoldeb Hiliol a Chaffaeliad mewn Llywodraeth Leol: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus a chontractwyr*, y ddau gan y CRE, 2003

20. Mae cyfraith caffael yr UE yn gymhleth a dylid ceisio cyngor caffael arbenigol neu gyngor cyfreithiol wrth ei chymhwyso mewn achosion penodol.

posibl rhag tendro. Os cafwyd cwmni yn euog o drosedd, bydd fel rheol yn arfer da i roi cyfle iddo ddangos ei fod wedi datrys y broblem.[20]

### Partneriaethau

2.57 Caiff tai a gwasanaethau sy'n ymwneud â thai eu darparu yn aml trwy bartneriaethau. Gall y rhain fod yn sefydliadau tai sy'n awdurdodau cyhoeddus sy'n atebol i'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, neu gallant fod yn gyfuniad o awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill. Mewn achos o'r fath, dylai'r awdurdodau cyhoeddus wneud trefniadau i gyflawni'r ddyletswydd trwy'r bartneriaeth, er enghraifft, drwy ddatblygu strategaeth cydraddoldeb hiliol ar y cyd.[21]

## Tai a Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

### Gwasanaethau cynllunio a swyddogaethau eraill awdurdodau cyhoeddus

2.58 Mae Adran 19A (sy'n cyfeirio at awdurdodau cynllunio a defnydd tir) ac Adran 19B DCH yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus rhag gwahaniaethu ar sail hil wrth wneud eu gwaith. Er enghraifft, os yw awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd cynllunio ar sail hil, mae'n gwahaniaethu'n uniongyrchol yn anghyfreithlon.

**Enghraifft 18**

Mae awdurdod cynllunio yn ymateb i bwysau a ddygir gan drigolion sy'n gwrthwynebu cais am faes carafannau Sipsiwn, am nad ydynt am weld Sipsiwn yn byw yn yr ardal. Mae gan Sipsiwn amddiffyniad llawn fel grŵp hil dan y DCH, a byddai'r awdurdod cynllunio'n gweithredu'n anghyfreithlon os byddai'n ildio i'r pwysau ac yn trin gwrthwynebiad hiliol fel sail dros wrthod caniatâd cynllunio. Rhaid i awdurdodau lleol seilio penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio ar eu haeddiant o ran cynllunio, er enghraifft, yr effeithiau y gallai'r argymhellion eu cael ar fwynderau neu'r amgylchedd lleol.[22]

21. Gweler *Awdurdodau Cyhoeddus a Phartneriaethau; Arweiniad i'r Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol*, CRE, 2004.

22. Am ragor o wybodaeth gweler *Tir Cyffredin: Cydraddoldeb, cysylltiadau. hiliol da a safleoedd i Sipsiwn a. Theithwyr Gwyddelig: Adroddiad ymchwiliad gan y CRE yng Nghymru. a Lloegr*, CRE, 2006.

**Enghraifft 19**

Mae pwyllgor cynllunio yn gwrthod cais am ddatblygiad sy'n cynnwys tai fforddiadwy oherwydd bod trigolion lleol yn dadlau nad ydynt am weld tai cymdeithasol yn yr ardal. Os yw pobl o grŵp hil penodol wedi eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith y bobl ar restr blaenoriaeth y cyngor am dai, gellid deall penderfyniad y pwyllgor fel torri darpariaeth cynllunio'r DCH, yn ogystal â darpariaethau eraill y Ddeddf.

**Enghraifft 20**

Mae awdurdod cynllunio'n methu cymryd i ystyriaeth anghenion trigolion o grŵp hil penodol wrth wneud cynlluniau i adfywio ardal. Gellid deall hyn fel torri darpariaeth cynllunio'r DCH, yn ogystal â darpariaethau eraill y Ddeddf.

## Darparu gwasanaethau

2.59 Mae Adran 20 DCH yn dweud ei bod yn anghyfreithlon i berson (yn cynnwys awdurdod lleol) sy'n darparu nwyddau, adnoddau neu wasanaethau i'r cyhoedd i wahaniaethu yn erbyn neu i aflonyddu ar sail hil ar berson sydd am gael neu ddefnyddio'r pethau hynny. Mae hyn yn cynnwys gwrthod neu fethu'n fwriadol â darparu'r nwyddau, adnoddau neu wasanaethau dan sylw; neu wrthod neu fethu'n fwriadol â darparu nwyddau, adnoddau neu wasanaethau o'r un ansawdd, neu mewn modd tebyg, neu ar yr un telerau ag a gynigir i aelodau eraill o'r cyhoedd.

2.60 Mae adran hon y DCH yn trafod llety mewn gwestai a thai llety; yswiriant cartref a benthyca morgeisi; gwasanaethau awdurdod lleol, megis cyngor tai a grantiau adnewyddu tai; a gwasanaethau proffesiynol neu fasnachol a ddarperir gan werthwyr tai, asiantaethau gosod a llety, syrfewyr neu briswyr, asiantaethau rheoli eiddo, cyfreithwyr, ac eraill.

**Enghraifft 21**

Mae banc yn cyfyngu ei fenthyciadau morgais i uchafswm o 80% o werth eiddo mewn ardaloedd o boblogaeth lleiafrif ethnig mawr, o'i gymharu â 95% o werth yr eiddo mewn ardaloedd gwyn. Nid oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol fod yr eiddo yn yr ardaloedd lleiafrif ethnig yn fwy o risg benthyca. Gallai hyn fod yn wahaniaethu anuniongyrchol.

## Enghraifft 22

Nid yw asiantaeth osod yn rhoi gwybodaeth am eiddo arbennig i ymgeiswyr du. Dyma wahaniaethu uniongyrchol. Canfu ymchwiliad ffurfiol y CRE[23], a seiliwyd ar raglen o chwilio am wahaniaethu gan asiantaethau gosod, landlordiaid a gwestai bychain, fod bron i 21 y cant o asiantaethau gosod yn gwahaniaethu ar sail hil. Roedd un asiantaeth wedi cynnwys cwestiwn am genedligrwydd ar y ffurflen gais, er mwyn helpu staff i ddilyn y cyfarwyddiadau gwahaniaethol a roddwyd gan landlordiaid preifat.

## Enghraifft 23

Roedd un cyngor yn gwahaniaethu'n uniongyrchol pan wrthododd dderbyn cais am frecwast priodas gan Sipsi Romani, gan ragdybio y byddai'r teulu a'u gwesteion yn achosi helynt. [*Smith a Smith v Cyngor Bwrdeistref Cheltenham, Avery, Lambert a Hogg*, Llys Sirol Bryste, 1999, heb ei adrodd]

## Enghraifft 24

Mae rheolwr eiddo yn darparu'n gyson wasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw gwaeth yn yr eiddo a reolir ganddo ar gyfer tenantiaid o leiafrifoedd ethnig nag i denantiaid eraill. Dyma wahaniaethu uniongyrchol.

## Enghraifft 25

Mae gwerthwr tai yn gwahaniaethu'n uniongyrchol os bydd yn methu rhoi gwybodaeth am eiddo sydd ar werth i bobl sy'n ffonio, am fod ganddynt acenion Asiaidd.

## Enghraifft 26

Mae un o weithwyr gwerthwr tai yn dweud pethau hiliol wrth brynwr arfaethedig o darddiad Affricanaidd. Mae'r prynwr yn cwyno wrth reolwr y gangen, ond mae'r sylwadau'n parhau. Dyma aflonyddu hiliol.

## Enghraifft 27

Mae prisiwr yn fwriadol yn gosod pris is ar eiddo am fod y gwerthwr o grŵp hil penodol. Dyma wahaniaethu uniongyrchol.

---

23. Gweler *Sorry It's Gone: testing for racial discrimination in the private rented housing sector*, CRE 1990.

**Enghraifft 28**

Mae cwmni yswiriant yn gwrthod darparu polisi yswiriant cartref mewn rhan arbennig o ganol dinas. Mae mwyafrif trigolion yr ardal o leiafrifoedd ethnig. Nid oes gan y cwmni dystiolaeth wrthrychol ei fod yn wynebu mwy o risg yn yr ardal honno. Dyma o bosibl wahaniaethu anuniongyrchol.

## Rheoli, gosod a gwerthu

### Landlordiaid

2.61 Dan Adran 21 DCH, mae'n anghyfreithlon i bob landlord, preifat neu gymdeithasol, yn cynnwys landlordiaid eiddo prydlesol, i wahaniaethu yn erbyn person, neu aflonyddu arnynt, ar sail hil wrth reoli neu wrth osod eiddo, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau prin iawn, pan fo'r adeilad yn fach.[24] Yn ogystal â llety cyffredin ar rent, mae eiddo yn golygu hostelau, mannau gwely a brecwast, llety myfyrwyr a llety dros dro ar gyfer pobl y mae ganddynt hawl i gartref gan yr awdurdod lleol dan ddeddfwriaeth digartrefedd.

2.62 Ni ddylai landlordiaid wahaniaethu yn erbyn, nac aflonyddu ar ymgeisydd na thenant ar sail hil:

a. trwy wrthod rhentu eiddo;

b. o ran y telerau, yn cynnwys y rhent arfaethedig, y cynigir yr eiddo;

c. o ran y ffordd y caiff rhywun ei drin, o'i gymharu ag eraill sydd angen y fath eiddo;

ch. o ran y ffordd y cynigir buddiannau neu gyfleusterau i denantiaid neu trwy wrthod cynnig y buddiannau a'r cyfleusterau hynny (yn cynnwys atgyweirio, cynnal a chadw, parcio ceir a delio â chwynion am aflonyddu neu wahaniaethu hiliol); a

d. thrwy droi allan denantiaid neu breswylwyr, neu beri unrhyw niwed arall iddynt (gall niwed arall gynnwys mynnu mynd i mewn i'r eiddo i archwilio'r llety).

---

24. Bu i Reoliadau Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2003 ddileu yn rhannol yr eithriadau oedd yn caniatáu i landlordiaid a gwerthwyr wahaniaethu pan yn gosod a gwerthu eiddo os oeddent yn byw yn yr eiddo eu hunain, a bod yr eiddo yn cael ei ystyried fel 'eiddo bach' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3). Ni chaniateir gwahaniaethu ar sail hil, neu darddiad ethnig neu genedlaethol; er, yn dechnegol, ei fod yn dal i gael ei ganiatáu ar sail lliw neu genedligrwydd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan ganiateir y fath wahaniaethu, ni all y landlord na'r gwerthwr ddefnyddio gwasanaethau asiant gosod neu werthwr tai i wahaniaethu ar ei ran, na gosod hysbyseb gwahaniaethol.

### Enghraifft 29

Mae landledi yn gwahaniaethu'n uniongyrchol wrth godi rhent uwch a thrwy ofyn am fwy o flaendal gan denantiaid du na thenantiaid gwyn.

### Enghraifft 30

Yn gyffredinol, mae cyngor yn gosod yr adeiladau gwaethaf i ymgeiswyr digartref (gweler yr eirfa yn Atodiad 3), tra bod tenantiaid sy'n trosglwyddo i un o adeiladau eraill y cyngor yn cael gwell adeilad. Mae teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith y bobl y mae gan y cyngor ddyletswydd i'w cartrefu am eu bod yn ddigartref. Byddai'r polisi hwn yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon, oni allai'r cyngor ddangos ei fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Gall hefyd fod yn anghyfreithlon dan Ddeddf Tai 1996.

### Enghraifft 31

Mae cyngor yn penderfynu newid ei bolisi gosod i bolisi 'seiliedig ar ddewis'. Golygai hynny fod gan denantiaid arfaethedig fwy o reolaeth dros ba gartref y byddant yn ei rentu. Dangosodd arolwg ethnig o denantiaethau, yn ôl eu dosbarthiad daearyddol, fod tenantiaid gwyn dros gyfnod o bedair blynedd wedi osgoi rhai rhannau o'r stad gyngor, sydd erbyn hyn yn gartref ar y cyfan i leiafrifoedd ethnig. Os na wnâi'r cyngor unrhyw beth i ddelio â'r sefyllfa hon, gallai fethu o ran ei ddyletswydd i hyrwyddo cysylltiadau hiliol da. Byddai hefyd mewn perygl o gael ei herio dan Adran 1(2) DCH, sy'n gwneud gwahanu yn anghyfreithlon.

### Enghraifft 32

Mae polisi dyrannu cymdeithas tai yn rhoi blaenoriaeth o ran gosod i feibion a merched tenantiaid. Os nad yw proffil hiliol tenantiaid yn adlewyrchu proffil hiliol y bobl sydd angen tai yn nalgylch y gymdeithas, gallai'r polisi hwn beri anfantais i denantiaid arfaethedig o grwpiau hil sy'n cael eu tangynrychioli. Gallai hefyd fod yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon. Felly byddai angen ystyried y polisi'n ofalus, a phwyso a mesur y cyfiawnhad drosto ac unrhyw effeithiau gwahaniaethu posibl.

## Gwerthwyr, yn cynnwys adeiladwyr a datblygwyr tai

2.63 Yn ôl Adran 21 DCH mae'n anghyfreithlon i berchnogion eiddo o bob math, yn cynnwys adeiladwyr a datblygwyr tai, i wahaniaethu yn erbyn person neu aflonyddu arno ar sail hil:

a. o ran y telerau y cynigir yr eiddo;

b. trwy wrthod cais y person am yr eiddo hwnnw; ac

c. o ran y ffordd y caiff y person hwnnw ei drin, o'i gymharu ag eraill sydd angen yr un eiddo neu eiddo tebyg.

**Enghraifft 33**

Mae adeiladwr tai yn gwrthod gwerthu eiddo ger y fynedfa i safle adeiladu newydd i brynwyr du. Mae'r datblygwr yn credu y gallai trigolion du fod yn dramgwydd i brynwyr gwyn. Dyma wahaniaethu uniongyrchol.

2.64 Nid yw'n anghyfreithlon i berson wahaniaethu ar sail lliw neu genedligrwydd (ond nid ar sail hil na tharddiad cenedlaethol) wrth wared ag eiddo os mai'r person sydd biau'r eiddo neu fod ganddo ddiddordeb ynddo, ag yntau/hithau yn byw ym mhob rhan ohono. Ond, byddai'r gwahaniaethu yn anghyfreithlon os byddai'r person yn defnyddio gwerthwr tai i werthu'r eiddo, neu'n cyhoeddi hysbyseb sy'n gwahaniaethu. Nid yw gwahaniaethu yn anghyfreithlon chwaith ar sail lliw neu genedligrwydd os mai 'annedd bychan' yw'r eiddo (gweler troednodyn 24, tudalen 38, a'r eirfa yn Atodiad 3).

**Enghraifft 34**

Mae perchennog tŷ yn rhoi ei dŷ ar werth, ac yn gofyn i werthwr tai ddweud yn y deunydd cyhoeddusrwydd mai ar gyfer siaradwr Cymraeg yn unig y mae'r tŷ. Byddai'r fath amod yn wahaniaethu hiliol anuniongyrchol anghyfreithlon. Gallai hysbysebu'r fath amod mewn taflen neu ar boster 'ar werth' hefyd ddwyn achos yn ei erbyn dan Adran 29 DCH, sy'n datgan fod hysbysebu bwriad i wahaniaethu yn anghyfreithlon.

## Is-osod

2.65 Yn ôl Adran 24 DCH mae'n anghyfreithlon i landlordiaid (ac eraill y mae angen eu cydsyniad) i wahaniaethu ar sail hil yn erbyn person sy'n gwneud cais i is-osod neu i gael tenantiaeth, trwy wrthod caniatâd i is-osod neu drosglwyddo eiddo neu drwy aflonyddu arnynt oherwydd y pethau hyn. Ceir eithriad o ran

anheddau bychain pan wahaniaethir ar sail lliw neu genedligrwydd (gweler paragraff 2.64).

**Enghraifft 35**

Os yw tenant eisiau is-osod ei fflat i deulu Somalaidd, ac angen cydsyniad ei landlord, byddai'r landlord yn gwahaniaethu'n uniongyrchol wrth wrthod caniatâd ar sail hil, a byddai hyn yn anghyfreithlon oni bai fod yr eithriad yn gymwys (gweler paragraff 2.64).

## Deddf Gwerthwyr Tai 1979

2.66 Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r awdurdod i'r Swyddfa Masnachu Teg i wahardd person rhag gweithio fel gwerthwr tai, os yw'r Swyddfa yn sicr fod y person hwnnw wrth wneud ei waith wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn person, neu wedi aflonyddu arno ar sail hil.[25]

2.67 Mae gan y CRE ddyletswydd i roi i'r Swyddfa Masnachu Teg unrhyw wybodaeth am:

a. brawf o wahaniaethu neu aflonyddu hiliol mewn achos unigol;

b. gorchymyn peidio gwahaniaethu a gyflwynwyd ganddo; neu

c. orchymyn neu waharddeb i wahardd gwerthwr tai rhag gwahaniaethu.

## Deddf Credyd Defnyddwyr 1974

2.68 Dan y Ddeddf hon, mae'n rhaid i werthwyr tai neu adeiladwyr a datblygwyr tai sy'n gwneud unrhyw beth o ran trefnu morgeisi neu drefniadau credyd eraill ar gyfer prynu eiddo, gael trwydded gan y Swyddfa Masnachu Teg. Gall y Swyddfa wrthod, diddymu neu beidio adnewyddu trwydded os oes tystiolaeth fod y daliwr neu'r ymgeisydd am drwydded wedi gwahaniaethu ar sail lliw, hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol wrth gynnal ei fusnes (mae cenedligrwydd wedi ei eithrio).

## Deddf Tai 2004

2.69 Wrth benderfynu os yw person yn addas i gael trwydded ar gyfer eiddo preswyl sydd i'w osod i denantiaid, neu i reoli'r eiddo hwnnw, mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol ystyried unrhyw dystiolaeth fod daliwr arfaethedig y drwydded neu'r rheolwr wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil.[26]

25. Adran 3(1)(b) ac Atodlen 1, paragraff 2, Deddf Gwerthwyr Tai 1979.

26. Adran 66(1)(2)(b), Deddf Tai 2004.

# 3

*Tai ac arfer da*

# 3

# Tai ac arfer da

## Cyflwyniad

3.1 Mae’r bennod hon yn rhoi cyngor ymarferol ynglŷn â’r ffordd y gall sefydliadau ac asiantaethau tai osgoi gwahaniaethu ac aflonyddu hiliol anghyfreithlon, a hyrwyddo cysylltiadau hiliol da. Mae’r bennod yn delio â 10 agwedd gyffredinol ar dai:

a. rheolaeth a rôl cyrff llywodraethol;

b. tai newydd a thai wedi eu gwella, ar rent a heb fod ar rent;

c. gwerthiannau a gosod;

ch. benthyca morgeisi ac yswiriant;

d. cyngor ar ddigartrefedd a thai;

dd. adfywio ac integreiddio cymdogaethau

e. tenantiaeth a rheolaeth tai;

f. aflonyddu hiliol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

ff. contractwyr a chaffaeliad; a

g. chyfranogiad trigolion a thenantiaid.

3.2 Oherwydd natur y ddeddfwriaeth, yn arbennig DCH 1976 fel y mae'n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus (ac yn anuniongyrchol i asiantaethau tai cymdeithasol eraill megis cymdeithasau tai), mae pwyslais y cod, yn anochel, ar y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae llawer o’r materion, a llawer o’r cyfarwyddyd, hefyd yn berthnasol i dai yn y sector preifat. Mae crynodeb byr o’r cod ar gael, sy'n egluro ei oblygiadau i sefydliadau tai preifat a landlordiaid.

3.3 Mae’r cyfarwyddyd yn y cod hwn yn datblygu ar y camau sydd eisoes wedi eu cymryd i hyrwyddo cydraddoldeb, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru[27], Swyddfa Archwilio Cymru ac asiantaethau eraill. Maent yn defnyddio'r enghreifftiau o arfer da, nid yn unig o Gymru ond hefyd o rannau eraill o’r DU. Er pob ymdrech i osgoi enghreifftiau a chyfarwyddyd a fyddai'n dyddio yn gyflym, bydd y meysydd a drafodir yn y cod hwn yn newid o bryd i’w gilydd, ac felly, yn anochel daw rhai o’r cyfeiriadau yn llai perthnasol. Fodd bynnag, dylai’r egwyddorion barhau’n gymwys ac yn berthnasol hyd y gellir rhagweld.

---

27. Gweler www.housing.wales.gov.uk

3.4 Mae’r cod yn awgrymu sut y gallai sefydliadau ac asiantaethau tai ddatblygu’r syniad o gydlyniad ac integreiddio cymunedol (gweler yr eirfa yn Atodiad 3); er mwyn datblygu gwell cysylltiadau rhwng cymunedau lleol a grwpiau penodol, megis ceiswyr lloches, ffoaduriaid, a Sipsiwn a Theithwyr.

3.5 Mae pob adran yn y bennod hon yn gorffen gyda rhestr o’r prif ganlyniadau y dylai sefydliadau ac asiantaethau tai fod yn gweithio tuag atynt. Maent yn cynrychioli’r canlyniadau cyraeddadwy a mesuradwy o ddilyn cyfarwyddiadau’r cod, a dylent gefnogi unrhyw systemau perfformio neu archwilio eraill y gallai'r sefydliadau tai fod yn eu defnyddio.

3.6 Mae’r cod yn delio gyda phob agwedd ar dai, a'r gwahanol gamau yn ei ddatblygiad a’i ddefnydd. Fodd bynnag, mae’n bwysig cofio, er y bydd y camau a gymerir i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn dibynnu ar natur y sefydliad tai, ynghyd â’i rôl, ei sector, ei faes gweithredu a’i faint, dylai cydraddoldeb hiliol fod yn fater corfforaethol. Dylid bod cysylltiadau clir ac amlwg rhwng y ganolfan a darparwr y gwasanaeth tai wrth benderfynu sut y mae polisïau cydraddoldeb, fel y maent yn ymwneud â thai, yn cael eu llunio. Dylai strategaeth ynghylch gweithio tuag at gydraddoldeb hiliol fod yn rhan annatod o fframwaith cynllunio’r sefydliad. Dylai sefydliadau sy’n awdurdodau cyhoeddus gyda dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol fel mater o drefn gyda pholisïau tai newydd. Argymhellir bod sefydliadau nad yw’n ddyletswydd arnynt i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn dilyn yr un drefn fel mater o arfer da. Yn yr achos hwn, dylai ystod a natur y fath strategaeth cydraddoldeb hiliol ddibynnu ar y sefydliad tai, a’i faint[28], a dylai roi ystyriaeth i unrhyw god ymarfer a threfniadau rheoleiddiol y mae’r sefydliad yn ymrwymedig iddynt, megis ‘Cynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig’, fframwaith arolygu’r Comisiwn Archwilio, Rheoliadau Cynulliad Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai a chôd ymarfer Cymdeithas Genedlaethol y Gwerthwyr Tai.

3.7 Dylai sefydliadau tai ystyried y canllawiau canlynol wrth weithredu eu polisi neu eu strategaeth cydraddoldeb hiliol.

a. Dylai cydraddoldeb hiliol, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, fod yn un o egwyddorion sylfaenol y sefydliad, a dylid adlewyrchu hynny mewn unrhyw ddatganiad o genhadaeth y gallai ei fabwysiadu.

b. Dylid archwilio ac adolygu swyddogaeth a pholisïau’r sefydliad, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys holl anghenion tai yr ardal a wasanaethir, gan ddefnyddio’r wybodaeth er mwyn datblygu strategaeth a chynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol.

c. Dylai’r sefydliad ymgynghori â’i staff ac â chymunedau lleol, gan gynnwys newydd ddyfodiaid a grwpiau sy'n draddodiadol wedi eu hallgau, megis

---

28. Gweler *Race Equality: Guidance for small housing associations*, Y Gorfforaeth Tai, 2005.

Sipsiwn a Theithwyr, wrth ddatblygu ei strategaeth a chynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol.

ch. Dylid sicrhau arweiniad ac ymrwymiad y bwrdd, y cynghorwyr, ac uwch reolwyr ym mhob cam o'r strategaeth cydraddoldeb hiliol, o'i datblygiad cynharaf i'w gwireddu.

d. Dylid seilio cynlluniau a threfniadau tai y sefydliad ar wybodaeth gyfredol am anghenion tai pobl o bob cefndir yn y gymuned y mae yn ei gwasanaethu.

dd. Dylai'r sefydliad sicrhau bod gwybodaeth am ei wasanaethau, a'i strategaeth cydraddoldeb hiliol, yn cyrraedd pobl o bob grŵp hil.

e. Dylid hyfforddi staff y sefydliad i ddarparu gwasanaeth cyfartal i bob cwsmer, o ba bynnag grŵp hil.

f. Dylai'r sefydliad adolygu'n gyson ei strategaeth a'i gynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol, a'i ddiwygio yn ôl y galw.

ff. Dylid monitro a mesur cynnydd y sefydliad o ran sicrhau cydraddoldeb hiliol o'i gymharu â gwaith a chyrhaeddiad sefydliadau tai eraill, gan hyrwyddo arfer da i'r graddau mwyaf posibl.

3.8 Mae'r 10 maes cyffredinol yr edrychir arnynt yn fanwl yng ngweddill y bennod hon yn cynnwys y canlynol:

a. cefndir, yn cynnwys unrhyw ofynion cyfreithiol;

b. meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos;

c. argymhellion o ran arfer da; a

ch. canlyniadau allweddol, yn seiliedig ar y dystiolaeth.

# A. RHEOLAETH A RÔL CYRFF LLYWODRAETHOL

## Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.9 Mae a wnelo rheolaeth â'r modd y mae sefydliadau yn cael eu rhedeg, pwy sy'n eu rheoli a phwy sy'n atebol am eu gweithredoedd neu am eu methiant i weithredu. Mae rheolaeth dda yn angenrheidiol o ran gweithredu'n gyson er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Bydd y bobl allweddol yn debygol o gynnwys aelodau'r bwrdd, cynghorwyr yr awdurdodau lleol, y prif weithredwr ac uwch reolwyr. Bydd natur yr arweinyddiaeth a roddir gan bob un yn dibynnu ar rôl a swyddogaethau'r arweinwyr, ac a ydynt wedi eu penodi ynteu wedi eu hethol. Mae *Cod Ymarfer Statudol y CRE ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Cyflogaeth* yn delio â materion cyflogaeth cyffredinol, ac felly ychydig o sylw y mae'r cod hwn yn ei roi i recriwtio ac ethol aelodau o'r bwrdd.

3.10 Aelodau'r bwrdd sy'n llunio gweledigaeth, ac yn gosod cyfeiriad a safonau ar gyfer y sefydliad. Maent yn atebol os bydd pethau'n mynd o chwith. Hwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithgaredd a gweithredoedd staff y sefydliad, ac am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Byddant yn gyfrifol am unrhyw achos o wahaniaethu hiliol a ddygir yn erbyn y sefydliad oni bai eu bod yn gallu dangos iddynt wneud popeth ymarferol i'w atal. Mae ganddynt felly rôl allweddol mewn sicrhau bod y sefydliad yn cadw at DCH ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.11 **Penodi ac ethol aelodau o'r bwrdd.** Mae ymchwil yn dangos nad yw aelodau byrddau sefydliadau tai yn tueddu i adlewyrchu cyfansoddiad ethnig a hiliol y boblogaeth y mae'r sefydliad yn ei gwasanaethu. Mae hefyd yn dangos bod nifer helaeth o sefydliadau yn dal i ddibynnu ar ddulliau penodi anffurfiol, yn arbennig dulliau llafar. Gall hyn fod o anfantais, a hyd yn oed wahaniaethu yn erbyn pobl o rai grwpiau hil.

3.12 **Ymsefydlu a Hyfforddiant.** A yw prif wneuthurwyr penderfyniadau'r sefydliad yn deall eu cyfrifoldebau dan y DCH?

3.13 **Dulliau gwaith.** Sut mae'r arweinyddiaeth yn cyflawni ei gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol o fewn y sefydliad, ac i roi arweiniad yn y maes hwn, ac i fesur perfformiad a chynnydd, ac i gyflawni ei gyfrifoldebau dan y DCH?

## Argymhellion o ran arfer da

3.14 Dylid bod gan sefydliadau tai weithdrefnau clir ar gyfer penodi aelodau o'r bwrdd sy'n sicrhau cyfle cyfartal, a dylent hysbysebu swyddi mor eang â phosibl. Mae'n bosibl y bydd y sefydliad am osod targedau, a chymryd camau i ddenu pobl o grwpiau hil sydd wedi eu tangynrychioli o fewn y sefydliad (gweler 'gweithredu cadarnhaol' yn Atodiad 1 a para 4.9dd). Dylid monitro penodiadau aelodau'r bwrdd ac aelodaeth y bwrdd yn gyson, yn ôl grŵp hil.

3.15 Dylid bod gan sefydliadau tai ddulliau ymsefydlu ffurfiol ar gyfer yr holl staff sydd â rôl mewn gwneud penderfyniadau, yn cynnwys aelodau'r bwrdd. Dylai'r gweithdrefnau gynnwys eu cyfrifoldebau dan y DCH, a chydraddoldeb hiliol yn fwy cyffredinol. Dylai arweinwyr hefyd dderbyn hyfforddiant mewn materion cydraddoldeb hiliol, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus, a mesur cynnydd yn y maes hwn.

3.16 Dylai aelodau'r bwrdd, neu gynghorwyr a staff, sicrhau bod ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb hiliol yn cael ei brif ffrydio; bod ei strategaethau'n cael eu monitro, eu hadolygu a'u diwygio, yn ôl yr angen; a bod prosiectau a mentrau yn cael y gefnogaeth gywir, a'u monitro'n rheolaidd, er mwyn cyflawni eu nodau. Dylid ystyried cydraddoldeb yn ddyletswydd ar bawb, er bod gan arweinwyr y sefydliad rôl bendant yma a dylid eu dynodi'n glir.

### Canlyniadau allweddol

3.17 Mae gan y sefydliad tai systemau effeithiol a theg ar gyfer penodi aelodau'r bwrdd ac arweinwyr eraill.

3.18 Mae'r bwrdd yn adlewyrchu'n fras y gwahanol gymunedau a wasanaethir gan y sefydliad, gan gynnwys cymunedau newydd a chymunedau sy'n datblygu.

3.19 Mae arweinwyr y sefydliad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan DCH, a phob aelod yn gwybod beth ddisgwylir ganddo neu ganddi. Mae'r staff yn llawn ymwybodol o'r safiad a wnaed gan arweinwyr y sefydliad ynghylch materion cydraddoldeb hiliol.

3.20 Gellir dangos bod arweinwyr y sefydliad yn cyflawni eu cyfrifoldebau dan y DCH, a'u bod yn datblygu strategaeth cydraddoldeb hiliol y sefydliad.

3.21 Cyflwynir adroddiadau cyson digon manwl a digon aml i arweinwyr y sefydliad am y cynnydd mewn cydraddoldeb hiliol fel y gallant fonitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a gosod cyfeiriadau newydd yn ôl yr angen.

## B. TAI NEWYDD A THAI GWELL

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.22 Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail hil, neu i fod â pholisïau a gweithdrefnau sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol ac mewn gwirionedd yn atal pobl o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig rhag cael mynediad at dai newydd neu dai gwell (gweler paragraffau 2.6, 2.15 a 2.16). Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr tai, cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cymdeithasau tai, landlordiaid a datblygwyr tai preswyl.

3.23 Mae Adran 19A o'r DCH yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu ar sail hil ym maes cynllunio.

3.24 O dan y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, rhaid i awdurdodau cyhoeddus asesu'r modd y mae polisïau y maent yn eu hargymell, gan gynnwys

strategaethau a chynlluniau, yn debygol o effeithio ar wahanol grwpiau hil, gan gynnwys grwpiau sydd wedi eu hanwybyddu, megis Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori hefyd â phobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan eu polisïau, a rhoi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol (gweler paragraffau 2.48b a 2.50; gweler paragraffau 4.10 – 4.15 am fwy o arweiniad ynglŷn â chynnal asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol; gweler hefyd Enghraifft 8).

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.25 **Cyllid a grantiau.** A wneir penderfyniadau cyllido ynglŷn â grantiau yn deg ac yn gyfartal? A yw'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad yw ei broses asesu yn cael effaith anffafriol ar bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n ymgeisio am grant, ac yn gwneud ymdrech, er enghraifft, i hyrwyddo grantiau gwella ymysg grwpiau lleiafrifol?

3.26 **Cynllunio.** A yw penderfyniadau cynllunio strategol y sefydliad yn rhydd o wahaniaethu hiliol anghyfreithlon? A roddwyd ystyriaeth briodol i effeithiau posibl strategaethau a chynlluniau tai'r sefydliad ar wahanol grwpiau hil, cyn y gwneir penderfyniadau terfynol?

3.27 **Rhaglenni gwella a llety dros dro.** A wnaed pob trefniant i ailgartrefu tenantiaid neu drigolion fel rhan o raglen wella neu adleoli, gan gynnwys defnyddio llety dros dro, heb wahaniaethu'n anghyfreithlon rhwng grwpiau hil? A yw'r trefniadau yn rhoi ystyriaeth i anghenion grwpiau arbennig?

3.28 **Asesu angen.** A yw'r sefydliad wedi cynnal archwiliad o anghenion tai yn yr ardal y mae'n ei gwasanaethu? A yw asesiad y sefydliad o anghenion tai yn adlewyrchu gwahanol anghenion pob grŵp hil yn yr ardal, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid? A adlewyrchir y rhain yn ei gynlluniau strategol? Gallai methu â gwneud hyn fod yn wahaniaethu anuniongyrchol (gweler paragraffau 2.15 a 2.16).

3.29 **Datblygu a chynllunio.** A oes gan y sefydliad weithdrefnau ar gyfer ystyried dewisiadau pobl ar gyfer ardaloedd penodol, a goblygiadau arferion crefyddol neu ddiwylliannol arbennig ar gyfer cynllunio, wrth ddatblygu rhaglenni adeiladu tai?

## Argymhellion o ran arfer da

3.30 Dylai argymhellion i ariannu neu ddatblygu rhaglenni tai newydd, safleoedd carafannau a rhaglenni gwella gael eu hasesu am eu heffeithiau tebygol ar gydraddoldeb hiliol (gweler para. 2.48b), os yw'r sefydliad tai wedi ei rwymo gan y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Yna dylai'r prosiectau gael eu

monitro'n rheolaidd i weld beth yw eu heffeithiau gwirioneddol ar wahanol grwpiau hil (gweler para. 2.48c).

3.31 Dylai penderfyniadau cynllunio gael eu monitro, yn ôl grŵp hil, i sicrhau nad ydynt yn arwain at wahaniaethu hiliol anghyfreithlon (gweler para.4.7 - 4.9).

3.32 Dylai sefydliadau tai ddatblygu strategaeth ar gyfer asesu anghenion tai yn yr ardaloedd a wasanaethant. Ar gyfer awdurdodau cyhoeddus rhestredig dylai hyn fod yn rhan o'r gwaith y mae angen iddynt ei wneud i fodloni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol; i sefydliadau eraill fe'i cyflwynir mewn ymateb i ofynion rheoleiddiol a osodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru[29]. Dylai'r strategaeth, a ddylai adlewyrchu unrhyw gyfraniadau oddi wrth bartneriaid, rhanddeiliaid lleol, staff ac aelodau'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghori, lywio pob cam o'r broses cynllunio a datblygu. Dylai'r ffactorau canlynol ffurfio rhan o unrhyw asesiad o anghenion tai:

a. gwybodaeth a ddarperir gan wahanol grwpiau hil, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr;

b. dewisiadau ar gyfer ardaloedd arbennig;

c. ystyriaethau arbennig, gan gynnwys, er enghraifft, nifer yr ystafelloedd gwely neu unrhyw addasiadau o ran cynllun sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion diwylliannol; a

ch. gwybodaeth o ffynonellau eraill, megis astudiaethau cenedlaethol a lleol, neu restrau tai'r sefydliad, neu o unrhyw arolwg a gomisiynwyd yn benodol o anghenion heb eu bodloni.

3.33 Dylai sefydliadau tai lunio gweithdrefnau ar gyfer defnyddio eu hasesiadau o angen i ddatblygu prosiectau tai penodol, gan gynnwys ceisiadau am gyllid, ac argymhellion ar gyfer partneriaethau.

3.34 Dylai sefydliadau tai ystyried ai'r dull mwyaf effeithiol o gwrdd â rhai anghenion yw trwy ddefnyddio darpariaethau gweithredu cadarnhaol y DCH (gweler paragraffau 2.40 – 2.42)

---

29. I gael manylion llawn gweler *Paratoi Strategaethau Tai Lleol - Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*, Mehefin 2002, sy'n cyflwyno canllawiau ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd i asesu angen a gyflwynwyd yn Adran 8, Deddf Tai 1985. Cyhoeddwyd canllawiau atodol, ar ffurf nodyn cyngor i awdurdodau lleol Cymru , o dan y teitl *Dadansoddi Marchnadoedd Tai Lleol*, ym mis Rhagfyr 2002. Cyhoeddwyd canllawiau pellach yn dwyn y teitl *Strategaethau Tai Lleol a Rôl y Sector Preifat* ym mis Mai 2003, ac yn fwy diweddar, cyhoeddwyd canllawiau asesu tai lleol drafft yn 2005. Am ragor o wybodaeth am ddatblygiad gofynion polisi tai ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, gweler www.wales.go.uk/subilocalgov/content/consultation/lg-plan-rat-e.htm.

3.35 Dylai unrhyw drefniadau dros dro i ail-gartrefu pobl (er enghraifft, rhaglenni adleoli) gael eu monitro yn ôl grŵp hil, a'u gwerthuso yng ngoleuni ymatebion oddi wrth drigolion neu denantiaid.

3.36 Dylai sefydliadau tai gynnal arolygon bodlonrwydd, ymysg trefniadau eraill, i ddysgu beth mae trigolion, tenantiaid, ymgeiswyr am dai a gwasanaethau cysylltiedig, ac eraill yn y gymuned yn ei feddwl am eu polisïau a'u gwasanaethau, a defnyddio'r ymatebion i werthuso'u strategaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Os yw'r canlyniadau'n dangos bod pobl o grwpiau hil penodol yn llai bodlon gyda'u gwasanaethau, dylai'r sefydliad archwilio'r rhesymau a gweithredu'n briodol.

### Canlyniadau allweddol

3.37 Mae pob cynllunydd wedi derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb hiliol ac yn rhoi ystyriaeth i hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Os oes tystiolaeth y gallai polisi arwain at anghyfartaledd hiliol, mae'r sefydliad tai yn ystyried y rhesymau am yr anghyfartaleddau ac yn penderfynu a ellir eu cyfiawnhau. Os na ellir cyfiawnhau'r anghyfartaleddau, mae'r sefydliad yn ystyried newidiadau i'r polisi, ac yn ei fonitro i ofalu ei fod yn rhoi'r canlyniad a ddymunir.

3.38 Mae gan y sefydliad tai ddealltwriaeth dda o anghenion yr holl gymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

3.39 Seilir rhaglenni ar gyfer stoc tai newydd a gwell (yn arbennig pan fo'r sefydliad yn awdurdod cyhoeddus rhestredig) ar anghenion cymunedau lleol wedi eu harchwilio, gan gynnwys grwpiau o leiafrifoedd ethnig.

3.40 Gall y sefydliad tai roi enghreifftiau o arfer da, y mae'n eu rhannu ag asiantaethau eraill.

3.41 Dengys arolygon cwsmeriaid, a gwybodaeth arall, fod pobl yr un mor fodlon gyda gwasanaethau'r sefydliad tai, beth bynnag fo'u grŵp hil.

## C. GWERTHIANNAU A GOSOD

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.42 Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail hil (ond gweler hefyd baragraffau 2.61, 2.64 a 2.65), neu i fod â pholisïau neu weithdrefnau, gan gynnwys y rheini ynghylch mynediad at wybodaeth, sy'n ei gwneud yn anghyfartal o anodd i bobl o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig gael tai. Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i werthwyr tai, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai,

priswyr a syrfewyr, a darparwyr gwasanaethau tai eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

## Enghraifft 36

Mae cyngor lleol (neu gymdeithas tai) yn methu â sicrhau bod gwybodaeth am ei wasanaethau gosod tai yr un mor hygyrch i bobl o bob grŵp hil, er enghraifft, drwy beidio â hysbysebu'r gwasanaeth mewn mannau y gŵyr sy'n ddewisol gan drigolion lleiafrifoedd ethnig. Gallai hyn fod yn wahaniaethu anuniongyrchol.

## Enghraifft 37

Mae prisiwr yn gwahaniaethu'n uniongyrchol drwy roi pris is ar eiddo, oherwydd grŵp hil y gwerthwr.

## Enghraifft 38

Darganfu ymchwiliad gan y CRE i gynllun gosodiadau 'seiliedig ar ddewis' un o brif landlordiaid y sector cyhoeddus (gweler yr eirfa yn Atodiad 3):

- nad oedd cyngor y ddinas wedi cynnal asesiad effaith cydraddoldeb hiliol o'r cynllun;
- nad oedd wedi ymgynghori'n ddigonol â grwpiau ac asiantaethau yr effeithiwyd arnynt yn y gymuned;
- roedd monitro ethnig o geisiadau a dyraniadau yn wael; a
- nid oedd gwybodaeth am y cynllun newydd ar gael yn yr ieithoedd perthnasol.

Daeth y CRE i'r penderfyniad bod y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wedi'i thramgwyddo ac y dylid cywiro'r methiannau hyn.

## Enghraifft 39

Dengys dadansoddiad o ddyraniadau tai un cyngor fod pobl o rai grwpiau hil yn cael cynnig llety salach yn gyson. Mae hyn yn wahaniaethu uniongyrchol.

**Enghraifft 40**

Mae gwerthwr tai yn gwahaniaethu'n uniongyrchol drwy ddangos gwahanol ddewisiadau o'i eiddo i brynwr Asiaidd a phrynwr gwyn os yw hyn yn seiliedig, nid ar ddewis pob un o'r prynwyr, ond ar p'run ai a yw'r ardal dan sylw yn 'wyn' neu yn 'Asiaidd'.

3.43 Mae'n anghyfreithlon i wahanu pobl yn ôl grŵp hil yn y modd y darperir tai, hyd yn oed os yw'r gwahanu yn arwain at well amodau byw i'r rhai hynny sydd wedi eu gwahanu. Fodd bynnag, ni fyddai gwahanu grwpiau hil oherwydd bod unigolion neu deuluoedd wedi symud neu ymgynnull dros gyfnod o amser yn anghyfreithlon (gweler para 2.11).

3.44 Mae'r DCH hefyd yn rhoi dyletswyddau penodol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol (gweler paragraffau 2.43 - 2.51).

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.45 **Gwybodaeth am wasanaethau.** A yw'r holl ymgeiswyr, beth bynnag yw eu grŵp hil, ond gan gymryd sefyllfa'r unigolyn i ystyriaeth, yn cael yr un wybodaeth am werthiannau a gosod?

3.46 **Prisio ac arolygon.** A yw'r rhain yn cael eu gwneud yn yr un modd ac ar yr un telerau ar gyfer pob grŵp hil? A yw staff wedi'u hyfforddi ynglŷn â'u cyfrifoldebau o dan y DCH?

3.47 **Mynediad.** A yw mynediad at system dai'r sefydliad yn un nad ydyw'n gwahaniaethu? A yw unrhyw rai o'r systemau yma yn rhai anffurfiol neu yn cyfyngu ar bobl; er enghraifft, systemau sy'n dibynnu ar wybodaeth ac argymhellion sy'n cael eu trosglwyddo ar lafar, sy'n golygu bod lleoedd gwag yn cael eu llenwi'n bennaf gan drigolion o un grŵp hil sy'n lledaenu'r neges ymysg eu ffrindiau a'u teuluoedd?

3.48 **Gosod a safon.** A yw'r sefydliad yn defnyddio gweithdrefnau a meini prawf nad ydynt yn gwahaniaethu ar gyfer gosod llety? Er enghraifft, a gymerwyd camau i ofalu nad yw'r system ar gyfer 'cynnig' am eiddo o dan gynlluniau gosod 'seiliedig ar ddewis' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3) yn rhoi grŵp (neu grwpiau) hil arbennig o dan anfantais (gweler Enghraifft 8)? Dylai landlordiaid cymdeithasol fonitro dosbarthiad daearyddol gwahanol grwpiau hil ar draws eu stoc er mwyn sicrhau nad yw dewis yn arwain at wahanu.

3.49 **Trefniadau enwebu.** A yw system y sefydliad ar gyfer cyfeirio ymgeiswyr am dai at landlordiaid cymdeithasol eraill yn rhoi ymgeiswyr o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig o dan anfantais; er enghraifft, trwy drosglwyddo ymgeiswyr o grŵp

hil arbennig yn anghymesur i dai cymdeithasau tai, a ystyrir yn 'well'? A yw ymgeiswyr am dai o bob grŵp hil yn cael eu cynrychioli'n deg ymysg enwebiadau'r sefydliad?

3.50 **Asesu ymgeiswyr am dai.** A yw swyddogion tai yn asesu anghenion tai ymgeiswyr yn deg? A yw'r staff wedi eu hyfforddi i adnabod sut y gall rhagfarn a stereoteipio ddylanwadu ar asesiad?

3.51 **Gwahaniad** (gweler yr eirfa yn Atodiad 3). A yw'r sefydliad tai wedi cymryd camau i ofalu nad yw ei bolisïau a'i arferion ynglŷn â dyrannu eiddo yn gyfystyr â gwahanu? Fodd bynnag, ni fydd rhoi ystyriaeth i ddewisiadau cadarnhaol ymgeiswyr am ardaloedd arbennig (er enghraifft oherwydd eu bod yn dymuno bod yn agos at deulu neu ffrindiau, neu wasanaethau neu gyfleusterau crefyddol neu ddiwylliannol, neu oherwydd eu bod yn dymuno osgoi ardaloedd lle maent yn ystyried y gallant fod mewn perygl o aflonyddu hiliol) yn debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail hil.

3.52 **Math o eiddo**. A yw'r sefydliad tai yn gallu bodloni anghenion amrywiol? Er enghraifft, a yw ei stoc tai yn cynnwys eiddo gyda phedair neu fwy o ystafelloedd gwely a fyddai'n addas i deuluoedd mwy, sy'n angen amlwg ymysg rhai grwpiau hil?

3.53 **Gwasanaethau cynghori.** A yw cynghorwyr tai y sefydliad wedi eu hyfforddi i ddeall amgylchiadau ac anghenion tai grwpiau hil arbennig, ac i ymdrin â'r rhain gyda chydymdeimlad[30]? A yw'r staff sy'n rhoi cyngor ynglŷn â gwasanaethau tai'r sefydliad yn gynrychioliadol o'r gwahanol bobl y mae'r sefydliad yn ei wasanaethu, ac yn wybodus ynglŷn â'r bobl hyn?

## Argymhellion o ran arfer da

3.54 Dylai'r holl sefydliadau tai ddeall eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr o dan y DCH, sef, yn bennaf, ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail hil, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu aflonyddu arnynt. Dylai eu staff fod yn ymwybodol hefyd o unrhyw ofynion neu gyngor sy'n berthnasol i, neu sydd â goblygiadau ar gyfer, cydraddoldeb hiliol, a gyhoeddwyd gan gyrff rheoleiddiol fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, ac unrhyw godau ymarfer, trefniadau rheoleiddio a chyfrifoldebau cysylltiedig.

3.55 Dylai sefydliadau tai adolygu eu systemau gweithredu, gan gynnwys y meini prawf cymhwyster a ddefnyddiant ar gyfer gwahanol fathau o dai, a gofalu nad ydynt yn rhai a allai wahaniaethu. Dylai awdurdodau cyhoeddus ddynodi'r swyddogaethau a'r polisïau hynny sy'n berthnasol i gyflawni eu dyletswydd i

30. I gael canllawiau manwl am anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gweler *Housing and Support Services for asylum Seekers and Refugees: A good practice guide*, Sefydliad Siartredig Tai ac Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree, 2005.

hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, monitro eu heffaith, ac asesu effaith debygol unrhyw argymhellion polisi perthnasol newydd ar gydraddoldeb hiliol.

3.56 Dylai trefniadau enwebu (yn gyffredinol rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) ac unrhyw drefniadau i dderbyn atgyfeiriadau oddi wrth sefydliadau eraill, gael eu hasesu i ofalu nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr tai o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig.

3.57 Dylai staff gael eu hyfforddi i adnabod ac osgoi rhagfarn a stereoteipio wrth asesu ceisiadau am dai. Dylid eu hyfforddi hefyd i ddeall anghenion gwahanol grwpiau, gan gynnwys, yn arbennig, pobl ag anawsterau dysgu neu gyflyrau meddygol, hynafgwyr lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau, a Sipsiwn a Theithwyr.

3.58 Dylai sefydliadau tai (yn arbennig y rhai hynny sy'n darparu tai cymdeithasol) sicrhau bod eu holl systemau gwybodaeth a chyfathrebu - ffôn, ysgrifenedig, ar y we, neu wyneb yn wyneb - yn hygyrch ar gyfer pobl o bob grŵp hil o fewn y cymunedau a wasanaethir ganddynt.

3.59 Dylid defnyddio arolygon bodlonrwydd a holiaduron ynglŷn â mentrau penodol, o bosibl fel rhan o arolwg ehangach o dai yn yr ardal, i sicrhau bod pobl o bob grŵp hil yn fodlon eu bod yn derbyn gwasanaeth teg a chyfartal.

3.60 Dylai sefydliadau tai gadw eu cofnodion ar anghenion tai a dewisiadau ymgeiswyr yn gyfoes, a gofalu bod eu gosodiadau a'u cynigion o lety yn rhoi ystyriaeth i'r rhain.

3.61 Dylai sefydliadau tai wneud yn siŵr nad yw eu polisïau yn arwain at wahanu. Drwy weithio'n agos gyda sefydliadau lleol eraill, gan gynnwys sefydliadau o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig, dylent gymryd camau i ymdrin â materion diogelwch ymhob cymdogaeth, fel nad oes neb yn teimlo bod yn rhaid iddynt osgoi rhai ardaloedd. Hyrwyddo pob cymdogaeth fel mannau dymunol i fyw ar gyfer pob grŵp hil ddylai'r nod fod[31].

31. Gweler *How Housing Management can Contribute to Community Cohesion*, Sefydliad Siartredig Tai, 2004; a R Blackaby, *Community Cohesion and Housing: A good practice guide*, Sefydliad Siartredig Tai, 2004.

## Enghraifft 41

Roedd sefydliad trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr yn gweithredu cynllun gosodiadau 'seiliedig ar ddewis' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3) ar ran yr awdurdod tai lleol. Nid oedd ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar y gofrestr tai.  Daeth mwy o bobl yn aelodau o'r cynllun nag a fu ar y gofrestr, a chynyddodd y gyfran a ddeuai o leiafrifoedd ethnig chwe gwaith drosodd. Adlewyrchid hyn mewn cynnydd sylweddol a pharhaol o ran gosodiadau i ymgeiswyr am dai o leiafrifoedd ethnig. Cymerodd y sefydliad nifer o gamau i helpu'r awdurdod i leihau unrhyw effaith niweidiol, ac i gwrdd â'r ddyletswydd o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

- Penododd swyddogion marchnata a chanddynt y sgiliau iaith perthnasol a gwybodaeth o wahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig, i esbonio sut mae'r cynllun yn gweithio a'r cyfleoedd a gynigir ganddo.
- Helpodd y rheini heb fawr o Saesneg i wneud ceisiadau trwy ddefnyddio gwasanaeth llinell gymorth dwyieithog.
- Anogodd y rheini heb fynediad at y rhyngrwyd i ddefnyddio'r llinell gymorth a swyddfeydd lleol i wneud ceisiadau.
- Monitrodd batrymau cais, yn ôl grŵp hil, er mwyn adnabod grwpiau, megis ymfudwyr diweddar, gyda phroffiliau cais anarferol o isel, a chynhyrchu gwell llenyddiaeth am y cynllun.
- Monitrodd batrwm gosodiadau i deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a chynnig gwasanaeth cefnogi tenantiaeth iddynt, fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth geisio am ardaloedd lle gallent fel arall deimlo'n unig neu ofni aflonyddu hiliol.
- Gweithredodd y cynllun mewn partneriaeth â chymdeithasau tai yn yr ardal, i ddod o hyd i dai mwy o faint ar gyfer teuluoedd lleiafrifoedd ethnig, yr oedd mwy o angen am y rhain arnynt.

3.62 Dylai sefydliadau tai (yn arbennig awdurdodau cyhoeddus, gweler para. 2.48c) ofalu bod ganddynt systemau effeithiol ar gyfer monitro, yn ôl grŵp hil, y modd y mae eu polisïau yn gweithio yn y meysydd canlynol:

a. systemau enwebu ac atgyfeirio;

b. penderfyniadau am ddyrannu tai rhwng gwahanol fathau o ymgeiswyr, er enghraifft ymgeiswyr ar gyfer trosglwyddo, ymgeiswyr digartref ac ymgeiswyr sy'n gwneud cais am eiddo o dan system gosod 'seiliedig ar ddewis' (gweler yr eirfa yn Atodiad 3);

c. gosod (gan gynnwys gosod 'seiliedig ar ddewis'), a ddadansoddir yn ôl yr amser a dreulir yn aros am gynnig, nifer y cynigion a wneir, derbyniadau, gwrthodiadau, dewisiadau (am leoliad a math o lety) ac ansawdd;

ch. gwerthiannau; a

d. chwynion a'u canlyniadau.

3.63 Gall fod angen dadansoddiad mwy cymhleth i ddeall sut mae polisïau a gweithdrefnau sefydliad tai'n gweithredu'n ymarferol. Os yw'r sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, dylai sicrhau bod y gwahanol systemau monitro a ddefnyddir ganddynt yn cydweddu â'i gilydd.

3.64 Dylai sefydliadau tai ystyried gosod targedau, yn seiliedig ar unrhyw wahaniaethau hiliol sylweddol a ddatgelwyd drwy fonitro (gweler para. 4.9dd).

## Canlyniadau allweddol

3.65 Mae ymgeiswyr o bob grŵp hil yn cael cynnig gosodiadau yn gymesur â chynrychiolaeth pob grŵp ymysg yr holl ymgeiswyr, gan roi ystyriaeth i'w gwahanol ddewisiadau a'u hanghenion.

3.66 Mae'r sefydliad tai yn cyfathrebu'n effeithiol â phob grŵp. Mae gwybodaeth am wasanaethau tai ar gael, ar gais, yn yr ieithoedd a ddefnyddir yn nalgylch y sefydliad tai.

3.67 Mae gan y sefydliad tai gysylltiadau da gyda phobl leol o bob grŵp hil, ac mae'n defnyddio'r rhain i wella ei wasanaethau.

3.68 Gall y sefydliad tai ddangos bod ei systemau tai yn gweithio'n deg ac yn gyfartal ar gyfer pobl o bob grŵp hil.

3.69 Mae staff y sefydliad tai wedi eu hyfforddi mewn cydraddoldeb hiliol yn gyffredinol, yn ogystal ag yn y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, a chyfrifoldebau eraill o dan y DCH.

3.70 Mae systemau monitro'r sefydliad tai yn gweithio'n dda, gan ddarparu gwybodaeth ddibynadwy am anghenion tai lleol a sut y caiff y rhain eu bodloni.

3.71 Caiff pobl o bob grŵp hil eu trin yn deg, ac at safonau uchel, yn ystod pob un o gamau'r broses tai ac ail-gartrefu.

3.72 Mae teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn cael cynrychiolaeth gyfrannol ar restri tai, yn seiliedig ar gyfrifiad a data arall. Os nad ydynt, ac os oes gwahaniaethau sylweddol, gall y darparwr tai esbonio'r rhesymau am hyn.

3.73 Dengys adborth fod pobl yr un mor fodlon gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn, waeth pa grŵp hil bynnag y maent yn perthyn iddo.

## CH. BENTHYCA MORGEISI AC YSWIRIANT

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.74 Mae'n anghyfreithlon i sefydliadau ariannol neu asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan wahaniaethu neu aflonyddu yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol ar sail hil wrth ddarparu arian ar gyfer prynu eiddo, neu yn eu meini prawf benthyca; neu i yswirwyr wahaniaethu yn y modd maent yn darparu gwasanaethau yswiriant ym maes tai.

**Enghraifft 42**

Byddai banc oedd yn gwrthod benthyca arian i brynu tŷ i unigolion arbennig, oherwydd ei grŵp hil, yn gwahaniaethu'n uniongyrchol.

**Enghraifft 43**

Mae banc yn gwrthod benthyciadau neu yswiriant i drigolion mewn rhai ardaloedd postio, sydd â phoblogaethau mawr o leiafrifoedd ethnig. Oni bai bod y banc yn gallu rhoi rhesymau gwrthrychol am hyn, gallai fod yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol.

**Enghraifft 44**

Mae banc yn benthyca i ymgeiswyr sydd wedi byw yn y DU am isafswm cyfnod yn unig. Gall y rheol hon effeithio'n anghyfartal ar bobl o grwpiau hil sydd wedi mudo i'r DU yn ddiweddar. Oni bai bod y banc yn gallu cyfiawnhau ei bolisi gyda thystiolaeth wrthrychol am y risg y byddai'n ei hwynebu fel arall, gallai'r polisi fod yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol.

### Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.75 **Meini prawf benthyca ac yswiriant.** A gymerwyd camau i wneud yn siŵr nad yw'r meini prawf ar gyfer benthyciadau ac yswiriant yn gwahaniaethu ar sail hil?

3.76 **Hyfforddiant.** A yw staff (yn arbennig staff mewn sefydliadau cyhoeddus, gweler paragraff 2.48dd) wedi eu hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o dan y DCH?

3.77 **Hysbysebu a chyfathrebu.** A yw benthycwyr a chwmnïau yswiriant wedi sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael yn hwylus, ac ar gais, yn yr ieithoedd a ddefnyddir yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt? Mae hyn yn sicrhau nid yn unig nad yw pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu rhoi o dan anfantais, ond mae hefyd yn cynorthwyo i ddenu mwy o gwsmeriaid.

## Argymhellion o ran arfer da

3.78 Dylai cyrff proffesiynol neu achredu sy’n cyhoeddi codau ymarfer neu safonau ar gyfer benthycwyr ac yswirwyr ei gwneud yn glir na ddylai benthycwyr ac yswirwyr, na’u cynrychiolwyr, wahaniaethu'n anghyfreithlon yn y modd y darperir gwasanaethau, na pheri aflonyddu i neb, ar sail hil.

3.79 Dylai staff gael eu hyfforddi ynglŷn â’u cyfrifoldebau o dan y DCH, a beth a olyga hyn yn ymarferol. Dylid ymdrin ag unrhyw gwynion am wahaniaethu hiliol neu aflonyddu yn brydlon ac yn ddifrifol, a dylid monitro hyn yn ôl grŵp hil.

3.80 Dylai benthycwyr ac yswirwyr ystyried a yw’r meini prawf y maent yn eu defnyddio i gynnig benthyciadau ac yswiriant, hyd yn oed ar gyfer rhanberchenogaeth, yn gwahaniaethu’n anuniongyrchol ac nad ydynt yn rhoi grŵp (neu grwpiau) hil penodol o dan anfantais anghyfartal.

3.81 Argymhellir bod benthycwyr yn ystyried datblygu cynhyrchion prynu tai sy’n osgoi’r posibilrwydd o wahaniaethu’n anuniongyrchol yn erbyn aelodau o grwpiau hil sy’n debygol o fod yn gwrthwynebu trosglwyddiadau ariannol wedi’u seilio ar log ar sail crefydd neu wrthwynebiadau moesol eraill.

3.82 Nid oes rhaid i fenthycwyr ac yswirwyr sefydlu systemau monitro ethnig, ond dylent ystyried cynnal arolwg rheolaidd o’u holl gwsmeriaid, fel eu bod yn effro i unrhyw bryderon. Byddai’r ymatebion hyn hefyd yn taflu goleuni ar dueddiadau, patrymau a bylchau yn eu gwasanaethau.

3.83 Argymhellir bod benthycwyr ac yswirwyr yn gwneud yn siŵr bod eu deunydd cyhoeddusrwydd ar gael yn hwylus i gwsmeriaid, a chwsmeriaid posibl, o bob grŵp hil.

## Canlyniadau allweddol

3.84 Nid yw’r benthyciwr na’r yswiriwr yn defnyddio unrhyw feini prawf nac arferion a allai roi pobl o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig o dan anfantais anghyfartal.

3.85 Mae'r benthyciwr neu'r yswiriwr wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau ysgrifenedig a chanllawiau i staff (o bosibl yn adlewyrchu'r canllawiau mewn cod diwydiant) ynghylch y ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y DCH. Mae'r canllawiau yn pwysleisio na ddylai staff wahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil yn erbyn unrhyw un, nac aflonyddu arnynt, na gweithredu ar gyfarwyddiadau sy'n gwahaniaethu'n hiliol.

3.86 Mae gan y benthyciwr neu'r yswiriwr nifer cynyddol o gwsmeriaid o unrhyw grŵp hil sydd wedi'i dangynrychioli.

## D. CYNGOR AR DDIGARTREFEDD A THAI

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.87 Mae'n anghyfreithlon i awdurdod lleol a, lle bo hynny'n berthnasol, sefydliadau tai eraill i wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn person ar sail hil, neu aflonyddu arnynt wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor am dai; asesu a yw rhywun yn statudol ddigartref; neu sicrhau llety neu ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer pobl y derbyniwyd eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (oni bai bod y weithred o wahaniaethu'n cael ei gwneud o dan yr eithriad awdurdod statudol yn y DCH – gweler eithriadau dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn Atodiad 1). Rhaid i sefydliadau tai sy'n awdurdodau cyhoeddus hefyd hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, gan gynnwys cysylltiadau hiliol da, yn egnïol, wrth gyflawni eu swyddogaethau cyngor ar dai a digartrefedd.

3.88 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wrth gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Tai 1966 ar gyfer ymgeiswyr y mae ganddynt le i gredu sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd hefyd dan Adran 1 o Ddeddf Digartref 2002 i gyhoeddi strategaeth digartrefedd.

3.89 Wrth i'r cod hwn gael ei gyhoeddi, mae pobl o leiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli'n gyson fel cleientiaid mewn gwasanaethau digartrefedd. Dengys ymchwil mai profiad gwael o'r gwasanaethau hyn a adroddir ganddynt, gan gynnwys ansensitifrwydd i anghenion arbennig ac anawsterau cyfathrebu, ac ofn cael cam.[32]

32. Gweler *Causes of Homelessness in Ethnic Minority Communities*, ODPM, 2005.

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.90 **Asesu**. A ddefnyddir meini prawf anwahaniaethol i asesu a yw ymgeiswyr yn wirioneddol ddigartref, mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n statudol ddigartref (gweler 'digartref' yn yr eirfa yn Atodiad 3)? A yw staff wedi'u hyfforddi i weithio gyda phobl o bob cefndir ac i adnabod ac ystyried unrhyw anghenion arbennig sydd ganddynt a fyddai'n berthnasol i'r asesiad o'u hachos?

3.91 **Gwasanaethau cynghori**. A yw'r cyngor a roddir i ymgeiswyr, tenantiaid a thrigolion o leiafrifoedd ethnig yn gyson o ran ansawdd a sylwedd gyda'r cyngor a roddir i ymgeiswyr o grwpiau hil eraill?

3.92 **Cyfathrebu**. A yw gwybodaeth am wasanaethau digartrefedd y sefydliad yn hygyrch i ymgeiswyr lleiafrifoedd ethnig, gyda chyfieithiadau ar gael ar gais mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg? A yw dulliau cyfathrebu'r sefydliad yn effeithiol er mwyn cyrraedd pobl o bob grŵp hil?

3.93 **Atal**. A oes gan y sefydliad tai wybodaeth ddibynadwy a chyfredol ynglŷn â'r nifer tebygol o bobl o wahanol grwpiau hil a allai fod mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, newydd-ddyfodiaid i'r ardal, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid? A yw strategaethau a pholisïau'r sefydliad ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol yn ddigon cadarn i amddiffyn tenantiaid a phreswylwyr rhag digartrefedd y gellid ei osgoi?

3.94 **Sicrhau llety**. A ddefnyddir meini prawf a gweithdrefnau anwahaniaethol i benderfynu pa fathau o lety dros dro fyddai'n addas ar gyfer pobl y derbyniwyd eu bod yn ddigartref? A yw'r meini prawf a'r gweithdrefnau yn ystyried anghenion ymgeiswyr o bob grŵp hil? A yw'r staff wedi'u hyfforddi i ddeall ac i ddelio â gwahaniaethau o ran iaith a diwylliant ymhlith ymgeiswyr? A yw'r sefydliad tai yn sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau a ddilynir gan deuluoedd digartref i ymgeisio am lety sefydlog yn anwahaniaethol?

## Argymhellion o ran arfer da

3.95 Dylai sefydliadau tai sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, bod eu strategaethau cydraddoldeb hiliol yn cwmpasu materion digartrefedd, a bod anghenion pobl o bob grŵp hil, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ac ymfudwyr newydd, sy'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn cael eu hystyried. Dylai awdurdodau lleol, hefyd, sicrhau bod eu strategaethau digartrefedd yn cwmpasu materion cydraddoldeb hiliol, ac efallai y byddant yn dymuno ystyried datblygu strategaeth ar wahân i gwmpasu ethnigrwydd a digartrefedd fel ei gilydd.

3.96 Dylai sefydliadau tai adolygu anghenion cyfathrebu pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, asesu a yw eu trefniadau

presennol yn effeithiol, ac ystyried sut i lenwi unrhyw fylchau. Dylent sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gwmpasu gan yr adolygiad.

3.97 Dylai sefydliadau tai adolygu eu trefniadau asesu cymhwysedd ar gyfer cymorth digartrefedd, ac ar gyfer penderfynu a yw llety dros dro yn addas ar gyfer ymgeiswyr arbennig, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfreithlon ac yn anwahaniaethol.

3.98 Dylai sefydliadau tai sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor neu gymorth i bobl y derbyniwyd eu bod yn ddigartref wneud trefniadau i fonitro, yn ôl grŵp hil, y modd y mae eu polisïau'n gweithio. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud y trefniadau hyn (gweler para 2.48c) a dylai awdurdodau lleol yn arbennig sicrhau bod eu trefniadau'n cwmpasu:

a. penderfyniadau ynglŷn â chymhwysedd, blaenoriaeth i anghenion, bwriadoldeb, cysylltiad lleol, ac adolygu'r penderfyniadau hyn;

b. addasrwydd unrhyw lety dros dro a gafwyd a hyd yr arhosiad tra'n disgwyl i lety sefydlog addas fod ar gael;

c. cyngor a gwybodaeth; a

ch. boddhad gyda gwasanaeth digartrefedd, trefn gwyno a chanlyniadau'r awdurdod lleol.

3.99 Dylai sefydliadau tai gymryd camau i ddelio ag unrhyw wahaniaethau hiliol sylweddol a ddatgelir trwy fonitro; er enghraifft, trwy gefnogi mesurau i gynyddu'r cyflenwad o dai addas a lleihau gorboblogi.

## Canlyniadau allweddol

3.100 Mae gan y sefydliad tai strategaeth ddigartrefedd gadarn, sy'n ystyried materion cydraddoldeb hiliol ac sydd wedi'i pharatoi mewn ymgynghoriad â phob rhan o'r gymuned, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cydgysylltu'n dda â chynlluniau a strategaethau eraill, ac yn cynnwys targedau a threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu.

3.101 Mae pobl o bob grŵp hil yn wybodus ynglŷn â'r gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael yn lleol. Mae ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy hyderus y bydd darparwyr gwasanaeth yn gweithio'n gadarnhaol i gwrdd â'u hanghenion, ac mae defnyddwyr y gwasanaethau'n fwy bodlon â'r modd y darperir y rhain.

3.102 Mae unrhyw or-gynrychiolaeth sylweddol o grwpiau hil arbennig ymysg y rhai sydd wedi'u derbyn yn ddigartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn.

## DD. ADFYWIO AC INTEGREIDDIO CYMDOGAETHAU

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.103 Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail hil yn y modd y gwneir penderfyniadau ynghylch mentrau datblygu sy'n ymwneud ag adnewyddu cymdogaeth a chynaliadwyedd. Mae'r DCH yn rhoi dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol (gweler paragraffau 2.43 - 2.51). Mae trydedd ran y ddyletswydd, sy'n ymwneud â hyrwyddo cysylltiadau hiliol da, yn arbennig o berthnasol i ddatblygu ac integreiddio cymdogaethau.

3.104 Sicrheir integreiddiad pan fo'r gofynion hanfodol canlynol ar gyfer cymdeithas integredig wedi'u bodloni:

a. cydraddoldeb - lle bo gan bob aelod o gymdeithas gyfle cyfartal i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau heb ofni gwahaniaethu;

b. cyfranogi – lle bo pob unigolyn yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, ac mewn llunio polisïau a gwasanaethau; a

c. rhyngweithio – lle mae grwpiau hil gwahanol yn cysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd, gan adeiladu pontydd ar draws cymunedau er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth.

3.105 Mae integreiddio yn rhan o broses sy'n arwain at well cydlyniad cymdeithasol (gweler yr eirfa yn Atodiad 3). Mae sefydliadau tai sy'n ystyried cwestiynau o integreiddio fel rhan o unrhyw weithredu a wnânt i ddatblygu cymdogaethau a chymunedau sy'n fwy tebygol o allu osgoi gwahanu; cefnogi Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr newydd o Loegr a mannau eraill; annog trigolion i gymryd rhan; ac ymdrin â thensiynau rhwng rhannau o'r gymuned neu'r gymdogaeth, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Enghraifft 45**

Ariannwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i greu pecynnau croeso ar gyfer pobl sy'n mudo i ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Ngwynedd a Dinbych a Chonwy. Roedd y pecynnau'n fodd o gyflwyno'r etifeddiaeth leol a'r iaith Gymraeg. (Gweler http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy)

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.106 **Ymgynghori**. A ymgynghorir â phobl o bob grŵp, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, ynglŷn â mentrau cymdogaeth neu adnewyddu, ac yn cael eu gwahodd i gymryd rhan? Er enghraifft, yn ogystal â thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal (yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) a yw'r sefydliad yn gwneud trefniadau ar gyfer y rhai sy'n siarad ieithoedd eraill?

3.107 **Dadansoddiad o anghenion**. A yw'r holl anghenion, gan gynnwys anghenion ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu a chynllunio? A asesir a chynllunio ar gyfer anghenion ymfudwyr newydd (er enghraifft, o ganol a dwyrain Ewrop)?

3.108 **Integreiddio**. A yw materion integreiddio a chydlyniad cymunedol, a'r canllawiau sydd ar gael yn y maes hwn[33], wedi eu cymryd i ystyriaeth; er enghraifft, wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol, neu ddatblygu ac adolygu strategaethau neu bolisïau?

3.109 **Tensiynau cymunedol neu densiynau o fewn cymdogaeth**. A sefydlwyd fforymau i drafod pryderon lleol, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i ymdrin ag anghydfod posibl rhwng cymunedau?

3.110 **Monitro a gwerthuso**. A wnaed trefniadau i fonitro, yn ôl grŵp hil, y gwahanol gamau o'r broses tai ac ail-gartrefu, ac effeithiau prosiectau a chynlluniau tai newydd ar wahanol grwpiau hil?

## Argymhellion o ran arfer da

3.111 Dylai'r ddisgyblaeth o gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol fod yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau a rhaglenni newydd ynghylch tai i'r cyhoedd, gan gynnwys camau unigol rhaglenni datblygiadau tai mwy o faint. Sicrhau bod rhaglenni adfywio, er enghraifft, yn cael eu seilio ar ddadansoddiad ac archwiliad trwyadl o anghenion tai ddylai'r nod fod.

3.112 Dylai asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol ar argymhellion ar gyfer rhaglenni adnewyddu cymdogaeth ystyried y canlynol:

a. gwahanu ac integreiddio;

b. ceiswyr lloches a ffoaduriaid;

---

33. Gweler *Community Cohesion: An action guide: Guidance for local authorities*, Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2004, *Community Cohesion: Advice for those designing and developing Area Based Initiatives* (ABIs) ODPM, 2003 a throednodyn 31, tud 56.

c. grwpiau ffydd;

ch. pobl o leiafrifoedd ethnig sy’n agored i niwed, megis pobl hŷn a phobl gydag anabledd;

d. Sipsiwn a Theithwyr;

dd. rôl trigolion lleol; a

e. sut i ymdrin â thensiynau posibl rhwng cymunedau neu gymdogaethau, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.113 Dylai sefydliadau tai wneud trefniadau ar gyfer ymgynghori â phobl o bob grŵp hil yn yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. Dylent hefyd sicrhau bod cynrychiolwyr o’r grwpiau hyn yn cael eu cynnwys mewn grwpiau llywio neu bartneriaethau.

3.114 Dylai sefydliadau tai gymryd camau i sicrhau cyfranogiad gan bobl o bob grŵp hil; er enghraifft, wrth ddarparu gwasanaethau cyfieithu; mewn gwaith allgymorth gyda chyrff ac asiantaethau lleol eraill; neu wrth ddosbarthu gwybodaeth am swyddi gwag i staff arbenigol. Dylent geisio cynyddu’r rhyngweithio rhwng y gwahanol grwpiau a chydweithio ar y ffordd o sicrhau mwy o integreiddio.

3.115 Dylai asesu anghenion tai ym mhob rhan o’r gymuned y mae’r sefydliad yn ei gwasanaethu, gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig, fod yn rhan hanfodol o gamau monitro a chynllunio unrhyw fentrau a ddatblygir ac a ariannir yn y maes hwn.

3.116 Dylai pob sefydliad tai gael strategaeth gyfathrebu, yn arbennig ar gyfer datblygiadau mawr. Dylai’r strategaeth gynnwys gwybodaeth gywir, hygyrch a chynhwysfawr ynglŷn â sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar gymunedau lleol, gan gynnwys y cyfleoedd y bydd yn ei gynnig iddynt.

3.117 Dylai hyfforddiant ar gydraddoldeb hiliol, yn arbennig ar gyfer staff sy’n ymwneud â gwaith datblygu ac adnewyddu cymdogaeth, gynnwys materion sy’n ymwneud ag integreiddio (gweler paragraffau 3.103 – 3.105).

3.118 Dylai sefydliadau tai fonitro penderfyniadau ym mhob cam o’r broses tai, yn ôl grŵp hil, ac yn ôl anghenion a dewisiadau’r ymgeiswyr, fel y'u mynegwyd yn eu ffurflenni cais, a thrwy unrhyw ymarferion ymgynghori.

## Canlyniadau allweddol

3.119 Cafodd anghenion pobl o bob grŵp hil yn yr ardaloedd a wasanaethir gan y sefydliad tai eu hystyried yn ystod camau cynharaf y gwaith o ddatblygu rhaglenni tai newydd neu adnewyddu tai.

3.120 Ymgynghorwyd â phobl o bob grŵp hil a chawsant eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau adnewyddu ac adfywio.

3.121 Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb hiliol, ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o dan y DCH.

3.122 Ystyrir bod integreiddio a chydlyniad cymunedol yn agweddau hanfodol o fentrau adnewyddu ac adfywio, ac mae prosiectau yn cael eu monitro, yn ôl grŵp hil, a'u gwerthuso.

3.123 Dengys arolygon bodlonrwydd ac adborth oddi wrth y rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliad lefelau tebyg o fodlonrwydd ymysg trigolion o bob grŵp hil.

3.124 Mae gan y sefydliad tai systemau monitro a gwerthuso effeithiol.

## E. TENANTIAETH A RHEOLAETH TAI

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.125 Mae'n anghyfreithlon i sefydliad tai wahaniaethu'n anghyfreithlon, neu aflonyddu ar berson, ar sail hil, yn y modd y mae'n darparu mynediad at dai; wrth osod; yn safon y llety mae'n ei gynnig; ac yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu, megis gwasanaethau gofal a thai â chymorth.

3.126 Mae'r DCH hefyd yn rhoi dyletswyddau penodol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol (gweler paragraffau 2.43 – 2.51).

### Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.127 **Gwasanaethau cynnal ac atgyweirio**. A yw'r gwasanaethau hyn ar gael mewn dull nad yw'n gwahaniaethu'n anghyfreithlon, neu'n aflonyddu ar sail hil, boed hwy'n cael eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gontractwr?

**Enghraifft 46**

Mae landlord yn gwahaniaethu'n uniongyrchol drwy ymateb yn fwy cyflym i geisiadau am waith cynnal neu waith atgyweirio gan un grŵp hil nag un arall, waeth beth yw'r brys cymharol am y cais.

### Enghraifft 47

Mae contractwr preifat, sy'n fwriadol yn gwneud darn o waith salach i denantiaid Affricanaidd na thenantiaid o unrhyw grŵp arall, oherwydd nad yw'n hoffi Affricaniaid, yn gwahaniaethu'n uniongyrchol am resymau hiliol.

### Enghraifft 48

Mae sefydliad tai yn gwahaniaethu'n uniongyrchol pan gymer gamau cadarnach ynglŷn ag ôl-ddyledion rhent gyda thenantiaid o leiafrifoedd ethnig na gyda thenantiaid eraill.

### Enghraifft 49

Gall sefydliad fod yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon os rhoddir cyngor gwael i'w denantiaid o leiafrifoedd ethnig, oherwydd rhagfarnau aelod staff.

### Enghraifft 50

Gall sefydliad fod yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon os yw pobl o leiafrifoedd ethnig, oherwydd ei bolisïau a'i arferion, yn llai ymwybodol o'u hawliau i fudd-daliadau nag eraill, ac felly yn methu â hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt.

3.128 **Gofalwyr**. A yw gofalwyr wedi'u hyfforddi i ddelio â digwyddiadau hiliol? A wneir cofnod o ddigwyddiadau hiliol ac a yw gwybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau hyn, ac unrhyw gamau a gymerwyd, yn cael ei chadw'n ganolog?

3.129 **Graffiti**. Pa gamau mae'r sefydliad yn eu cymryd i ddileu graffiti hiliol neu atgas, a pha mor gyflym y gwneir hynny?

3.130 **Gwasanaethau cynllunio**. A yw cymunedau o leiafrifoedd ethnig yn cael yr un cyfleoedd ag eraill i fod yn rhan o gynllunio gwasanaethau?

3.131 **Ôl-ddyledion rhent**. A yw ôl-ddyledion rhent a chasglu rhent yn cael eu trin ar sail anghenion yr unigolyn, beth bynnag fo'i grŵp hil?

3.132 **Budd-daliadau**. A yw pobl o bob grŵp hil yr un mor ymwybodol â'i gilydd o'u hawliau i fudd-daliadau? Er enghraifft, a oes gwybodaeth berthnasol ar gael, mewn ffyrdd lle gall y rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg yn dda wybod a deall eu hawliau?

3.133 **Ymgynghori a chyfranogiad**. A yw'r holl drigolion a thenantiaid, gan gynnwys y rhai hynny o grwpiau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu, megis Sipsiwn a Theithwyr, yn rhai y gofynnir eu barn am argymhellion y sefydliad tai? A ydynt yn cael eu cynrychioli mewn fforymau neu drefniadau ar gyfer cyfranogiad?

3.134 **Gwasanaethau cynghori.** A yw'r cyngor a roddir i'r holl denantiaid a thrigolion yn gyson, beth bynnag fo'u grŵp hil? A yw'r cyngor hwn ar gael mewn unrhyw iaith berthnasol? A yw'r staff wedi cael eu hyfforddi i weithio gyda phobl o bob cefndir, ac i roi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol a allai fod ganddynt?

3.135 **Tai â chymorth a gwasanaethau gofal**. A yw mentrau a rhaglenni tai wedi rhoi ystyriaeth lawn i anghenion a dewisiadau pobl o bob grŵp hil? A yw'r rhaglenni yn cael eu datblygu yn deg ac yn gyfartal?

## Argymhellion o ran arfer da

3.136 Dylai sefydliadau tai sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda'u tenantiaid a'u trigolion, a dylent wneud trefniadau i gyfieithu deunydd, os oes angen.

### Enghraifft 51

Gall cymdeithas tai ddarparu gwybodaeth i drigolion mewn ieithoedd eraill ar wahân i Gymraeg a Saesneg, ac ar fformat print amrywiol, yn ôl y dewisiadau a fynegwyd ganddynt, sydd wedi'u teipio i mewn i gronfa ddata'r gymdeithas. Mae'r system TG yn tynnu sylw at y dewis hwn pryd bynnag bydd swyddog yn mynd i mewn i ffeil preswylydd unigol. Mae'r gymdeithas yn gallu cynhyrchu adroddiad o'r holl drigolion sydd wedi gwneud cais am ohebiaeth mewn fformat ansafonol.

3.137 Dylai'r holl staff tai gael hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb hiliol, fel y gallant ddeall eu cyfrifoldebau o dan y DCH, a sut y gall rhagfarn a stereoteipio arwain at wahaniaethau neu aflonyddu anghyfreithlon.

3.138 Dylai sefydliadau tai sicrhau bod gan y contractwyr y maent yn eu defnyddio ar gyfer gwaith atgyweirio neu waith cynnal, bolisïau cydraddoldeb hiliol sy'n cyd-fynd â rhai'r sefydliad (gweler paragraffau 3.160 - 3.177) a deall bod ymddygiad gwahaniaethol neu aflonyddu tenantiaid yn anghyfreithlon ac yn annerbyniol.

3.139 Dylai gwaith atgyweirio sydd ei angen o ganlyniad i aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gael blaenoriaeth sy'n gymesur â'u difrifoldeb.

3.140 Dylid cynghori tenantiaid ynglŷn â sut i wneud cwyn os credant fod gwaith atgyweirio wedi ei wneud gyda llai o ofal oherwydd eu grŵp hil, a dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r camau a gymerir i unioni pethau.

3.141 Dylai sefydliadau tai ystyried defnyddio ymgyrchoedd, wedi eu hanelu o bosibl at grwpiau unigol, i sicrhau bod tenantiaid a thrigolion yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys hawliau i fudd-daliadau.

3.142 Dylai sefydliadau tai fonitro eu prif wasanaethau tai, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent, troi pobl allan o'u tai, gwaith atgyweirio, cyngor a budd-daliadau, a chwynion am eu gwasanaethau. Dylai'r wybodaeth gael ei dadansoddi a dylai camau gael eu cymryd i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau hil.

3.143 Dylai sefydliadau tai llai, nad yw'n ymarferol iddynt fonitro yn ddwys nac yn fanwl, ystyried cynnal arolygon cwsmeriaid (a chwsmeriaid posibl), i weld a ydynt yn bodloni'r holl anghenion o ran tai yn yr ardal y maent yn ei gwasanaethu, a dylent gymryd camau i ymdrin ag unrhyw anghyfartaleddau sylweddol rhwng grwpiau hil. Dylai'r arolygon hefyd fesur bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

## Canlyniadau Allweddol

3.144 Mae tenantiaid a thrigolion yn derbyn yr un lefelau o wasanaeth.

3.145 Mae bodlonrwydd gyda gwasanaethau yn debyg ar draws yr holl grwpiau hil.

3.146 Mae agweddau contractwyr at gydraddoldeb hiliol yn gyson â'r rhai a gymerir gan y sefydliad tai.

## Enghraifft 52

Mae ‘Cefnogi Pobl’ yn rhaglen o grantiau sydd wedi’i rhannu’n ddwy ffrwd yng Nghymru: Grant Cefnogi Pobl (SPG), a delir fel grant penodol i awdurdodau lleol i ariannu cefnogaeth mewn prosiectau gwarchodol ar gyfer pobl hŷn a chefnogi deiliadaeth mewn prosiectau gofal cymunedol; a Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG), a weinyddir gan Gynulliad Cymru ac sy’n ariannu pob math arall o brosiectau cefnogi sy’n gysylltiedig â deiliadaeth. Mae ystod o gyrff statudol, rhai gwirfoddol, rhai yn y sector preifat a chyrff eraill yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau.

Mae'r rhaglen wedi ei seilio ar ymagwedd polisi unedig tuag at sicrhau cydraddoldeb, ac y mae’n defnyddio adolygu ac asesu, comisiynu a phrynu i fynd ar drywydd yr amcanion canlynol: a) asesu’r anghenion a’r rhwystrau a brofir gan bobl hŷn o leiafrifoedd ethnig, pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a grwpiau sy'n draddodiadol wedi eu hallgau; a b) gweithio gyda phartneriaid i fodloni anghenion grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

**Egwyddorion gweithredu**

- Dylai darparwyr gwasanaeth fod wedi ymrwymo yn benodol ac yn weithredol i gynnig mynediad cyfartal at eu holl wasanaethau.
- Dylai gwasanaethau fodloni anghenion crefyddol, ieithyddol, dietegol a diwylliannol y rhai hynny sy’n eu defnyddio, neu a allai eu defnyddio.
- Dylai’r holl staff gael eu hyfforddi, a dylai’r holl asiantaethau sy’n gysylltiedig â menter ‘Cefnogi Pobl’ fod â pholisïau a gweithdrefnau cadarn ynglŷn â chydraddoldeb hiliol ac ynglŷn ag ymdrin ag aflonyddu hiliol.
- Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth fod â threfniadau ar gyfer casglu a dadansoddi data am grwpiau hil, a defnyddio’r wybodaeth i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn gwasanaethau.
- Dylai darparwyr gwasanaeth ystyried sut y gallant ddefnyddio Adran 35 o’r DCH (gweler paragraffau 2.40 - 2.42 ac Atodiad 1) i ddarparu tai â chymorth i bobl o leiafrifoedd ethnig.

3.147 Mae tenantiaid a thrigolion o bob grŵp hil yn ymwybodol o, ac yn manteisio ar, hawliau i fudd-daliadau. Nid yw cwynion yn datgelu unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau hil.

3.148 Caiff anghenion pobl o wahanol grwpiau hil am dai â chymorth a'r gwasanaethau gofal cysylltiedig eu hystyried yn systematig, a datblygir prosiectau yn benodol i fodloni'r anghenion hynny.

3.149 Mae'r sefydliad tai yn monitro ei wasanaethau, yn ôl grŵp hil, ac yn ymdrin ag unrhyw ddiffygion neu fylchau a ddatgelir gan y data.

3.150 Mae tenantiaid a thrigolion o bob grŵp hil yn gallu cael mynediad at wasanaethau tai â chymorth a gwasanaethau atgyweirio.

## F. AFLONYDDU HILIOL AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.151 Mae aflonyddu am resymau yn ymwneud â hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol yn anghyfreithlon yn y maes tai a gwasanaethau cysylltiedig. Byddai aflonyddu ar sail lliw neu genedligrwydd (gweler paragraffau 2.28 - 2.32) yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Mae'r DCH yn diffinio aflonyddu fel ymddygiad diangen, sydd â'r pwrpas neu'n cael yr effaith ganlynol:

a. amharu ar urddas rhywun; neu

b. greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i'r person hwnnw (gweler para. 2.30)

3.152 Mae deddfwriaeth yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (yn arbennig Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2006 a Rhan 6 Deddf Tai 2004) yn berthnasol hefyd wrth ymdrin ag aflonyddu hiliol[34]. Lluniwyd canllawiau statudol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru[35] ac mae'n cynnwys canllawiau ar y math o ymddygiad a fyddai'n dod o fewn y diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd roi sylw i unrhyw oblygiadau cydraddoldeb hiliol yn y mater hwn wrth gyflawni gofynion Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, yn arbennig wrth weithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu a gweithredu strategaeth lleihau troseddau ar gyfer eu hardal[36].

---

34. Am ragor o wybodaeth am aflonyddu hiliol a'r gyfraith, gweler www.together.gov.uk neu ffoniwch y llinell weithredu ar 0870 2202000. I gael gwybodaeth am arfer da mewn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweler *Special Report: Neighbour nuisance and anti-social behavoiur*, Ombwdsmon Llywodraeth Leol, 2005.

35. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Polisïau a Gweithdrefnau - Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2005.

36. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi sefydlu partneriaeth diogelwch cymunedol statudol lleol. Gellir cael manylion rhain gan awdurdodau lleol perthnasol.

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.153 **Aflonyddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.** A oes gan y sefydliad tai, beth bynnag yw ei faint, bolisi ar gyfer ymdrin ag aflonyddu, fel sy'n ofynnol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol? A yw'n rhoi digon o sylw i gydraddoldeb hiliol? A yw tenantiaid a thrigolion yn ymwybodol o'r polisi ac a ydynt yn gwybod y gallai aflonyddu fod yn rheswm dros gamau gorfodi, gan gynnwys y posibilrwydd o droi pobl allan o'u cartrefi? Mae cwestiynau eraill sy'n berthnasol i bolisi ar gyfer ymdrin ag aflonyddu yn cynnwys y canlynol:

a. Pa gyhoeddusrwydd a roddwyd i'r polisi?

b. A oes asiantaethau eraill, megis yr heddlu wedi bod yn gysylltiedig â llunio'r polisi a helpu i'w roi ar waith?

c. Sut mae'r sefydliad yn ymdrin â chwynion?

ch. A yw staff wedi cael eu hyfforddi i weithio yn y maes hwn?

d. Sut y caiff dioddefwyr a thystion eu cefnogi?

dd. Pa gamau mae'r sefydliad yn eu cymryd yn erbyn tramgwyddwyr?

e. Sut y caiff y polisi ei fonitro a'i werthuso?

f. A yw'r sefydliad wedi datblygu safonau ar gyfer ymdrin ag aflonyddu, yn seiliedig ar fentrau llwyddiannus?

## Argymhellion o ran arfer da

3.154 Datblygwyd canllawiau sylweddol ar sut i ymdrin ag aflonyddu, gyda llawer ohono yn seiliedig ar brofiad a deddf achos, gan gynnwys defnyddio deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai strategaeth effeithiol yn erbyn aflonyddu gynnwys y canlynol:

a. Diffiniad clir o aflonyddu gan gynnwys enghreifftiau; gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag ef; a chanllawiau ysgrifenedig a hyfforddiant i staff.

b. Darpariaeth benodol yn erbyn aflonyddu mewn cytundebau tenantiaeth, y byddai eu torri yn rheswm dros gamau gorfodi, gan gynnwys y posibilrwydd o droi pobl allan o'u cartrefi - ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ymysg tenantiaid a thrigolion bod y sefydliad tai yn ystyried digwyddiadau o aflonyddu yn hynod ddifrifol; a, chyn belled ag sy'n bosibl, dylai cymdeithasau tenantiaid a thrigolion chwarae rhan mewn cyfleu'r neges hon.

c. Landlordiaid yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau addysg lleol ac asiantaethau perthnasol eraill, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig lleol ac asiantaethau cefnogi dioddefwyr.

ch. Trefniadau i gefnogi dioddefwyr – mae hyn cyn bwysiced mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig yn fach â'r rhai hynny lle mae'n sylweddol.

d. Gweithredu pendant yn erbyn tramgwyddwyr, gan gynnwys defnyddio deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol, os bydd angen.

dd. Monitro'r strategaeth yn ystod pob un o'r camau, gan gynnwys y defnydd o bwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol, trafod canfyddiadau gydag asiantaethau eraill ac adrodd yn ôl i'r gymuned ehangach (gweler c. uchod).

e. Adborth gan bawb sy'n gysylltiedig ynglŷn â'r modd y cafodd achos arbennig ei drin ac ynglŷn â sut y mae'r broblem o aflonyddu yn cael ei thrin yn fwy cyffredinol.

f. Camau cadarnhaol i gefnogi grwpiau a allai fod yn arbennig o agored i aflonyddu, gan gynnwys teuluoedd ynysig o leiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd gwledig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a newydd ddyfodiaid eraill.

## Canlyniadau allweddol

3.155 Mae gan y sefydliad tai bolisi gwrth-aflonyddu cynhwysfawr, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â hyn sy'n addas ar gyfer ei faint ac amgylchiadau eraill. Mae'r polisi hefyd yn ymdrin â chefnogaeth i ddioddefwyr, gweithredu yn erbyn tramgwyddwyr ac ymrwymiad i weithio gydag asiantaethau eraill, megis yr heddlu.

3.156 Mae staff wedi eu hyfforddi ac yn glir ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt wrth ymdrin â chwyn o aflonyddu.

3.157 Mae adroddiadau monitro yn dangos fod ymateb wedi'i roi i gwynion o aflonyddu hiliol yn gyflym ac yn effeithiol, yn ystod pob cam o'r gwaith.

3.158 Mae adborth oddi wrth bawb dan sylw yn dangos bodlonrwydd cyffredinol gyda'r modd y cafodd achosion eu trin gan y sefydliad tai.

3.159 Mewn ardaloedd lle bo aflonyddu yn broblem arbennig, mae tystiolaeth fod y sefydliad wedi cymryd camau ymarferol i ymdrin ag ef.

# FF. CONTRACTWYR A CHAFFAELIAD

## Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.160 Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn berthnasol i gaffaeliad gan awdurdodau cyhoeddus rhestredig (gweler paragraffau 2.53 –2.56). Os yw awdurdod wedi dynodi swyddogaeth fel un sy'n berthnasol i'r ddyletswydd, ac

wedi contractio'r swyddogaeth honno i gyflenwr allanol, yr awdurdod sy'n parhau'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd. Dylai ymarferion caffaeliad mawr sy'n berthnasol i gydraddoldeb hiliol fod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb hiliol.

3.161 Rhaid i gontractwyr beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil, ond nid oes ganddynt yr un rhwymedigaeth gyfreithiol ag awdurdod cyhoeddus rhestredig i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da. Mae hyn yn golygu bod angen i awdurdodau cyhoeddus ofalu yr ystyrir cwestiynau yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol yn ystod y broses caffael, fel bod yr holl swyddogaethau sy'n berthnasol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn bodloni gofynion y DCH, waeth pwy sy'n eu cyflawni.

3.162 Mae cymdeithasau tai yn 'gyrff sy'n dod dan gyfraith gyhoeddus' i bwrpas rheolau caffael y GE. Dylent felly gydymffurfio â gofynion cyfarwyddebau caffael y GE a bydd egwyddorion wedi'u seilio ar gytuniadau'r GE o beidio â gwahaniaethu a chyfle cyfartal yn gymwys.

3.163 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cyhoeddus rhestredig, ac yn rhinwedd hynny mae'n rhoi dyletswyddau penodol ar gymdeithasau tai ynglŷn â chydraddoldeb hiliol. Mae ei ganllawiau'n awgrymu y dylai cymdeithasau basio gofynion cydraddoldeb hiliol o ran staffio, bodlonrwydd cwsmeriaid ac ymdrin ag aflonyddu hiliol, ymlaen i'w ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr.

## Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.164 **Tendro**. A yw ystyriaethau cydraddoldeb hiliol yn cael eu cynnwys ym mhrosesau tendro'r sefydliad tai?

3.165 **Monitro a rheoli contractau**. Sut y mae polisïau a strategaethau cydraddoldeb hiliol yn cael eu hasesu, o fewn y gwaith cyffredinol o arolygu ac asesu pob contract? Os yw problemau o wahaniaethu ac aflonyddu yn codi gydag isgontractwyr, sut mae'r sefydliad tai yn sicrhau eu perfformiad?

3.166 **Monitro a gwerthuso**. Beth mae'r contractwr wedi ei gyflawni o ran cydraddoldeb hiliol, yn ôl gofynion y contract? Sut mae hyn yn cymharu â chyflawniadau'r sefydliad tai?

3.167 **Busnesau lleiafrifoedd ethnig**. Pa gamau mae'r sefydliad tai yn eu cymryd i newid arferion sy'n llesteirio neu'n rhwystro busnesau sy'n cael eu rhedeg gan bobl o leiafrifoedd ethnig rhag ennill contractau, ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd, yn uniongyrchol, fel contractwyr, ac yn anuniongyrchol, fel isgontractwyr?

## Argymhellion o ran arfer da

3.168 Fel rhan o’r broses tendro, dylai sefydliadau tai roi rhybudd y disgwylir i gontractwyr ddangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol, mewn egwyddor ac arfer, pan fo hyn yn berthnasol i destun y contract. Dylai sefydliadau tai ofalu bod ganddynt systemau effeithiol ar gyfer gwerthuso gofynion o ran cydraddoldeb hiliol, a bod eu prosesau tendro eu hunain yn deg ac yn dryloyw; er enghraifft, a yw busnesau lleiafrifoedd ethnig wedi cael cyfle i ymgeisio am gael eu rhoi ar unrhyw restrau tendro?

3.169 Dylai sefydliadau tai allu cynghori contractwyr ynghylch beth a ddisgwylir ganddynt ym maes cydraddoldeb hiliol, a dylent wneud hyn yn glir yn y contract. Dylai cydraddoldeb hiliol fod yn hanfodol i amcanion corfforaethol, cynllunio a darpariaeth gwasanaethau.

3.170 Dylai sefydliadau tai geisio dod i gytundeb gyda’u contractwyr ynghylch sut y bydd unrhyw ofynion o ran cydraddoldeb hiliol yn cael eu bodloni gan eu hisgontractwyr.

3.171 Dylai sefydliadau tai fonitro’r modd y mae eu contractwyr yn bodloni unrhyw ofynion cydraddoldeb hiliol, o ran darparu gwasanaethau a chyflogaeth,[37] a chymryd camau i annog gwelliant, neu i orfodi cydymffurfiad os nad yw eu perfformiad yn cyrraedd y nod.

3.172 Dylai sefydliadau tai ystyried sut y gallent annog contractwyr o leiafrifoedd ethnig i ymgeisio'n uniongyrchol am gontractau, neu fel isgontractwyr am waith sydd eisoes wedi ei gontractio allan.

## Canlyniadau allweddol

3.173 Mae tendrau a chontractau yn cynnwys cyfeiriadau at gydraddoldeb hiliol (lle ystyrir hynny’n berthnasol) ac yn ei gwneud yn glir beth sy’n ofynnol gan y contractwr a’r isgontractwyr.

3.174 Caiff cydraddoldeb hiliol ei asesu fel rhan o’r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro’r contract.

3.175 Mae contractwyr yn gallu rhoi enghreifftiau pendant o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, yn y modd y maent yn darparu gwasanaethau a, lle bo hynny’n berthnasol, yn eu harferion cyflogaeth.

3.176 Gall y sefydliad tai dynnu sylw at gontractau a enillwyd gan fusnesau o leiafrifoedd ethnig, neu gamau a gymerwyd i’w hannog i dendro.

37. Gweler *Cod Ymarfer Statudol ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Cyflogaeth*, CRE, 2005.

3.177 Mae busnesau lleiafrifoedd ethnig yr un mor fodlon ag eraill bod polisïau ac arferion caffael y sefydliad tai yn cynnig cyfle cyfartal.

## G. CYFRANOGIAD TRIGOLION A THENANTIAID

### Cefndir a gofynion cyfreithiol

3.178 Mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu ar sail hil, neu aflonyddu tenantiaid a thrigolion ar sail hil, wrth ymgynghori â hwy, neu wrth eu cynnwys mewn rheoli eiddo. Mae'r DCH yn rhoi dyletswydd benodol ar awdurdodau cyhoeddus rhestredig i ymgynghori ag unrhyw un sy'n debygol o gael ei effeithio gan eu polisïau, ac i wneud yn siŵr nad yw grŵp (neu grwpiau) hil arbennig yn debygol o gael ei effeithio'n anffafriol (gweler paragraffau 2.48b a c).

3.179 Mae'r cwestiynau o integreiddio a chydlyniad cymunedol yn debygol o fod yn bwysig hefyd (gweler paragraffau 3.103 – 3.109).

### Meysydd lle gallai gwahaniaethu ac anfantais ymddangos

3.180 **Cyfranogiad trigolion a thenantiaid**. A yw'r sefydliad tai wedi cymryd camau digonol i gynnwys trigolion a thenantiaid o bob grŵp hil mewn ymgynghoriadau, a sicrhau cyfranogiad ganddynt yn y broses o lunio polisi a phenderfyniadau? A wneir hyn yn glir yn strategaeth y sefydliad ar gyfer ymgynghori a chyfranogiad? A yw'r sefydliad wedi ystyried canlyniadau ymchwil y byddai'n well gan rai grwpiau anodd eu cyrraedd gymryd rhan mewn ffyrdd eraill yn hytrach na thrwy ymuno â grŵp tenantiaid?[38]

3.181 **Cydnabod sefydliadau trigolion a thenantiaid**. A oes meini prawf ar gyfer cydnabod sefydliadau trigolion a thenantiaid wedi eu llunio a'u cytuno rhwng landlordiaid a thrigolion a thenantiaid? A gymerwyd camau i ofalu bod gan sefydliadau trigolion a thenantiaid bolisïau ac arferion cyfle cyfartal clir, a'u bod yn agored i gyfranogiad y trigolion a'r tenantiaid i gyd, gan gynnwys y rhai hynny o leiafrifoedd ethnig?

3.182 **Hyfforddiant**. A yw cynrychiolwyr trigolion a thenantiaid, ac unrhyw staff perthnasol, wedi cael hyfforddiant mewn cydraddoldeb hiliol, gan gynnwys hyfforddiant ynglŷn â'r DCH?

3.183 **Monitro a gwerthuso**. A wnaed trefniadau i fonitro a gwerthuso cyfranogiad gan gynnwys cyfnod mewn swydd, mewn sefydliadau trigolion a thenantiaid, yn

---

38. Gweler *Gwerthuso Cyfranogiad Tenantiaid mewn Rheoli a Dylunio Tai*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. I gael gwybodaeth am hyn ac Cynllun Grant Grymuso Tenantiaid Llywodraeth Cynulliad Cymru gweler www.housing.wales.gov.uk

ôl grŵp hil? Pa gamau a gymerwyd i ymdrin ag unrhyw anghyfartaleddau sylweddol rhwng grwpiau hil?

## Argymhellion o ran arfer da

3.184 Dylai sefydliadau tai, a phan fo angen, rhaid iddynt lunio strategaeth ar gyfer sicrhau cyfranogiad gan drigolion a thenantiaid, gan gynnwys y rhai hynny o leiafrifoedd ethnig, yn eu prosesau o lunio penderfyniadau, yn ogystal â'r ddyletswydd sydd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau cyfranogiad gan denantiaid. Dylai'r strategaeth gynnwys trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, ymgynghori, ymglymiad, adborth a chyfranogiad.

3.185 Dylai sefydliadau tai gymryd camau i annog pobl o bob grŵp hil i gymryd rhan; er enghraifft, drwy gymryd camau cadarnhaol i'w dynodi, drwy gyfieithu deunydd, gweithio gyda grwpiau unigol, a phenodi staff arbenigol i weithio gyda hwy. Dylent fod yn hyblyg ac yn fodlon archwilio dulliau anrhaddodiadol o gyfranogi.

3.186 Dylai sefydliadau tai gynnwys ymhlith y meini prawf ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth i gyrff trigolion a thenantiaid, y gofyn eu bod yn wirioneddol agored i bob grŵp hil. Lle bo angen hynny, dylai sefydliadau tai gynorthwyo sefydliadau trigolion a thenantiaid i fodloni'r meini prawf.

3.187 Dylai sefydliadau tai ddarparu hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr o fudiadau trigolion a thenantiaid (ac unrhyw staff sy'n gweithio iddynt hwy). Dylai'r hyfforddiant gynnwys eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y DCH, a materion cydraddoldeb hiliol yn fwy cyffredinol.

3.188 Dylai sefydliadau tai sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rhoi ystyriaeth i gefndiroedd diwylliannol trigolion a thenantiaid o leiafrifoedd ethnig mewn unrhyw drefniadau i'w cynnwys neu i ymgynghori â hwy.

3.189 Dylai sefydliadau tai allu dangos beth y maent wedi ei wneud i annog cyfranogiad gan leiafrifoedd ethnig, ac i roi cyhoeddusrwydd i a hyrwyddo arfer da.

3.190 Dylai strategaethau a pholisïau sefydliadau tai ddangos ymwybyddiaeth o unrhyw rwystrau y gallai trigolion a thenantiaid o leiafrifoedd ethnig eu hwynebu wrth gymryd rhan mewn mentrau, a chynnwys ffyrdd o'u goresgyn.

3.191 Dylai sefydliadau tai fonitro cyfranogiad, yn ôl grŵp hil (er enghraifft trwy gynnal arolygon) ac ymdrin ag unrhyw anghyfartaleddau sylweddol rhwng grwpiau hil.

3.192 Dylai sefydliadau tai ddefnyddio'u perthynas â sefydliadau trigolion a thenantiad er mwyn casglu gwybodaeth am unrhyw dyndra neu aflonyddu hiliol.

## Canlyniadau allweddol

3.193 Mae cynrychiolaeth gan leiafrifoedd ethnig mewn sefydliadau tenantiaid a thrigolion yn un o amcanion pendant strategaeth y sefydliad tai ar gyfer cynyddu cyfranogiad gan denantiaid a thrigolion. Fe'i cynhwysir mewn 'cytundebau cyfranogiad tenantiaid awdurdodau lleol' neu 'ddatganiadau cyfranogiad trigolion cymdeithasau tai'.

3.194 Mae trigolion a thenantiaid o leiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan mewn ymarferiadau ymgynghori ac fe'u cynhwysir mewn trefniadau ar gyfer mathau eraill o gyfranogiad. Ceir tystiolaeth y rhoddir ystyriaeth i'w barn.

3.195 Mae cynrychiolwyr trigolion a thenantiaid, a staff sy'n ymwneud â llunio polisi a phenderfyniadau, wedi eu hyfforddi ynglŷn â'r DCH, ac ynghylch cydraddoldeb hiliol yn fwy cyffredinol.

3.196 Mae'r holl drigolion a'r tenantiaid, gan gynnwys y rhai hynny o leiafrifoedd ethnig, yn fodlon gyda threfniadau'r sefydliadau i'w cael i gyfranogi, ac mae'r sefydliad yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

# 4

## *Hyfforddi, monitro ac asesu effaith cydraddoldeb hiliol*

4

# Hyfforddi, monitro ac asesu effaith cydraddoldeb hiliol

4.1 Mae hyfforddi, monitro ac asesu effaith cydraddoldeb hiliol yn hanfodol er mwyn cyflawni argymhellion y cod hwn. Tra bo’r bennod hon yn canolbwyntio ar gydraddoldeb hiliol, bydd yn aml o fantais i sefydliadau tai gynnwys meysydd eraill o gydraddoldeb yn eu trefniadau ar gyfer hyfforddi, monitro ac asesu effaith.

## Hyfforddi

4.2 Mae gan hyfforddiant rôl bwysig er sicrhau bod trigolion, tenantiaid, staff, bwrdd neu aelodau gweithredol y sefydliad tai, ac asiantaethau eraill yn deall pam fod y sefydliad wedi datblygu strategaeth cydraddoldeb hiliol ar gyfer tai, beth y mae’n ei olygu’n ymarferol, a’r rhan y gallant ei chwarae o ran ei weithredu. Bydd tribiwnlysoedd cyflogi a llysoedd yn ystyried yr hyn a wnaeth sefydliad er mwyn hyfforddi ei staff ynglŷn â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (DCH) mewn unrhyw achos cyfreithiol a ddygir yn erbyn y sefydliad dan y DCH.

4.3 Er hynny, nid yw hyfforddi yn digwydd mewn gwagle. Mae’n rhan o ymagwedd fwy cyflawn o ddelio â chydraddoldeb hiliol fel rhan hanfodol o ddiwylliant y sefydliad, yn cynnwys ei holl weithgareddau, polisïau a gweithdrefnau, a’r ffordd y caiff ei reoli a’i arwain. Bydd yr hyfforddiant yn fwy effeithiol os gwêl y rhai a hyfforddir ei fod o gymorth iddynt wneud eu gwaith yn well.

4.4 Nid un ffordd yn unig y gellir ei hawgrymu i ddelio â hyfforddiant cydraddoldeb hiliol. Mae pob rhaglen yn debyg o gynnwys y cydrannau sylfaenol o godi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth a datblygu a gwella sgiliau.[39]

4.5 Gall hyfforddiant cydraddoldeb hiliol a ddarperir yn fewnol neu gan asiantaethau allanol fod yn ddrud, a rhaid i sefydliad wybod yn union beth mae’n ei ddisgwyl ganddo. Gall hyfforddiant na chafodd ei gynllunio’n ofalus fod yn wastraff o adnoddau. Yn waeth na hynny, gall elyniaethu staff. Bydd o werth i sefydliadau tai ystyried y cwestiynau canlynol cyn dechrau unrhyw raglen hyfforddi.

a. Beth yw diben yr hyfforddiant? Beth sydd angen i bobl ei wybod, a pham?

---

39. Am ragor o wybodaeth am *Adnodd Hyfforddi Cydraddoldeb Hiliol a Thai*, 2003, a gynhyrchwyd gan EPS Ltd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r rhaglen hyfforddi, ‘Sgiliau Cyfathrebu Amlddiwylliannol’, a gynhyrchwyd gan Asset Skills yng Nghymru (www.assetskills.org).

b. Beth mae pobl yn ei wybod yn barod, a beth arall sydd angen iddynt ei wybod?

c. Oes a wnelo'r hyfforddiant â darparu dealltwriaeth gyffredinol o faterion cydraddoldeb hiliol a'r DCH?

ch. A ddylid ei ddarparu fel cwrs ar wahân ynteu fel rhan o hyfforddiant arbenigol arall, megis hyfforddiant ar fonitro neu asesiad effaith cydraddoldeb hiliol, neu ynghyd â hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb eraill?

d. Pa ddulliau a fyddai fwyaf effeithiol; er enghraifft, dysgu o bell, hyfforddiant wyneb yn wyneb, briffio, canllawiau tros y fewnrwyd, cyrsiau hyfforddi allanol, neu gymysgedd o'r holl bethau hyn?

dd. Sut y caiff yr hyfforddiant ei werthuso?

4.6 Pa ddull bynnag a fabwysiedir gan sefydliad tai, dylai ystyried y pethau canlynol yn rhan allweddol o unrhyw raglen hyfforddi:

a. eglurhad o ymagwedd y sefydliad tuag at faterion cydraddoldeb hiliol, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, a pham ei fod yn bwysig;

b. beth a olyga'r strategaeth cydraddoldeb hiliol yn ymarferol, ynghyd â gwybodaeth gefndir (er enghraifft, y ffeithiau a'r ffigurau tu ôl i anghydraddoldeb hiliol, a'r camdybiaethau ynghylch stereoteip hiliol a chenedlaethol);

c. y gyfraith a'r hyn a olyga'n ymarferol;

ch. sail busnes dros gydraddoldeb hiliol, nid yn unig yn ariannol ond hefyd o ran cwsmeriaid, staff ac eraill sydd â diddordeb; a

d. rolau a chyfrifoldebau staff wrth weithredu polisi cydraddoldeb hiliol y sefydliad.

## Monitro

4.7 Nid yw monitro yn ôl grwpiau hil yn ddadleuol bellach. Mae'n gwbl naturiol i lawer o sefydliadau tai fonitro effaith eu polisïau a'u strategaethau tai. Mae'n arferol hefyd i lawer gynnwys cwestiynau ynghylch anghenion tai fel rhan o'r data a gasglant[40], er mwyn darparu gwasanaeth teg a chyfiawn i bawb. Mae'n rhaid cynnwys ethnigrwydd o fewn y monitro er mwyn sicrhau cydraddoldeb hiliol. Heb hynny, byddai'n anodd sefydlu natur neu faint yr anghydraddoldeb, y meysydd lle bo angen gweithredu fwyaf ynddynt, ac a yw'r pethau a wnaed er mwyn lleihau anghydraddoldeb yn llwyddo ai peidio.

40. Cynhwyswyd eithriadau arbennig yn Neddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth yr UE, i ganiatáu prosesu data cydraddoldeb yn y DU.

4.8 Mae pedwar cam i'r monitro:

a. datblygu trefn o gasglu, cofnodi a chadw gwybodaeth am gefndir hiliol ac ethnig;

b. gweithredu'r drefn;

c. dadansoddi'r data; a

ch. gweithredu ar y casgliadau.

4.9 Mae Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) wedi cyhoeddi cyngor manwl ynghylch monitro yn ôl grŵp hil.[41] Rhestrir isod y prif bwyntiau ar gyfer sefydliadau tai.

a. Dylid llunio trefniadau monitro yn arbennig ar gyfer maint ac amgylchiadau'r sefydliad tai. Dylai trefn syml fod yn ddigonol ar gyfer sefydliad bychan sy'n cynnig ychydig o lety. Gallu canfod a dadansoddi'r wybodaeth yn gyflym yw'r nod, a'i chymharu â gwybodaeth a osodwyd fel meincnod, megis cyfrifiad 2001,[42] neu ddata o ffynonellau lleol neu genedlaethol tebyg eraill.

b. Dylai sefydliadau tai ddefnyddio'r categorïau ethnig a nodwyd yng nghyfrifiad 2001. Dylent ystyried cyflwyno categorïau eraill ar gyfer grwpiau penodol sy'n amlwg yn y lleol, o bosibl oherwydd ymfudiad diweddar (er enghraifft, pobl o dras canol neu ddwyrain Ewrop) fel y gellir monitro effaith llawn eu gwasanaethau ar bob grŵp. Os mai ychydig o wybodaeth sydd am grwpiau penodol, megis Sipsiwn a Theithwyr, dylai sefydliadau ystyried defnyddio arolygon wedi eu targedu.

c. Os bydd y dadansoddiad yn dangos gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau hil penodol (er enghraifft, pe gwelai sefydliad tai mewn ardal y mae llawer o bobl Asiaidd yn byw ynddi, mai ychydig iawn o Asiaid sy'n cael eu henwebu gan awdurdod lleol i gymdeithas tai, neu mai ychydig o denantiaid Asiaidd sydd mewn tai gwarchod), dylai'r sefydliad geisio ymchwilio'r rhesymau posibl, megis rhwystrau rhag cysylltu â'r sefydliad, problemau cyfathrebu, methiant i adnabod angen penodol am dai, neu enw da'r sefydliad ymhlith rhai grwpiau, a mynd ati i wneud rhywbeth ynglŷn â'r pethau hynny.

ch. Yn ogystal â monitro ei brif weithgareddau'n barhaus, megis mynediad a dyrannu, gallai'r sefydliad tai ystyried arolygon ciplun achlysurol. Er enghraifft, gall hynny fod er mwyn asesu'r modd y mae trigolion a thenantiaid yn derbyn buddiannau; neu er mwyn sicrhau bod rhaglen atgyweirio wedi ei rheoli'n deg. Mae arolygon bodlonrwydd cwsmer, yn cynnwys arolygon sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol o wasanaeth, hefyd yn rhan bwysig o'r broses fonitro.

---

41. Gweler *Monitro Ethnig: Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol*, CRE, 2002. I gael canllawiau manwl ynglŷn â chategorïau i'w defnyddio yng Nghymru, gweler www.cre.gov.uk/wales

42. Gweler *Proffil o amgylchiadau tai a chymdeithasol-economaidd pobl dduon a'r rhai o dras ethnig yng Nghymru yn 2001*, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol www.statistics.gov.uk a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2005.

d. Dylai staff, trigolion a thenantiaid, ymgeiswyr newydd ac asiantaethau eraill ddeall pam fod sefydliad wedi dechrau monitro, a dylid eu sicrhau fod pob gwybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Dylid rhoi gwybod iddynt am gynnydd, canlyniadau'r monitro, ac unrhyw gamau a gymerir er mwyn delio ag unrhyw anghydraddoldeb sylweddol o fewn y gwasanaethau. Gallai methu gwneud hyn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth, a hyd yn oed sinigiaeth, yn ogystal â chyhuddiadau bod rhai grwpiau yn cael eu ffafrio ar draul eraill. Mae agoredrwydd yn hanfodol er mwyn llwyddiant y strategaeth cydraddoldeb hiliol.

dd. Mae monitro yn ôl grŵp hil, yn arbennig gan gymdeithasau tai o fewn y sector preifat, yn aml yn golygu gosod 'targedau'. Mae'n bwysig pwysleisio nad cwotâu yw targedau. Mae hynny'n anghyfreithlon. Dim ond dull o weithio er cyflawni nod arbennig yw targedau. Mae'n debyg y byddai'n well eu galw'n 'amcanion' neu 'nodau', sy'n cael eu gosod fel rhan o strategaeth cydraddoldeb hiliol sefydliad. Er enghraifft, os gwêl sefydliad ei fod yn gosod llai o eiddo i bobl o grŵp hil penodol, bydd o bosibl eisiau gweithredu er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal. Gallai hyn gynnwys ystyried y modd y mae ei drefniadau yn gweithio, neu ystyried gwahanol ffyrdd o gyrraedd y grwpiau dan sylw a'u cynnwys, neu ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb hiliol newydd i rai staff.

## Asesu effaith cydraddoldeb hiliol

4.10 Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn gosod cyfrifoldeb penodol ar yr awdurdodau cyhoeddus rhestredig i asesu effaith tebygol polisi arfaethedig ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae hefyd yn galw am ymgynghori â'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi, cyn iddo gael ei gyflwyno yn ffurfiol. Pwrpas hynny yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn wirioneddol gyhoeddus, a bod awdurdodau cyhoeddus yn anelu at hyn wrth wneud eu gwahanol benderfyniadau.

4.11 Mae'n well gwneud asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol yn systematig. Y nod fydd gweld a allai polisi arfaethedig gael effaith andwyol (gweler yr eirfa yn Atodiad 3) ar grŵp (neu grwpiau) penodol. Gall y 'polisi' fod yn strategaeth tai lleol neu argymhelliad penodol i newid y ffordd y darperir gwasanaeth lleol (gweler Enghraifft 53). Mae'r ddyletswydd yn ymwneud â pholisïau ar gyflogaeth a gwasanaethau.

**Enghraifft 53**

Mae awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am nifer o ganolfannau cynghori galw i mewn yn y gymdogaeth, yn bwriadu cau rhai o'r canolfannau a darparu gwasanaeth mwy canolog. Gwneir yr argymhelliad er mwyn gwella'r gwasanaeth a'i wneud yn fwy cost effeithiol. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnal asesiad effaith cydraddoldeb hiliol ar ei bolisi arfaethedig newydd er mwyn gweld a allai'r cau gael effaith andwyol ar bobl o grŵp (neu grwpiau) hil arbennig. Os gwelir y bydd hynny'n digwydd, bydd raid i'r awdurdod ystyried a all gyfiawnhau'r cau, neu a fydd modd iddo gael ateb arall a fydd yn osgoi neu'n lleihau'r effaith andwyol.

4.12 Mae'r CRE wedi cyhoeddi canllawiau ar-lein ynglŷn ag asesu effaith cydraddoldeb hiliol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus.[43] Ei fwriad yw helpu awdurdodau i:

a. ystyried anghenion, amgylchiadau a phrofiad y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan bolisi arfaethedig;

b. canfod unrhyw anghyfartaledd gwirioneddol neu bosibl, yn ogystal â gwahaniaethu anghyfreithlon posibl, rhwng gwahanol grwpiau hil; ac

c. ystyried ffyrdd eraill o gyflawni amcanion y polisi, er mwyn osgoi neu leihau unrhyw effaith andwyol posibl.

4.13 Dylid nodi y gallai polisi gael ei lunio fel rhan o raglen waith er mwyn llenwi bylchau mewn gwasanaethau neu ddiwallu pryderon neu anghenion grŵp hil penodol. Byddai'n fwriad i'r fath bolisi gael effaith gadarnhaol ar y grŵp dan sylw, a gellid ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun ehangach sicrhau mynediad cyfartal at wasanaeth ar gyfer yr holl grwpiau a wasanaethir gan y sefydliad.

4.14 Dylid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb hiliol unwaith yr ystyrir polisi newydd. Yn ddelfrydol, dylai fod yn rhan arferol o ddatblygu polisi.

## Mathau o asesiad effaith cydraddoldeb hiliol

4.15 Gallai asesiad effaith cydraddoldeb hiliol gynnwys dau gam.

a. **Asesiad neu sgrinio cychwynnol**. Dylid sgrinio pob polisi arfaethedig o ran ei effaith tebygol ar gydraddoldeb hiliol. Dylid seilio'r sgrinio ar y data gorau sydd ar gael am y boblogaeth y mae'r sefydliad yn ei gwasanaethu, ac ar wybodaeth a phrofiad ei staff. Dylai'r staff ystyried y cwestiynau canlynol fel rhan o'r broses sgrinio.

i. A allai'r polisi gael effaith andwyol ar grwˆp (neu grwpiau) hil penodol?

---

43. Gweler *Asesiad Cydraddoldeb Hiliol: Canllaw cam wrth gam*, CRE, 2004. Am ganllawiau ynglŷn â gweithdrefnau asesu effaith wedi eu haddasu i anghenion sefydliadau tai yng Nghymru, gweler www.cre.gov.uk/wales

ii. A allai'r polisi niweidio'r cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau hil?

iii. A allai'r polisi gynnig cyfle i ddiwallu rhai anghenion arbennig, neu ddarparu mwy o gydraddoldeb cyfle neu driniaeth, neu wella cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau hil?

Os mai 'na' yw'r ateb i'r tri chwestiwn, ni fyddai unrhyw oblygiadau amlwg i'r polisi o ran cydraddoldeb hiliol, a dyna fyddai diwedd y broses asesu effaith. Fel arall, byddai angen asesu'r polisi yn llawn.

b. **Asesiad effaith llawn**. Bydd asesiad effaith llawn angen archwiliad mwy manwl o effaith tebygol polisi arfaethedig, yn cynnwys fel arfer ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt. Dylai'r sefydliad gofio'r pethau canlynol.

i. O ran awdurdodau cyhoeddus, mae cynnal asesiad effaith cydraddoldeb hiliol yn gyfrifoldeb penodol dan y DCH (gweler para.2.48b), ac mae gan y CRE yr hawl i'w orfodi (gweler para.2.52).

ii. Mae'n well i'r asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol gael eu cynnal gan staff sy'n deall y meysydd polisi dan sylw, gan asesu'r wybodaeth sydd ar gael ac argymell unrhyw ymchwiliad y gall fod ei angen.

iii. Ni ddylai asesiadau fod yn rhy gymhleth nac yn fiwrocrataidd. Hyd y bo modd, dylid rhannu gwybodaeth a phrofiad o gynnal asesiadau gyda sefydliadau eraill.

iv. Dylai cynnal asesiad effaith fod yn rhan o'r broses arferol o ddatblygu polisi ac asesu risg.

v. Unwaith y caiff polisi ei fabwysiadu, wedi neu heb ei addasu er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol, dylid ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw ei effaith yn gwaethygu neu'n achosi anghyfartaledd rhwng grwpiau hil. Dylid trin unrhyw newid sylweddol i'r polisi (gweler Enghraifft 53) fel argymhelliad polisi newydd.

*Atodiadau*

## Atodiad 1

# Eithriadau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976

### **Gweithredu cadarnhaol** [Adrannau 35, 37 a 38]

Mae'r term 'gweithredu cadarnhaol' yn cyfeirio at fesurau y gellir eu cymryd yn gyfreithlon i fodloni anghenion arbennig neu i annog pobl o grŵp hil sydd wedi ei dangynrychioli mewn gwaith penodol, neu ymhlith deiliaid swyddi sefydliad aelodaeth (gweler hefyd paragraffau 2.40 - 2.42).

### **Elusennau** [Adran 34]

Gall elusennau sydd â darpariaethau yn eu hofferyn elusennol sy'n caniatáu iddynt roi manteision i bobl o grŵp hil penodol wneud hynny, cyn belled nad yw'r ddarpariaeth wedi ei diffinio gan gyfeiriad at liw.

### **Diogelwch y wlad** [Adran 42]

Gall gwahaniaethu ar sail hil gan gyflogwr gael ei ganiatáu os y'i gwneir i warchod diogelwch y wlad, ac os gellir ei gyfiawnhau felly.

### **Cyflogaeth ar gyfer hyfforddiant mewn sgiliau i'w defnyddio y tu allan i Brydain Fawr** [Adran 42]

Caniateir gwahaniaethu ar sail lliw neu genedligrwydd, ond nid hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, wrth gyflogi rhywun nad sydd fel arfer yn byw ym Mhrydain Fawr, er mwyn ei hyfforddi ef eu hi mewn sgiliau a gaiff eu defnyddio dim ond y tu allan i Brydain.

### **Gofynion galwedigaethol dilys a chymwysterau galwedigaethol dilys** [Adrannau 4A a 5]

Caniateir gwahaniaethu ar sail hil mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, ble y mae bod yn rhan o grŵp hil penodol yn 'ofyniad galwedigaethol dilys' (GGD) neu'n 'gymhwyster galwedigaethol dilys' (CGD). Ni ellir defnyddio’r eithriad GGD i wahaniaethu ar sail lliw neu genedligrwydd.

Mae'r eithriadau GGD a CGD yn gyfyngedig iawn yn eu diffiniad a chyfrifoldeb y cyflogwr yw cyfiawnhau dewis neu hyrwyddo neu (yn achos GGD yn unig) wrthod mewn modd a fyddai fel arall yn gyfystyr â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon.

Cynghorir cyflogwyr yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol ar ddefnyddio eithriad GGD neu CGD cyn hysbysebu am y swydd. Mae pob hysbyseb sy'n dynodi bwriad i wahaniaethu’n anghyfreithlon, oni bai bod eithriad statudol yn gymwys.

## Gweithredoedd a wneir yn unol ag awdurdod statudol [Adran 41]

Caniateir gwahaniaethu ar sail lliw, cenedligrwydd, man preswylio arferol, neu'r cyfnod o amser a fu'n bresennol neu'n breswylydd yn neu'r tu allan i'r DU, os yw'n angenrheidiol er mwyn bodloni ymrwymiad statudol.

# Atodiad 2
## Canllawiau a gwefannau

Nid yw'r rhestrau isod yn llawn. Cânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd ar wefan y CRE (www.cre.gov.uk).

### Canllawiau


Comisiwn Archwilio. 2004. *The Journey to Race Equality: Delivering improved services to local communities*. (http://www.audit-commission.gov.uk/Products/NATIONAL-REPORT/EA59CF1B-0157-4cdb-BCA5-D9579C4DBFE5/RaceEquality_briefing.pdf)

Blackaby, B. 2004. *Community Cohesion and Housing: A good practice guide*. Coventry: Chartered Insitute of Housing (CIH)

Blackaby, B a Chahal, K. 2000. *Black and Minority Ethnic Housing Strategies: A good practice guide*. Coventry: CIH

CIH. 2002. *Good Practice Briefing 23 – Crime, Disorder and Anti-Social Behaviour.* Coventry

2003. *Good Practice Briefing 26 – Equality and Diversity*

2004. *How Housing Management Can Contribute to Community Cohesion*

Sefydliad Siartredig Tai Cymru (CIHC). 2002. *Tai Cymdeithasol yng Nghymru: Y Cyd-desun Polisi Cenedlaethol.* Caerdydd

2003. *Making Tenant Participation Compacts Work*

2004. *National 2004: Black and minority ethnic housing report*

Clements, A. ed. 2005. *Game Plan: Housing, Planning and the Economy*. Caerdydd: CIHC

Comiswn Cydraddoldeb Hiliol (CRE). 1990. *Sorry, It's Gone: Testing for racial discrimination in the private rented housing sector*. Llundain

1993. *Housing Allocations in Oldham: Report of a formal investigation*

2002. *Ethnic Monitoring: A guide for public authorities*

2002a. *Performance Guidelines for Local Authorities*

2002b. *Statutory Code of Practice on the Duty to Promote Race Equality*

2003. *A Framework for Inspectorates*

2003a. *Race Equality and Public Procurement: A guide for public authorities and contractors*

2003b. *Race Equality and Procurement in Local Government: A guide for authorities and contractors*

2003c. *Race Equality and Public Procurement: Briefing for suppliers*

2004. *Gypsies and Travellers: A strategy for the CRE in England and Wales*

2004a. *Public Authorities and Partnerships: A guide to the duty to promote race equality*

2004b. *Race equality impact assessment: A step-by-step guide*. (http://www.cre.gov.uk/duty/reia/index.html)

2005. *Statutory Code of Practice on Racial Equality in Employment*

2006. *Common Ground: Equality, good race relations and sites for Gypsies and Irish Travellers: Report of a CRE inquiry in England and Wales*

Adran dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR). 2001. *Tackling Racial Harassment: A code of practice for social landlords*. Llundain

Gravell, G. 2003. Alternatives for Eviction of Perpetrators of Racial Harassment. (www.community-safety.net/images/archive/conf03/carwyn%20gravel.pdf)

Housing Corporation. 2002. *Race Equality and Diversity: Regulatory code*. Nodyn Arfer Da 4. (http://www.housingcorp.gov.uk/upload/pdf/gpn4.pdf)

2002a. *The Way Forward: Our approach to regulation: regulatory code and guidance*. Llundain

Jeffery, J a Seager, R. 2006. *Equality and Diversity: A framework for review and action*. Llundain: Ffederasiwn Tai Cenedlaethol

Lemos a Crane. 2004. *Implementing the Code of Practice for Social Landlords on Tackling Racial Harassment: Guidance and examples*. (http://www.raceactionnet.co.uk)

Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, CRE a'r Rhwydwaith Rhyng-Ffydd. 2003. *Building a Picture of Community Cohesion*. (http://communities.homeoffice.gov.uk/raceandfaith/reports_pubs/publications/race_faith/build-pict-com-cohesion.pdf)

LGA, Comisiwn Archwilio, CRE, Swyddfa Gartref, Asiantaeth Gwella a Datblygu, Rhwydwaith Rhyng-Ffydd a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. 2004. *Community Cohesion: An action guide for local authorities*. (http://www.lga.gov.uk/download.asp?path=/Documents/Publication/communitycohesionactionguide.pdf)

Myant, C. 2005. Race Equality in Housing… Can it be Delivered? In *Game Plan: Housing, Planning and the Economy*, ed. Clements, A. Caerdydd: CIHC

Partneriaeth Cydraddoldeb Gogledd Cymru. 2004. *The Housing and Related Experience of Black, Minority Ethnic Communities in North Wales*. Caernarfon

Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (NHF). 2004. *Community Cohesion: In business for neighbourhoods*. (http://www.housing.org.uk/library/index.asp?Submit=1&KeywordsType=AND&Doc=33&Reg=all&Grp=1&Ord=1)

2004a. *Housing and Support Options for Refugees and Asylum Seekers*. (http://www.housing.org.uk/library/viewfile.asp?fid=2704)

NHF, CRE, the Federation of Black Housing Organisations and the Housing Corporation. 2002. *Race Equality Code of Practice for Housing Associations*

Nyoni, M. 2000. *Ymylon i'r Canol - Asesu'r Angen am Strategaeth Tai Grwpiau Du a Lleiafrif Ethnig i Gymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM). 2004. *Empowering Communities, Improving Housing, Involving Black and Minority Ethnic Tenants and Communities*. Llundain

2004a. *Ethnicity Monitoring: Benefit. Guidance for partnerships on monitoring benefit*

2004b. *Ethnicity Monitoring: Involvement. Guidance for partnerships on monitoring involvement*

2004c. *Piloting Choice-based Lettings and Evaluation*

2005. *Causes of Homelessness in Ethnic Minority Communities*

2005a. *The National Framework for Tenant Participation Compacts*

2005b. *Tackling Homelessness amongst Ethnic Minority Households: A development guide*

Penoyre a Prasad. 1998. *Accommodating Diversity: Housing design in a multi-cultural society*. Llundain: NHF

Perry, J. 2005. *Housing and Support Services for Asylum Seekers and Refugees: A good practice guide*. Coventry: CIH mewn cydweithrediad gyda Sefydliad Joseph Rowntree

Robinson, V a Gardner, H. 2004. *Anybody out there? Black and minority ethnic people in Powys and their experiences*. Uned Ymfudo, Papur Ymchwil 18. Prifysgol Cymru Abertawe

Robinson, V a Gardener, H. 2004. Living in a Foreign Land: Ethnic Minorities and Rural Racism in Wales. In *Rural Racism: Contemporary Debates and Perspectives*, ed. Chakraborti, N. and Garland, J. Cullompton: Willan

Tenant Participation and Advisory Service. 2003. *Making Tenant Participation Work*. Manceinion

Thomas, R. 2000. *Striking the Right Balance: The role of allocations in building successful communities*. Caerdydd: CIHC

Tomlins, R. 2003. *The BME Housing Research Project*. REDRAPP, De Montfort University and The 1990 Trust

Valleys Race Equality Council. 2003. *Racism in the Valleys: Perception or Reality?* Pontypridd

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2001. *Gwerth Gorau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.* Caerdydd

2002. *Cynllun Gweithredu Tai BME ar gyfer Cymru*

2002a. *Polisi Cynllunio Cymru*

2002b. *Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol*

2003. *Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru: Adroddiad cynhadledd*

2003a. *Canllawiau i Awdurdodau Lleol o ran y Trefniadau o ran Gweithredu'r Cynllun Cefnogi Pobl yng Nghymru*

2003b. *Amgylchiadau Tai a Chymdeithasol-economaidd Pobl Dduon a'r Rhai o Dras Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru*. Manceinion: Canolfan Cathie Marsh, Prifysgol Manceinion

2003c. *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*

2003d. *Adnodd Hyfforddi Hil a Thai.* Caerdydd: Employment Practice Solutions Ltd

2004. *Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig: Canllawiau Arfer Da ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.* Caerdydd: CIHC a CEDC

2004a. *Ymgynghori gyda Phobl Digartref: Nodyn cyngor*

2004b. *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru*

2005. *Y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy:* Drafft Ymgynghori

2005a. *Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Polisïau a Gweithdrefnau - Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai*

2005b. *Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Canllawiau ar gyfer Tai a Darparwyr Cymorth Cysylltiedig yng Nghymru*

2005c. *TAN 1 drafft: Cydastudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai*

2005d. *TAN 2 drafft: Cynllunio a Thai Fforddiadwy*

2005e. *Gwerthuso Cyfranogiad Tenantiaid mewn Rheoli a Dylunio Tai*

2005f. *Cymryd Rhan: Safonau a Help ar gyfer Grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr. Canllawiau Cynllun Grant Grymuso Tenantiaid.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru/CIHC

2005g. *Asesiad Tai Lleol: Drafft Ymgynghori*

2005h. *Adolygiad o Waith Landlordiaid Cymdeithasol i Weithredu'r Gynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig*. Caerdydd: Employment Practice Solutions Ltd

2005i. *Ail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol: 2005-2008*

(I'w gyhoeddi). *Amgylchiadau Tai a Chymdeithasol-economaidd Pobl Dduon a'r Rhai o Dras Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru 2001*

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. 2002. *Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru*. Caerdydd

## Gwefannau

ACAS
**www.acas.org.uk**

Grŵp Iechyd Meddwl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Cymru Gyfan (Awetu)
**www.awetu.org.uk**

Asset Skills
**http://www.assetskills.org**

Cymdeithas Asiantau Gosod Preswyl (ARLA)
**www.arla.co.uk**

Black Association of Women Step Out Ltd (BAWSO)
**www.bawso.org.uk**

BEST (Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig)
**www.best-cymru.org**

Gwerth Gorau Cymru
**www.bestvaluecymru.org.uk**

BMEspark – Lleiafrifoedd Ethnig Du / cefnogi pobl, gweithredu, ymchwil a gwybodaeth
**www.bmespark.org.uk**

Sefydliad Siartredig Tai (CIH)
**www.cih.org**

CIH Cymru
**www.cih.org/cymru**

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu
**www.cipd.co.uk**

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
**www.cre.gov.uk**

Tasglu Cynllunio Cymunedol (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Cynllunio)
**www.communityplanning.org**

Cymorth Cymru
**http://www.cymorthcymru.org.uk/**

De Montfort University Race Toolkit
**www.dmuracetoolkit.com**

Comisiwn Hawliau Anabledd
**www.drc-gb.org**

Anabledd Cymru
**www.disabilitywales.org**

Comisiwn Cyfle Cyfartal
**www.eoc.org.uk**

HACT
**www.hact.org.uk**

Housemark
**www.housemark.co.uk**

Y Gorfforaeth Tai
**www.housingcorp.gov.uk**
**www.bankofgoodpractice.org/rti**

Uned Data Llywodraeth Leol
**www.lgdu-wales.gov.uk/eng/home.asp**

Ombwdsmon Llywodraeth Leol
**www.lgo.org.uk**

Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN) Cymru
**www.webcell.co.uk/Final%20Dev**

Cymdeithas Genedlaethol Gwerthwyr Tai
**www.naea.co.uk**

Ffederasiwn Tai Cenedlaethol
**www.housing.org.uk**

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN)
**www.nwren.org**

Partneriaeth Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREP)
**www.nwrep.co.uk**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
**www.ombudsman-wales.org.uk**

Race Action Net
**www.raceactionnet.co.uk**

Cyngor Ffoaduriaid
**www.refugeecouncil.org.uk**

Ymddiriedolaeth Scarman
**www.thescarmantrust.org**

Shelter Cymru
**www.sheltercymru.org.uk**

Tai Pawb
**www.taipawb.org**

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS)
**www.tpas.org.uk**

TPAS Cymru
**www.tpascymru.org.uk**

TOGETHER: Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
**www.together.gov.uk**

Swyddfa Archwilio Cymru
**www.wao.gov.uk**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
**www.wales.gov.uk**

Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gwefan y Gyfarwyddiaeth Tai)
**www.housing.wales.gov.uk**

Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru (WFHA)
**www.welshhousing.org.uk**

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
**www.bwrdd-yr-iaith.org.uk**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
**www.wlga.gov.uk**

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (WTF)
**www.welshtenantsfed.org.uk**

# Atodiad 3

# Geirfa

### Aflonyddu

Ymddygiad digroeso sydd â'r bwriad o dreisio urddas person neu'n gwneud hynny, neu sy'n creu amgylchedd sy'n diraddio, bychanu, gelyniaethu, dychrynu neu dramgwyddo person. Mae aflonyddu ar sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol yn weithred anghyfreithlon benodol dan y **DCH**. Gall aflonyddu ar seiliau eraill gynnwys trin pobl yn llai ffafriol, a gall hynny olygu **gwahaniaethu uniongyrchol** anghyfreithlon.

### Anheddau bychain

Mae annedd yn 'annedd bychan' dan y **DCH**:

- os yw'r landlord neu berthynas agos (a ddiffinnir fel priod neu bartner sifil, rhiant neu blentyn, taid a nain neu ŵyr ac wyres, brawd neu chwaer) yn byw neu'n bwriadu parhau i fyw yn yr eiddo; ac
- os yw'r landlord neu berthynas agos yn rhannu llety gyda'r tenant, ac eithrio lle storio neu fynediad; er enghraifft ystafell ymolchi neu gegin; ac
- os nad oes, yn ogystal â'r llety y mae'r landlord neu berthynas agos yn byw ynddo, lety i fwy na dau deulu arall, dan gytundeb gosod ar wahân, neu i chwech o letywyr neu denantiaid unigol.

I landlordiaid yn unig y mae'r eithriad dan adran 22 y DCH yn gymwys, ac nid i asiantaethau llety sy'n gweithredu ar eu rhan.

### Asesiad effaith cydraddoldeb hiliol

Ffordd systematig o benderfynu a yw polisi arfaethedig, mewn cyflogaeth neu ddarparu gwasanaeth, yn effeithio'n gyfartal ar bob **grŵp hil**, neu a oes modd iddo gael **effaith andwyol** ar un neu ragor o grwpiau.

### Awdurdod cyhoeddus

O ran y Cod hwn, corff sy'n cael ei enwi, ei ddiffinio neu ei ddisgrifio yn atodlen 1a y **DCH**, neu, yn dibynnu ar y cyd-destun, corff sy'n cael ei enwi, ei ddiffinio neu ei ddisgrifio yn un o'r atodlenni i Orchymyn 2001 Deddf Cysylltiadau Hiliol (Dyletswyddau Statudol) 1976 neu Orchymyn 2003 Deddf Cysylltiadau Hiliol (Dyletswydd Gyffredinol Statudol). Mae'r term yn cynnwys holl adrannau llywodraeth ganolog a'u hasiantaethau gweithredol a'u cyrff anadrannol, holl sefydliadau'r GIG, cyrff llywodraethol ysgolion a sefydliadau addysg bellach, Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'n mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn mabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg statudol y bydd gofyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Mae'n annog ac yn cynghori ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg o fewn y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae hefyd yn rhoi

grantiau i sefydliadau sy'n cefnogi'r Gymraeg ac i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi addysg ddwyieithog.

### Caffael

Y broses o gael gafael ar nwyddau, gwaith neu wasanaethau gan ddarparwyr allanol. Mae caffael yn cynnwys yr holl broses, o ddynodi anghenion hyd at ddiwedd y gwasanaethau neu ddiwedd oes defnyddiol yr asedau. Yn aml, mae'n cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir i **awdurdodau cyhoeddus** a'r cymunedau a wasanaethant. Mae hynny'n cynnwys cynllunio a darparu'r gwasanaethau hynny, asesu eu safon, a'r gwerthuso a'r adolygu a all arwain at gaffael pellach. Mae'r term yn delio â holl ystod y contractau, yn cynnwys cynlluniau menter cyllid preifat a phartneriaethau preifat a chyhoeddus. Ni chaiff y term ei ddefnyddio yma i gynnwys y penderfyniad i 'brynu' gan ddarparwr allanol.

### Cod Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru

Cod sy'n amlinellu ymrwymiadau sylfaenol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, a elwir yn arferol yn 'gymdeithasau tai'. Daeth y Cod i rym ar 1 Ebrill 2005.

### Cod ymarfer statudol

Canllawiau ymarferol sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac wedi eu cyflwyno i'r senedd. Gellir defnyddio'r cod fel tystiolaeth mewn tribiwnlys neu lys barn, a rhaid ei ystyried pan fo'n berthnasol i unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn achos cyfreithiol dan y ddeddfwriaeth berthnasol; yn yr achos hwn, y **DCH**.

### Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE)

Corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd dan **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976** (DCH). Ei waith yw dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon; hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol **grwpiau hil**; ac adolygu gwaith y Ddeddf ac, os bydd angen, gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio.

### Crynhoad

Yr amgylchiadau lle y bydd aelodau un grŵp hil yn dewis byw yn agos at eraill o'r un grŵp.

### Cydlyniad cymunedol

Mae 'cydlyniad cymunedol' yn disgrifio gallu cymunedau i weithredu ac i dyfu mewn cytgord yn hytrach na gwrthdaro. Mae iddo gyswllt cryf â'r syniad o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ni all cydlyniad cymunedol dyfu oni fydd y gymdeithas yn gyffredinol yn cydnabod fod hawl gan unigolion i gydraddoldeb (triniaeth, mynediad at wasanaethau ac yn y blaen), ac yn parchu a gwerthfawrogi natur amrywiol ein cymunedau.

### Cymdeithas Tai

Sefydliad nid er elw, wedi ei gofrestru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'landlord cymdeithasol cofrestredig'. Mae cymdeithasau tai yn darparu tai fforddiadwy a gwasanaethau cysylltiol i bobl sy'n methu, neu'n dewis peidio, prynu na rhentu yn y farchnad agored.

### Cymunedau yn Gyntaf

Rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tlodi yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylid seilio adnewyddu cymunedau ar anghenion y bydd y cymunedau eu hunain wedi eu dynodi.

### Cynllun cydraddoldeb hiliol

Cynllun wedi ei amserlennu yn egluro'r modd y mae awdurdod cyhoeddus yn bwriadu cyflawni ei **ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol**. Dylai'r cynllun restru'r swyddogaethau a'r polisïau a aseswyd fel rhai perthnasol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd, a nodi'r trefniadau a wnaed i asesu, ymgynghori a monitro polisïau presennol ac arfaethedig o ran eu goblygiadau posibl i gydraddoldeb hiliol.

### Cynllun enwebu

Trefniant lle y gall awdurdodau lleol drafod gyda **chymdeithasau tai** lleol yr hawl i enwebu ymgeiswyr o'u rhestrau tai i'w hail gartrefu gan gymdeithasau tai.

### Dangosyddion

Mesurau a osodir gan asiantaethau megis Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn asesu perfformiad awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

### Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (DCH)

Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y diwygiwyd gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 a Rheoliadau 2003 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Diwygiedig).

### Defnyddio data

Gellir prosesu data yn gyfreithlon, wedi ei ddiogelu'n briodol ar gyfer hawliau a rhyddid y bobl y ceir gwybodaeth amdanynt, er mwyn canfod neu fonitro bodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth gyfartal rhwng pobl o wahanol **grwpiau hil**.

### Digartref

Yn ôl y ddeddf, ystyr 'digartref' yw bod heb lety posibl i fyw ynddo, y gellir ei barcio (er enghraifft, carafán) neu ei angori (er enghraifft, cwch preswyl) yn gyfreithlon. Gall unrhyw un y mae ganddo lety, ond sy'n methu mynd iddo, fod yn ddigartref hefyd. Disgrifir unrhyw un sy'n debygol o ddod yn ddigartref o fewn 28 niwrnod fel un 'o dan fygythiad digartrefedd'. Mae pawb sy'n ateb y meini prawf statudol sy'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer cymorth tai gan awdurdod cyhoeddus yn 'statudol ddigartref'.

### Dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol

- **Dyletswydd gyffredinol:** y ddyletswydd ar **awdurdodau cyhoeddus** dan adran 71(1) DCH, i roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol **grwpiau hil**.
- **Dyletswyddau penodol:** dyletswyddau a osodir ar awdurdodau cyhoeddus sy'n atebol i'r ddyletswydd gyffredinol statudol (gweler uchod) dan Orchymyn 2001 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) neu Orchymyn 2003 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol). Mae rhestr gyfredol yr awdurdodau i'w gweld ar wefan y CRE. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys llunio a chyhoeddi **cynllun cydraddoldeb hiliol** a monitro, yn ôl grŵp hil, agweddau penodol o gyflogaeth.

### Effaith andwyol

Gwahaniaeth sylweddol ym mhatrwm y gynrychiolaeth neu'r canlyniadau rhwng **grwpiau hil**, â'r gwahaniaeth yn golygu anfantais i un grŵp hil neu ragor.

### Erledigaeth

Trin person yn llai ffafriol am eu bod wedi dwyn achos dan y **DCH**; neu wedi rhoi tystiolaeth neu wybodaeth ynglŷn ag achos a ddygwyd gan unrhyw un dan y Ddeddf honno; neu am iddynt honni bod rhywun wedi gwneud rhywbeth a fyddai'n golygu gwahaniaethu anghyfreithlon; neu am eu bod wedi gwneud rhywbeth arall dan y Ddeddf i berson arall, neu am iddynt fwriadu gwneud un o'r pethau hyn, neu gael eu hamau o fod wedi eu gwneud neu fwriadu eu gwneud.

### Gosod seiliedig ar ddewis

Cynlluniau sy'n cael eu gweithredu gan landlordiaid cymdeithasol i wella'r dewis o lety. Caiff eiddo gwag ei hysbysebu, a gwahoddir cynigion gan ymgeiswyr newydd am dai a chan denantiaid presennol. Gwneir y ceisiadau ar sail pwyntiau a ddyfernir yn ôl yr angen am gartref, neu yn ôl bandio, neu yn ôl yr amser a dreuliwyd yn disgwyl i gael eu hailgartrefu, neu gyfuniad o'r tri pheth, yn ddibynnol ar y farchnad dai leol. Rhoddir y denantiaeth i'r person â'r cynnig uchaf.

### Grant Grymuso Tenantiaid

Rhaglen grantiau a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad trwy'r cynllun Grant Rheoli Tai Cymdeithasol sy'n cael ei rheoli ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan Sefydliad Siartredig Tai Cymru. Bwriedir y grantiau er hybu a chefnogi rhagor o gyfranogi o du'r tenantiaid.

### Grwpiau hil

- Caiff grwpiau hil eu diffinio yn ôl hil, lliw, cenedligrwydd (yn cynnwys dinasyddiaeth), neu darddiad ethnig neu genedlaethol. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn amddiffyn pob grŵp hil rhag gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon. Cafodd Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Iddewon a Siciaid eu cydnabod yn benodol gan y llysoedd fel grwpiau hil dan y Ddeddf hon.
- Gall person berthyn i fwy nag un grŵp hil; er enghraifft, gellir diffinio person 'Nigeraidd' yn ôl 'hil', 'lliw', 'tarddiad ethnig neu genedlaethol', a 'chenedligrwydd'.
- Mae'r llysoedd wedi penderfynu y gall gwir grŵp hil person fod yn amherthnasol i'r ffordd y caiff ei drin, ac y gellir diffinio ei grŵp hil gan y syniad neu'r dybiaeth (anghywir) sydd gan y person sy'n gwahaniaethu yn ei erbyn am ei darddiad ethnig neu genedlaethol.

### Gwahaniad

Dan y **DCH**, mae 'gwahaniad' yn golygu cadw un person neu ragor ar wahân i eraill ar **sail hil**. Yn awtomatig, ystyrir fod gwahanu person yn golygu ei drin yn llai ffafriol nag eraill. Mae'n **wahaniaethu uniongyrchol** anghyfreithlon.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

- **Sail hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol**; defnyddio 'darpariaeth, maen prawf neu arfer' nad yw'n amlwg yn gwahaniaethu, ond sy'n rhoi pobl o hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol arbennig dan anfantais o'u cymharu

ag eraill; oni bai bod modd dangos fod y ddarpariaeth, maen prawf neu'r arfer yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

- **Sail lliw neu genedligrwydd;** defnyddio gofyniad neu amod nad yw'n amlwg yn gwahaniaethu, ac sy'n cael ei gymhwyso yn gyfartal i bawb. Ond ni ellir ei gyfiawnhau ar sail peidio gwahaniaethu am ei fod yn niweidiol i bobl o un grŵp, gan fod canran y bobl o'r grŵp hwnnw sy'n gallu cwrdd â'r gofyniad neu'r amod yn llai na chanran y bobl o grwpiau eraill.

### Gwahaniaethu uniongyrchol

Trin person yn llai ffafriol, ar sail hil, o'i gymharu â'r ffordd y caiff person o grŵp hil arall ei drin dan yr un amgylchiadau neu dan amgylchiadau tebyg.

### Gweithredu cadarnhaol

Camau y gall cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau eu cymryd yn gyfreithlon dan adrannau 35, 37 a 38 DCH, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion arbennig pobl o ran addysg, hyfforddiant neu les; neu er mwyn hyfforddi neu annog pobl o grŵp hil sydd wedi ei dangynrychioli mewn gwaith penodol.

### Gwerth Gorau

Dyletswydd statudol (a elwir bellach yn 'Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella'). Mae'n mynnu bod awdurdodau lleol (ers 1999) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (ers 2002) yn gwneud gwelliannau parhaus o ran effeithiolrwydd,, effeithlonrwydd ac o ran arbed arian wrth ddarparu gwasanaeth a defnyddio adnoddau.

### Gwir gymhwyster galwedigaethol a gwir ofyniad galwedigaethol

- Gall cyflogwr wahaniaethu ar sail lliw neu genedligrwydd dim ond o ran rhai mathau o swyddi yn mynnu bod perthyn i grŵp hil penodol yn gymhwyster galwedigaethol dilys ar gyfer y swydd.
- Gall cyflogwr wahaniaethu ar sail lliw neu darddiad ethnig neu genedlaethol dim ond os bydd perthyn i grŵp hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol penodol yn gymhwyster galwedigaethol dilys a hanfodol oherwydd natur y gwaith neu'r cyd-destun y gwneir y gwaith ynddo.

### Hiliaeth sefydliadol

Cysyniad a gyflwynwyd gan Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence, a ddiffinnir fel methiant cyfunol sefydliad i ddarparu gwasanaethau priodol a phroffesiynol i bobl oherwydd eu lliw, diwylliant neu darddiad ethnig. Gellir ei weld neu ei ganfod mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n golygu bod pobl heb yn wybod yn gwahaniaethu trwy ragfarn, anwybodaeth, diffyg meddwl a stereoteipio hiliol sy'n peri anfantais i bobl. Nid oes unrhyw rym cyfreithiol i'r syniad hwn.

### Iaith Pawb

'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n amlinellu'r pethau y bydd yn eu gwneud i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog.

### Integreiddio

Mae integreiddio yn digwydd pan gyflawnir gofynion hanfodol canlynol cymdeithas integredig:

- cydraddoldeb – pan fo gan bob aelod o gymdeithas gyfle cyfartal i gael swyddi a gwasanaethau heb ofn gwahaniaethu;
- cyfranogi - pan all pob unigolyn gyfranogi yn y drefn o wneud y penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, ac mewn llunio polisïau a gwasanaethau; a
- rhyngweithio – pan gaiff grwpiau hil gwahanol gyswllt cadarnhaol gyda'i gilydd, gan godi pontydd rhwng cymunedau er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth.

### Monitro

Proses sy'n cynnwys casglu, storio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth er mwyn mesur perfformiad neu gynnydd neu newid. Mae monitro cydraddoldeb hiliol yn cynnwys casglu, storio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am y grwpiau hil y dywed pobl eu bod yn perthyn iddynt

### Offeryn elusennol

Deddfiad neu weithred sy'n cael ei llunio at ddiben elusennol; neu ddeddfiad neu weithred o ran a wnelo â dibenion elusennol.

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion am lywodraeth leol, tai (yn cynnwys cymdeithasau tai), cynllunio, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd (yn cynnwys meddygon teulu), a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Plan cydraddoldeb hiliol

Nid yw cymdeithasau tai yn rhan o'r diffiniad o awdurdodau cyhoeddus, ac felly nid oes raid iddynt lunio cynlluniau cydraddoldeb hiliol. Er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl safonaue tebyg, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynnu eu bod yn datblygu planiau cydraddoldeb hiliol.

### Rhybudd peidio â gwahaniaethu

Rhybudd y gall y CRE ei gyflwyno i sefydliad fel rhan o **ymchwiliad ffurfiol** i 'berson a enwir', os yw'r CRE yn canfod tystiolaeth o **wahaniaethu** neu **aflonyddu** hiliol anghyfreithlon sy'n golygu bod angen i'r person roi gorau i gyflawni gweithredoedd o wahaniaethu anghyfreithlon.

### Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru

Mae'r Safon yn darparu fframwaith hunanasesu ar gyfer awdurdodau er mwyn dynodi a delio â'r gweithgareddau o fewn y sefydliadau sy'n gallu achosi anghyfartaledd a pheri gwahaniaethu. Mae'r Safon yn cynnig ymagwedd gyffredin o ddelio â chydraddoldeb, hil, yr iaith Gymraeg, rhyw ac anabledd. Ond mae hefyd yn hyblyg er mwyn galluogi awdurdodau i fynd i'r afael â meysydd eraill cydraddoldeb, megis oedran a thueddfryd rhywiol.

### Sail hil

Sail hil, lliw, cenedligrwydd (yn cynnwys dinasyddiaeth) neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

### Asset Skills

Prosiect a gefnogir gan Gronfa Datblygu Sgiliau Addysg a Dysgu yng Nghymru. Caiff ei weithredu mewn partneriaeth â Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Cymorth Cymru ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'n gwneud gwaith ymchwil i'r

sgiliau sydd eu hangen o fewn sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu tai cymdeithasol a thai â chymorth yng Nghymru. Gweler http://www.assetskills.org/pages/Default.aspx?tabid=120.

### Swyddogaethau

Ystod llawn dyletswyddau a grymoedd awdurdod cyhoeddus.

### Tai Pawb

Y sefydliad tai lleiafrifoedd ethnig ar gyfer Cymru, a sefydlwyd yn 2004. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn helpu sefydliadau tai i ddatblygu a gweithredu 'Strategaeth Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' ledled Cymru trwy ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chyngor. Gwaith Tai Pawb yw hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chyfiawnder cymdeithasol o ran tai yng Nghymru.

### Ymchwiliad ffurfiol

Ymchwiliad gan y **CRE** dan adrannau 49-52 y **DCH**. Gall fod yn ymchwiliad o 'berson a enwir' y mae'r CRE yn amau iddo wahaniaethu yn anghyfreithlon ar **sail hil**; neu'n ymchwiliad cyffredinol er mwyn archwilio arfer mewn maes arbennig o weithgaredd. Gall y CRE wneud argymhellion; ac mewn ymchwiliad o 'berson a enwir' gall gyflwyno **rhybudd i beidio gwahaniaethu** am gyfnod o bum mlynedd.

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

www.cre.gov.uk

## SWYDDFEYDD

**PRIF SWYDDFA**
St Dunstan's House
201–211 Borough High Street
Llundain
SE1 1GZ
☎ 020 7939 0000

**BIRMINGHAM**
Lancaster House (3rd floor)
67 Newhall Street
Birmingham
B3 1NA
☎ 0121 710 3000

**MANCEINION**
Arndale House
Arndale Centre
Manceinion
M4 3EQ

**YR ALBAN**
The Tun
12 Jackson's Entry
off Holyrood Road
Caeredin
EH8 8PJ
☎ 0131 524 2000

**CYMRU**
Tŵr y Ddinas (3ydd llawr)
Ffordd y Brodyr Llwydion
Caerdydd
CF10 3AG
☎ 02920 729200

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Cyhoeddwyd 2006

ISBN 1 85442 598 6 (fersiwn PDF)

## Datganiad cenhadaeth y CRE

Rydym yn gweithio dros gymdeithas deg ac integredig, lle caiff amrywiaeth ei werthfawrogi. Rydym yn defnyddio perswâd a'n pwerau o dan y gyfraith i roi cyfle cyfartal i bawb i fyw yn rhydd o ofn, gwahaniaethu, rhagfarn a hiliaeth.